

Deddf Gallu Meddyliol 2005

Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid

Cod Ymarfer i gyd-fynd â phrif God Ymarfer
Deddf Gallu Meddyliol 2005

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Deddf Gallu Meddyliol 2005

Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid

Cod Ymarfer i gyd-fynd â phrif God
Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005

Cyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar Awst 26 2008
yn unol ag adrannau 42 a 43 y Ddeddf.

Llundain: TSO



information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael oddi wrth:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Drwy'r Post, Ffôn, Ffacs & E-bost

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Siopau TSO

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ

0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

© Hawlfraint y Goron 2008

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2008

ISBN 978 0 11 3228256

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran y Llyfrfa.

Gallwch aildefnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn (heb gynnwys yr Arfbais Brenhinol a logos adrannol neu asiantaethol eraill) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio yn gywir ac heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint y Goron a rhaid i chi roi teitl y ffynhonnell/cyhoeddiad. Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw ddeunydd fel hawlfraint trydydd parti bydd raid i chi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint dan sylw.

Gellir gweld y ddogfen/cyhoeddiad hwn hefyd ar ein gwefan yn:

www.publicguardian.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen/cyhoeddiad hwn atom yn:

Office of the Public Guardian

Archway Tower 2

Junction Road

London

N19 5SZ

0845 330 2900

Rhagair gan Ivan Lewis ac Edwina Hart MBE



Ivan Lewis,
Is-ysgrifennydd
Seneddol,
Adran Iechyd



Edwina Hart AS MBE,
Gweinidog Llywodraeth
y Cynulliad dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol


Mae Deddf Gallu Meddyliol 2005 ('y Ddeddf') yn cynnig fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb y gallu meddyliol i wneud hynny eu hunain. Mae wedi cyflwyno nifer o gyfreithiau i amddiffyn yr unigolion hyn ac i sicrhau y rhoddir pob cyfle iddynt wneud penderfyniadau eu hunain. Daeth y Ddeddf i rym ym mis Hydref 2007.

Mae'r Llywodraeth wedi ychwanegu darpariaethau newydd at y Ddeddf: trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Mae'r trefniadau yn canolbwyntio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas: rhai y mae angen, er mwyn eu diogelwch a'u lles eu hunain, eu cartrefu o dan drefniadau gofal a thriniaeth a allai arwain at iddynt gollu eu rhyddid, ond na fedrant gydsynio i hyn eu hunain.

Mae amddifadu rhywun o'i ryddid yn fater difrifol iawn ac ni ddylai ddigwydd oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol, ac er lles y person dan sylw. Dyna pam y crëwyd y trefniadau diogelu hyn: i sicrhau bod unrhyw benderfyniad sy'n arwain at gollu rhyddid yn cael ei wneud yn unol â phrosesau clir ac ar ôl ymgynghori ag awdurdodau penodol.

Mae'r darpariaethau newydd yn y Ddeddf yn gosod allan y fframwaith cyfreithiol ar gyfer y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn yn ffurfiol gan yr Arglwydd Ganghellor fel Cod Ymarfer o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae'n rhoi canllawiau a gwybodaeth i rai sy'n gweithredu deddfwriaeth y trefniadau diogelu yn ddyddiol. Mewn rhai achosion, staff cyflogedig fydd y rhain, dro arall rhai a benodwyd yn gyfreithlon i gynrychioli unigolion na fedrant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain fyddant (fel dirprwyon neu rai sy'n derbyn Pŵer Atwrnai Arhosol).

Oherwydd y gynulleidfa eang hon, mae'r Cod Ymarfer wedi cael ei ysgrifennu i'w wneud mor gyfeillgar i'w ddefnyddiwr â phosibl – fel prif God Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2007. Rydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth sylw ar ddrafftiau cynharach y Cod i'w helpu i gyflawni'r nod hwnnw.



Ivan Lewis



Edwina Hart

Mae Deddf Gallu Meddyliol 2005 ('y Ddeddf') ar gyfer Cymru a Lloegr yn rhoi fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl na fedrant wneud y penderfyniadau hynny eu hunain. Medrant fod yn benderfyniadau bach – fel pa ddillad i'w gwisgo – neu rai mawr, fel lle i fyw.

Mewn rhai achosion, ni all pobl gydsynio i dderbyn triniaeth neu ofal arbennig sydd ym marn eraill er eu lles, neu a fyddai yn eu hamddiffyn rhag niwed. Lle gallai'r gofal hwn arwain at bobl agored i niwed yn colli eu rhyddid naill ai yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal, mae trefniadau diogelu ychwanegol wedi cael eu cyflwyno, o dan y gyfraith, i warchod eu hawliau ac i sicrhau bod y gofal neu'r driniaeth a roddir iddynt er eu lles.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn helpu i egluro sut i adnabod rhywun sy'n colli ei ryddid, neu sydd mewn perygl o'i golli, a sut y gellir osgoi hyn. Mae hefyd yn [egluo](#)r trefniadau diogelu sydd bellach yn eu lle i sicrhau bod colli rhyddid, pan fydd angen iddo ddigwydd, yn digwydd yn gyfreithlon. Yn ogystal, mae'n rhoi canllawiau ar beth y dylai rhywun ei wneud os ydynt yn amau bod rhywun sydd heb y gallu meddyliol yn colli ei ryddid yn anghyfreithlon.

Mae'r trefniadau diogelu hyn yn ffordd bwysig o warchod hawliau nifer o bobl agored i niwed ac ni ddylid eu gweld fel rhywbeth negyddol. Gall trefnu bod rhywun yn colli ei ryddid fod yn angenrheidiol i ddarparu gofal neu driniaeth effeithiol. Drwy ddilyn y meini prawf y manylir arnynt yn y trefniadau, ac a eglurir yn y Cod Ymarfer hwn, gellir gwneud y penderfyniad i drefnu bod rhywun yn colli ei ryddid yn gyfreithlon ac yn iawn.

Sut y mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i brif God Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005?

Mae'r ddogfen hon yn ychwanegu at y canllawiau ym mhrif God Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005 ('y prif God'), a gyhoeddwyd yn Ebrill 2007, a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â'r prif God. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid sydd wedi eu hychwanegu at y Ddeddf. Gellir darllen y rhain yn adrannau 4A a 4B, ac yn Atodlenni A1 ac 1A, o'r Ddeddf.

Er y soniwyd am y trefniadau hyn yn y prif God (yn benodol ym mhenodau 6 a 13), ni chawsant eu trafod yn fanwl. Y rheswm am hyn oedd bod y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, pan gyhoeddwyd y prif God, yn dal i fynd drwy'r broses Seneddol fel rhan o'r Mesur Iechyd Meddwl.¹

Er nad yw'r prif God yn sôn yn fanwl am y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, mae egwyddorion y Cod hwnnw, a llawer o'i gynnwys, yn uniongyrchol berthnasol i'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Mae'n bwysig glynu at y Ddeddf a'r prif God pob tro yr ystyrir materion gallu meddyliol a lles, a'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn ychwanegol at, ac nid yn lle, trefniadau diogelu eraill yn y Ddeddf.

Sut y dylid defnyddio'r Cod Ymarfer hwn?

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn rhoi canllawiau i unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion sydd heb allu meddyliol a / neu sy'n gofalu amdanynt, ond gyda ffocws arbennig ar rai sydd â 'dyletswydd gofal' tuag at rywun na fedrant gydsynio i'r gofal neu'r driniaeth sy'n cael ei roi iddynt, lle gallai'r gofal neu'r driniaeth honno arwain at fod angen i'r person golli ei ryddid. Diben arall y Cod Ymarfer hwn yw rhoi gwybodaeth i bobl sydd eisoes, neu a allai ddod, yn destun y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, a hefyd i'w teuluoedd, ffrindiau a gofalywyr, yn ogystal ag i unrhyw un sy'n credu bod rhywun wedi colli ei ryddid yn anghyfreithlon.

Yn y Cod Ymarfer hwn, ac yn y prif God trwyddo draw, mae pob cyfeiriad at 'ddiffyg gallu' yn cyfeirio at y gallu i wneud penderfyniad arbennig ar adeg pan fo angen ei wneud. Yng nghyd-destun y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, y gallu yw'r gallu penodol i benderfynu a ydynt yn cydsynio i dderbyn gofal neu driniaeth sy'n golygu eu cadw mewn ysbyty neu gartref gofal mewn amgylchiadau lle byddent yn colli eu rhyddid, ar adeg pan fo angen gwneud y penderfyniad hwnnw.

Beth yw statws cyfreithiol y Cod Ymarfer hwn?

Fel gyda'r prif God, mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gyhoeddi gan yr Arglwydd Ganghellor, o dan adrannau 42 a 43 o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Pwrpas y prif God yw rhoi canllawiau a gwybodaeth am sut y mae'r Ddeddf yn gweithio ar lefel ymarferol.

¹ Defnyddiwyd y Mesur Iechyd Meddwl fel cyfrwng i ddiwygio Deddf Gallu Meddyliol 2005 er mwyn cyflwyno'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Daeth y Mesur yn Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 ar ôl cwblhau ei daith drwy'r Senedd.

Mae gan y Cod hwn a'r prif God rym statudol, sy'n golygu bod gan rai pobl ddyletswydd cyfreithiol i'w hystyried. Rhoddir mwy o fanylion yn y Cyflwyniad i'r prif God, sy'n egluro statws cyfreithiol y Cod a phwy ddylai ei ystyried.

Yn ogystal â'r rhai y bwriedir y prif God ar eu cyfer, mae'r Cod Ymarfer hwn yn canolbwyntio'n benodol ar roi canllawiau i:

- pobl sy'n cyflawni gwaith yng nghyswllt y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, a
- phobl sy'n gweithredu fel cynrychiolydd² person perthnasol o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (gweler pennod 7).

Senarios a ddefnyddir yn y Cod Ymarfer hwn

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cynnwys blychau yn y prif destun sy'n cynnwys senarios, yn defnyddio cymeriadau a sefyllfaoedd dychmygol. Eu diben yw helpu i ddangos beth y mae'r prif destun yn ceisio ei ddweud. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif eu cymryd fel templedi ar gyfer penderfyniadau sydd angen eu gwneud mewn sefyllfaoedd tebyg. Rhaid i benderfyniadau bob amser gael eu gwneud ar sail y ffeithiau ym mhob achos unigol.

Fformatau eraill a gwybodaeth bellach

Mae'r Cod Ymarfer hwn hefyd ar gael yn Saesneg a gallwn drefnu iddo fod ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais.

² 'Person perthnasol' yw rhywun sydd wedi colli ei ryddid, neu a allai ei golli yn y dyfodol, yn unol â'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.

1. Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a pham y cawsant eu cyflwyno?	9
Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid?	9
I bwy y mae'r trefniadau diogelu hyn yn berthnasol?	11
Pryd y gellir trefnu bod rhywun yn colli ei ryddid?	12
A oes unrhyw ystyriaethau diwylliannol wrth weithredu'r trefniadau diogelu?	13
Ym mha sefyllfaoedd y mae'r trefniadau diogelu yn berthnasol?	14
Sut y mae'r trefniadau diogelu yn berthnasol i weddill Deddf Gallu Meddyliol 2005?	14
2. Beth yw colli rhyddid?	16
Beth y mae'r gyfraith achosion yn ei ddweud hyd yma?	16
Sut y gellir adnabod colli rhyddid?	18
Pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i leihau'r risg o golli rhyddid?	18
Beth y mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'ataliaeth'?	19
Sut y mae defnyddio ataliaeth yn berthnasol mewn ysbyty neu wrth fynd â rhywun i'r ysbyty neu i gartref gofal?	20
Enghreifftiau o gyfraith achosion	21
3. Sut a phryd y gellir gwneud cais amgolli rhyddid, a chaniatáu hynny?	28
Sut, yn gryno, y gellir caniatáu colli rhyddid?	28
Sut y dylai'r awdurdodau rheoli benderfynu a ddylid gwneud cais am ganiatâd neu beidio?	30
Beth yw'r broses o wneud cais?	31
Pwy ddylai gael gwybod bod cais wedi'i wneud?	34
Pa gamau y mae angen i'r corff goruchwyllo eu cymryd pan fydd yn derbyn cais am ganiatâd?	34
A ellir gwneud cais am ganiatâd ymlaen llaw?	35
Beth sy'n digwydd pan fydd yr awdurdod rheoli a'r corff goruchwyllo yr un sefydliad?	35
Pryd y dylid cyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol?	36

4. Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?	39
Pa asesiadau sydd angen eu gwneud cyn rhoi caniatâd safonol?	39
Pryd y dylai'r asesiadau ddigwydd?	41
Sut y dylid dewis aseswyr?	41
Beth yw'r broses asesu?	44
Pa ganllawiau sydd ar gael ar gyfer gwaith aseswyr?	60
5. Beth ddylai ddigwydd unwaith y mae'r asesiadau wedi eu gwneud?	61
Pa gamau y dylai'r corff goruchwyllo eu cymryd os daw'r asesiadau i'r casgliad bod y person yn bodloni'r gofynion i roi caniatâd?	61
Am ba mor hir y gall caniatâd colli rhyddid bara?	63
Pa gyfyngiadau sydd ar ganiatâd colli rhyddid?	63
A ellir symud person i rywle gwahanol o dan ganiatâd safonol?	64
Beth sy'n digwydd os daw asesiad i'r casgliad na chafodd un o'r gofynion ei fodloni?	64
Beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod rheoli a'r comisiynwyr gofal os yw cais am ganiatâd yn cael ei wrthod?	65
6. Pryd y gellir rhoi caniatâd colli rhyddid brys?	67
Pryd y gellir rhoi caniatâd colli rhyddid brys?	67
Pa gofnodion sydd angen eu cadw ar ganiatâd brys?	69
Gyda phwy y dylid ymgynghori cyn rhoi caniatâd brys?	69
A ellir symud person i sefyllfa ofal o dan ganiatâd brys?	71
Beth sy'n digwydd pan ddaw cyfnod caniatâd brys i ben?	72
Sut a phryd y dylid rhoi estyniad i ganiatâd brys?	73
7. Beth yw rôl cynrychiolydd person perthnasol?	76
Beth yw rôl cynrychiolydd person perthnasol?	76
Sut y dylai awdurdodau rheoli weithio gyda chynrychiolydd person perthnasol?	77
Pwy sy'n gallu bod yn gynrychiolydd person perthnasol?	77
Pryd y dylid dynodi cynrychiolydd person perthnasol?	78
Sut y dylid dewis cynrychiolydd person perthnasol?	79
Sut y dylid penodi cynrychiolydd person perthnasol?	81

Sut y dylid cefnogi a monitro gwaith cynrychiolydd person perthnasol?	82
Pryd y gellir terfynu penodiad cynrychiolydd person perthnasol?	83
Beth sy'n digwydd os nad oes cynrychiolydd person perthnasol ar gael?	84
Pryd y dylid cyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol?	84
8. Pryd y dylid adolygu caniatâd a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?	86
Pryd y dylid adolygu caniatâd safonol?	86
Beth sy'n digwydd pan fydd adolygiad wedi'i drefnu?	87
Sut y dylid adolygu caniatâd safonol?	88
Beth sy'n digwydd os nad yw unrhywun o'r gofynion yn cael eu bodloni?	90
A oes angen cael adolygiad pan fydd gallu meddyliol person perthnasol yn amrywio?	91
Beth sy'n digwydd pan ddaw caniatâd i ben?	93
9. Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn meddwl bod person yn colli ei ryddid heb fod wedi cael caniatâd?	94
Pa gamau y dylai rhywun eu cymryd os credant fod person yn colli ei ryddid heb fod wedi cael caniatâd?	94
Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn hysbysu'r corff goruchwyllo yn uniongyrchol eu bod yn meddwl bod person yn colli ei ryddid heb fod wedi cael caniatâd?	96
Sut yr asesir achos o golli rhyddid heb fod wedi cael caniatâd?	96
Beth sy'n digwydd unwaith y bydd yr asesiad wedi'i wneud?	97
10. Beth yw'r Llys Gwarchod a phryd y gall pobl wneud cais iddo?	98
Pryd y gall pobl wneud cais i'r Llys Gwarchod ynglŷn â'r trefniadau diogelu rhagcolli rhyddid a phwy sy'n gallu gwneud cais?	98
Sut y dylai rhywun fynd ati i wneud cais i'r Llys Gwarchod?	99
Pa orchmynion y mae'r Llys Gwarchod yn gallu eu gwneud?	100
Beth yw rôl y Llys Gwarchod yng nghyswllt pobl sydd heb allu meddyliol ac sy'n colli eu rhyddid mewn sefyllfaoedd ar wahân i ysbytai neu gartrefi gofal?	100
A oes cymorth cyfreithiol ar gael i wneud cais i'r Llys Gwarchod mewn achosion trefniadau diogelu rhag colli rhyddid?	101

11. Sut y bydd y trefniadau diogelu'n cael eu monitro?	102
Pwy fydd yn monitro'r trefniadau diogelu?	102
Beth fydd y cyrff arolygu yn ei wneud a pha bwerau fydd ganddynt?	102
Rhestrau gwirio	104
Pwyntiau allweddol i gartrefi gofal ac ysbytai (awdurdodau rheoli)	104
Pwyntiau allweddol i awdurdodau lleol a chyrff GIG (cyrff goruchwylio)	105
Pwyntiau allweddol i awdurdodau rheoli a chyrff goruchwylio	106
Atodiadau	107
Atodiad 1 – Trosolwg ar broses y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid	107
Atodiad 2 – Beth ddylai awdurdod rheoli ei ystyried cyn gwneud cais am ganiatâd colli rhyddid?	108
Atodiad 3 – Gweithredu gan gorff goruchwylio ar ôl derbyn cais am ganiatâdcolli rhyddid safonol neu i benderfynu a yw colli rhyddid heb fod wedi caelcaniatâd yn digwydd	110
Atodiad 4 – Y broses o adolygu caniatâd safonol	112
Geiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Cod Ymarfer	114

1 Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a pham y cawsant eu cyflwyno?

Cafodd y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid eu cyflwyno i roi fframwaith cyfreithiol ar gyfer colli rhyddid. Yn benodol, cawsant eu cyflwyno i atal torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel yn y dyfarniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn achos *HL v Y Deyrnas Unedig*³ (y cyfeirir ato fel arfer fel dyfarniad 'Bournemouth'). Roedd yr achos yn ymwneud â dyn awtistig (HL) gydag anabledd dysgu, a oedd heb y gallu i benderfynu a ddylai gael ei ddwyn i'r ysbyty i dderbyn triniaeth benodol. Cafodd ei ddwyn i'r ysbyty ar sail anffurfiol o dan y gyfraith gyffredin, er ei les, ond heriwyd y penderfyniad gan ofalwyr HL. Yn ei ddyfarniad, penderfynodd y Llys Hawliau Dynol fod HL wedi colli ei ryddid drwy gael ei ddwyn i'r ysbyty, a hefyd:

- nad oedd y colli rhyddid wedi digwydd yn unol â 'gweithdrefn a bennir gan y gyfraith' a'i fod, felly, yn torri Erthygl 5(1) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac
- ei fod yn torri Erthygl 5(4) o'r Confensiwn oherwydd nad oedd gan HL y modd i wneud cais yn sydyn i'r llys i weld a oedd y colli rhyddid yn gyfreithlon.

I atal achosion pellach o dorri'r Confensiwn, cafodd Deddf Gallu Meddyliol 2005 ei diwygio i gynnwys trefniadau diogelu i bobl sydd heb allu penodol i gydsynio i driniaeth neu ofal naill ai mewn ysbyty neu gartref gofal⁴ y gellid, er eu lles, ond eu rhoi mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr â cholli rhyddid, a lle nad yw caethiwo rhywun o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1993 yn briodol i'r person ar y pryd. Byddwn yn cyfeirio at y trefniadau diogelu hyn yn y Cod Ymarfer hwn fel 'trefniadau diogelu rhag colli rhyddid'.

Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid?

- 1.1 Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn cynnig gwarchodaeth gyfreithiol i'r bobl agored i niwed hynny sydd wedi, neu a allai, golli eu rhyddid o fewn ystyr Erthygl 5 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn ysbyty neu gartref gofal, p'un ai o dan drefniadau cyhoeddus neu breifat. Nid ydynt yn berthnasol i bobl sy'n cael eu caethiwo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Diben y trefniadau yw darparu proses gyfreithiol gywir a gwarchodaeth addas yn yr amgylchiadau hynny lle ymddengys na ellir osgoi bod rhywun yn colli ei ryddid, er lles y person ei hun.

³ (2004) Cais rhif: 00045508/99

⁴ Yn y ddogfen hon drwyddi draw, mae'r term 'cartref gofal' yn golygu cartref gofal wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

- 1.2 Dylid gwneud pob ymdrech, wrth gomisiynu a darparu gofal neu driniaeth, i atal colli rhyddid. Os na ellir osgoi colli rhyddid, ni ddylai fod am fwy o amser na sydd angen.
- 1.3 Mae'r trefniadau yn darparu bod colli rhyddid yn digwydd yn gyfreithlon drwy brosesau caniatâd 'safonol' neu 'frys'. Dyfeisiwyd y prosesau hyn i atal penderfyniadau mympwyol ynghylch bod rhywun yn colli ei ryddid ac i roi hawl i herio caniatâd colli rhyddid.
- 1.4 Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn golygu bod yn rhaid i 'awdurdod rheoli' (h.y. yr ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol – gweler paragraff 3.1) ofyn am ganiatâd gan 'gorff goruchwyllo' er mwyn trefnu'n gyfreithlon bod rhywun yn colli ei ryddid. Cyn rhoi caniatâd o'r fath, rhaid bodloni'r corff goruchwyllo bod gan y person anhwylder meddyliol⁵ ac nad yw'n gallu gwneud penderfyniad ynghylch ei ofal neu driniaeth. Gallai'r corff goruchwyllo fod yn ymddiriedolaeth gofal sylfaenol, yn awdurdod lleol, yn Weinidogion Cymru neu'n fwrdd iechyd lleol (gweler paragraff 3.3).
- 1.5 Bydd penderfyniad ynghylch a ydyw colli rhyddid yn codi yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau yn yr achos (fel a eglurir yn fwy manwl ym mhennod 2). Nid oes angen, ac nid yw'n briodol ychwaith, gwneud cais am ganiatâd colli rhyddid ar ran pawb sydd mewn ysbyty neu gartref gofal dim ond oherwydd nad yw'r person yn gallu penderfynu a ddylai fod yno neu beidio. Wrth benderfynu a oes angen cais neu beidio, dylai awdurdod rheoli ystyried yn ofalus a oes unrhyw gyfyngiadau sydd, neu a fydd, eu hangen i ddarparu gofal neu driniaeth barhaus sy'n gyfystyr â cholli rhyddid os edrychir arnynt gyda'i gilydd.

⁵ Fel a ddiffinnir yn adran 1 Deddf Iechyd Meddwl 1983, anhwylder meddyliol yw unrhyw anhwylder neu anabledd meddyliol, ar wahân i fod yn gaeth i alcohol a chyffuriau. Mae hyn yn cynnwys pob anabledd dysgu. Nid yw'r gwahaniaeth yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 rhwng anableddau dysgu gan ddibynnu a ydynt yn gysylltiedig ag ymddygiad abnormal o ymosodol neu ddifrifol anghyfrifol neu beidio, yn berthnasol.

1.6 Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn trafod:

- sut y dylid mynd ati i wneud cais am ganiatâd
- sut y dylid asesu cais am ganiatâd
- y gofynion sydd angen eu bodloni er mwyn i ganiatâd gael ei roi
- sut y dylid adolygu caniatâd
- pa gymorth a chynrychiolaeth sy'n rhaid eu darparu i bobl sy'n destun caniatâd, a
- sut y gall pobl herio caniatâd.

Pennod 1

Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a pham y cawsant eu cyflwyno?

I bwy y mae'r trefniadau hyn yn berthnasol?

- 1.7 Mae'r trefniadau yn berthnasol i bobl yng Nghymru a Lloegr sy'n dioddef o anhwylder meddyliol ac na fedrant gydsynio i'r trefniadau ar gyfer eu gofal neu driniaeth, ond lle byddai derbyn gofal neu driniaeth mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr â cholli rhyddid efallai'n angenrheidiol i'w gwarchod rhag niwed ac mae'n ymddangos i fod er eu lles. Bydd nifer fawr o'r bobl hyn yn bobl gydag anableddau dysgu sylweddol, neu'n bobl hyn gyda dementia neu anabledd tebyg, ond medrant hefyd gynnwys rhai sy'n dioddef o gyflwr niwrolegol arall (o ganlyniad i anaf i'r ymennydd er enghraifft).
- 1.8 Er mwyn dod o fewn sgôp caniatâd colli rhyddid, rhaid i berson gael ei gadw mewn ysbyty neu gartref gofal, i bwrpas derbyn gofal neu driniaeth mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr â cholli rhyddid. Rhaid i'r caniatâd fod yn berthnasol i'r unigolyn dan sylw ac i'r ysbyty neu'r cartref gofal lle cedwir ef.
- 1.9 I bwrpas Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, nid oes unrhyw wahaniaeth mewn egwyddor rhwng trefnu bod person sydd heb allu yn colli ei ryddid er mwyn ei drin am gyflwr corfforol, a threfnu ei fod yn colli ei ryddid er mwyn trin anhwylder meddyliol. Felly, bydd adegau pan fydd pobl na fedrant gydsynio yn cael eu dwyn i'r ysbyty i drin salwch neu anafiadau corfforol, a bydd angen iddynt wedyn dderbyn gofal mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr â cholli rhyddid. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid gwneud cais am ganiatâd colli rhyddid. O ganlyniad, rhaid dilyn y Cod Ymarfer hwn a'i ddefnyddio nid yn unig mewn cartrefi gofal ac unedau iechyd meddwl ond mewn sefyllfaoedd ysbyty aciwt hefyd.

- 1.10 Mae'n bwysig cofio, er bod y person efallai'n colli ei ryddid i bwrpas rhoi triniaeth, nad yw caniatâd colli rhyddid ynddo'i hun yn awdurdodi triniaeth. Gellir ond rhoi triniaeth, yn dilyn cael caniatâd colli rhyddid, gyda chydysniad y person (os yw'r gallu ganddo i wneud y penderfyniad hwnnw) neu'n unol â darpariaethau ehangach Deddf Gallu Meddyliol 2005. Rhoddir mwy o fanylion ar hyn ym mharagraffau 5.10 i 5.13 yn y Cod hwn.
- 1.11 Nid yw'r trefniadau diogelu yn berthnasol i bobl tra cedwir nhw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, mae'r trefniadau yn berthnasol i berson sydd wedi'i gadw'n flaenorol yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae achosion eraill lle na fydd pobl sydd – neu a allai fod – yn destun Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn bodloni'r gofyniad cymhwys ar gyfer y trefniadau. Mae Pennod 13 yn y prif God yn cynnwys canllawiau ar y berthynas rhwng Deddf Gallu Meddyliol 2005 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn gyffredinol, felly hefyd God Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 ei hun. Mae paragraffau 4.40 i 4.57 o'r Cod presennol yn egluro'r berthynas rhwng y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a Deddf Iechyd Meddwl 1983, ac yn benodol sut i asesu a ydyw person yn gymwys i golli ei ryddid o dan y trefniadau diogelu.
- 1.12 Mae'r trefniadau'n berthnasol i bobl 18+ oed yn unig. Os cyfyd cwestiwn ynghylch trefnu bod person o dan 18 oed yn colli ei ryddid, rhaid ystyried trefniadau diogelu eraill – fel pwerau presennol y llys, yn enwedig rhai o dan adran 25 Deddf Plant 1989, neu drwy ddefnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Pryd gellir trefnu bod rhywun yn colli ei ryddid?

- 1.13 Mae trefnu bod rhywun sydd heb y gallu i gydsynio i'r trefniadau ar gyfer eu gofal neu driniaeth yn colli ei ryddid yn fater difrifol, ac ni ddylid cymryd y penderfyniad i wneud hynny'n ysgafn. Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn nodi'n glir y gellir ond trefnu bod person yn colli ei ryddid:
- er ei les ei hun i'w warchod rhag niwed
 - os yw'n ymateb cymesur i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed, ac
 - os nad oes dewis arall llai cyfyngol ar gael.

- 1.14 Ni ddylid defnyddio colli rhyddid, o dan unrhyw amgylchiadau, i gosbi rhywun neu er hwylustod y garfan broffesiynol, gofalwyr neu unrhyw un arall. Ni ddylaicolli rhyddid fod yn estynedig oherwydd oedi gyda symud pobl o un sefyllfa ofal neu driniaeth i'r llall, er enghraifft pan fydd rhywun yn aros i gael ei ryddhau ar ôl cwblhau triniaeth yn yr ysbyty.

A oes unrhyw ystyriaethau diwylliannol wrth weithredu'r trefniadau diogelu?

- 1.15 Ni ddylai'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid effeithio mewn ffordd wahanol ar wahanol grwpiau hil neu ethnig, a dylid gofalu i sicrhau nad yw'r darpariaethau'n cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau hil neu ethnig penodol. Mater i'r awdurdodau rheoli a'r cyrff goruchwyllo yw sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y cyswllt hwn a bod y trefniadau'n cael eu gweithredu'n deg a chyson.
- 1.16 Dylai fod gan aseswyr sy'n cyflawni asesiadau colli rhyddid i helpu i benderfynu a ddylai person golli ei ryddid neu beidio (gweler pennod 4) y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ystyried cefndiroedd amrywiol pobl. Yr un modd, bydd angen iddynt gael dealltwriaeth o, a pharch at gefndir y person perthnasol. Rhaid i gyrff goruchwyllo ystyried y ffactorau hyn wrth benodi aseswyr a cheisio penodi'r person mwyaf addas sydd ar gael bob tro.
- 1.17 Dylai cyfieithwyr fod ar gael, lle bo angen, i helpu aseswyr i gyfathrebu nid yn unig â'r person perthnasol ond hefyd gyda phobl sydd â budd yn ei ofal a'i driniaeth. Dylai cyfieithydd fod yn gymwysedig a phrofiadol fel y gall gynnig cymorth iaith a chyfathrebu effeithiol i'r achos dan sylw, a chynnig cymorth priodol i'r aseswyr perthnasol. Dylid trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill lle bo hynny'n berthnasol.
- 1.18 Dylai unrhyw benderfyniad i gyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (gweler paragraffau 3.22 i 3.28) neu gynrychiolydd person perthnasol (gweler pennod 7) ystyried cefndir diwylliannol, cenedlaethol, hiliol neu ethnig y person perthnasol.

Pennod 1

Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a pham y cawsant eu cyflwyno?

Ym mha sefyllfaoedd y mae'r trefniadau diogelu yn berthnasol?

- 1.19 Er bod dyfarniad Bournemouth yn benodol yng nghyswllt claf nad oedd ganddo'r gallu i gydsynio i fynd i'r ysbyty i dderbyn triniaeth iechyd meddwl, mae gan y dyfarniad oblygiadau ehangach sy'n ymestyn i bobl sydd heb allu ac a allai golli eu rhyddid naill ai mewn ysbyty neu gartref gofal.
- 1.20 Bydd ond yn gyfreithlon trefnu bod rhywun yn colli ei ryddid yn rhywle arall (er enghraifft, yn eu cartrefi eu hunain, mewn unedau cymorth ar wahân i gartref gofal, neu mewn canolfan ddydd) wrth weithredu gorchymyn gan y Llys Gwarchod yng nghyswllt mater lles personol. Mewn achos o'r fath, mae gorchymyn y Llys Gwarchod ei hun yn cynnig sail gyfreithiol i'r colli rhyddid. Mae hyn yn golygu nad oes angen caniatâd colli rhyddid ar wahân o dan y prosesau a nodir yn y Cod Ymarfer hwn. Rhoddir mwy o wybodaeth am wneud cais i'r Llys Gwarchod yng nghyswllt materion lles personol ym mhennod 10.

Sut y mae'r trefniadau diogelu yn berthnasol i ofal neu driniaeth a drefnir yn breifat?

- 1.21 O dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, dim ond awdurdodau cyhoeddus sydd â dyletswydd i weithredu'n unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, rhaid i bob gwlad sydd wedi llofnodi'r Confensiwn sicrhau bod yr hawliau a nodir yn y Confensiwn yn berthnasol i'w dinasyddion i gyd. Felly, mae Deddf Gallu Meddyliol 2005 yn nodi'n glir bod y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn berthnasol i ofal neu driniaeth gyhoeddus a phreifat.

Sut y mae'r trefniadau diogelu yn berthnasol i weddill Deddf Gallu Meddyliol 2005?

- 1.22 Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn ychwanegol at, ac nid yn lle trefniadau diogelu eraill yn Neddf Gallu Meddyliol 2005. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i benderfyniadau a wneir, a chymau a gymerir, ar ran person sy'n destun caniatâd colli rhyddid, fodloni gofynion y Ddeddf fel gydag unrhyw berson arall. Yn benodol, rhaid i unrhyw gamau a gymerir o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid fod yn unol ag egwyddorion y Ddeddf:
- Rhaid tybio fod gan berson y gallu i wneud penderfyniad oni phrofir nad yw'r gallu ganddo i wneud y penderfyniad hwnnw.

- Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oni bai fod pob cam ymarferol a gymerwyd i'w helpu i wneud hynny wedi methu.
- Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
- Rhaid i gamau a gymerir, neu benderfyniadau a wneir, o dan y Ddeddf dros neu ar ran person sydd heb allu meddyliol, gael eu cymryd, neu eu gwneud, er lles y person hwnnw.
- Cyn cymryd y camau, neu wneud y penderfyniad, rhaid ystyried a ellir cyflawni'r pwrpas y cymerir neu y gwneir nhw yr un mor effeithiol mewn ffordd lai cyfyngol i hawliau a rhyddid gweithredu'r person.

Mae'r egwyddorion hyn wedi eu gosod allan ym mhennod 2 yn y prif God ac eglurir nhw yn fwy manwl ym mhenodau 3 i 6 yn yr un ddogfen. Mae paragraff 5.13 yn y prif God yn cynnwys rhestr wirio o ffactorau sydd angen eu hystyried wrth benderfynu beth yw'r peth gorau i'w wneud er lles person.

Pennod 1

Beth yw'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a pham y cawsant eu cyflwyno?

2

Beth yw colli rhyddid?

Nid oes unrhyw ddiffiniad syml o golli rhyddid. Mae'r cwestiwn a ydyw'r camau a gymerir gan staff neu sefydliadau yng nghyswllt person yn gyfystyr â cholli ei ryddid, yn y pen draw, yn gwestiwn cyfreithiol, a dim ond y llysoedd all benderfynu'r gyfraith. Diben y canllawiau hyn yw helpu staff a sefydliadau i ystyried a ydyw'r camau a gymerir ganddynt, neu gamau y bwriedir eu cymryd, yn gyfystyr â pherson yn colli ei ryddid. Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn rhoi awdurdod i aseswyr lles personol wneud argymhellion ynghylch y bwriad i drefnu bod rhywun yn colli ei ryddid, a phŵer i gyrrff goruchwyllo roi caniatâd lle mae pobl yn colli eu rhyddid.

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau i staff a sefydliadau ar sut i asesu a fyddai camau penodol a gymerir ganddynt, neu rai y bwriedir eu cymryd, yn gyfystyr â cholli rhyddid, ar sail y gyfraith achosion bresennol. Mae hefyd yn ystyried pa ffactorau eraill y gellir eu hystyried wrth ystyried y mater o golli rhyddid, gan gynnwys, yn dra phwysig, beth a ganiateir o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 yng nghyswllt ataliaeth neu gyfyngu. Yn olaf, mae'n rhoi crynodeb o rai o'r achosion pwysicaf hyd yma.

Gall datblygiadau cyfreithiol pellach ddigwydd ar ôl cyhoeddi'r canllawiau hyn, ac mae angen i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddiweddarau eu hunain yn gyson ynghylch datblygiadau cyfreithiol a allai fod yn berthnasol i'w hymarfer.

Beth y mae'r gyfraith achosion yn ei ddweud hyd yma?

- 2.1 Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi gwahaniaethu rhwng trefnu bod unigolyn yn colli ei ryddid (sy'n anghyfreithlon oni chaniateir hynny) a chyfyngiadau ar ryddid neu symudiad unigolyn.
- 2.2 Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi nodi'n glir fod y cwestiwn a ydyw rhywun wedi colli ei ryddid yn dibynnu ar amgylchiadau neilltuol yr achos. Yn benodol, meddai'r Llys yn ei ddyfarniad ym mis Hydref 2004 yn achos *HL v Y Deyrnas Unedig*:

'i benderfynu a ydyw [y person] wedi colli ei ryddid, y man cychwyn o reidrwydd yw sefyllfa benodol yr unigolyn dan sylw a rhaid ystyried ystod eang o ffactorau sy'n codi mewn achos penodol, fel math, parhad, effeithiau a dull gweithredu'r mesur dan sylw. Cwestiwn o raddau neu ddwyster yw'r gwahaniaeth rhwng colli, a chyfyngu ar ryddid, ac nid mater o natur neu sylwedd.

Pennod 2

Beth yw colli rhyddid?

- 2.3 Mater o raddau neu ddwyster yw'r gwahaniaeth rhwng colli a chyfyngu ar ryddid. Felly, bydd efallai o gymorth rhagweld graddfa sy'n symud o 'ataliaeth' neu 'gyfyngu' i 'golli rhyddid'. Bydd lle unigolyn ar y raddfa'n dibynnu ar amgylchiadau clir yr unigolyn, a gall newid dros amser. Am fwy o wybodaeth am sut y mae'r Ddeddf yn diffinio ataliaeth, gweler paragraffau 2.8-2.12.
- 2.4 Er bod y canllawiau yn y bennod hon yn cynnwys disgrifiadau o benderfyniadau blaenorol gan y llysoedd, sydd i'w defnyddio i helpu i farnu a ydyw colli rhyddid yn digwydd neu beidio, rhaid asesu pob achos unigol ar sail ei amgylchiadau ei hun. Bydd pob achos yn wahanol, felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ddyfarniadau llys blaenorol a'r ffactorau gafodd eu hadnabod gan y llysoedd fel rhai pwysig.
- 2.5 Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop a llysoedd y DU wedi penderfynu nifer o achosion colli rhyddid. Yn ôl eu dyfarniadau, gall y ffactorau canlynol fod yn berthnasol i asesu a yw'r camau a gymerwyd yn fwy nag ataliaeth ac yn gyfystyr â cholli rhyddid. Mae'n bwysig cofio nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; gall ffactorau eraill godi yn y dyfodol mewn achosion penodol.
- Lle defnyddir ataliaeth, gan gynnwys cyffuriau tawelu, i drefnu bod person yn cael ei ddwyn i sefydliad ac mae'r person hwnnw'n gwrthsefyll hynny.
 - Lle mae gan staff reolaeth lwyr ac effeithiol dros ofal a symudiad person am gyfnod helaeth.
 - Lle mae staff yn ymarfer rheolaeth dros asesiadau, triniaeth, cysylltiadau a lle byw y person.
 - Lle gwnaed penderfyniad gan y sefydliad na fydd y person yn cael ei ryddhau i ofal eraill, na'n cael byw yn rhywle arall, oni bai fod y staff yn y sefydliad yn ystyried hynny i fod yn briodol.
 - Lle gwrthodir cais gan ofalwyr person i ryddhau'r person i'w gofal.
 - Lle nad yw'r person yn gallu cynnal cysylltiadau cyhoeddus oherwydd cyfyngiadau ar ei fynediad at bobl eraill.
 - Lle mae'r person yn colli awtonomi oherwydd ei fod o dan oruchwyliath a rheolaeth barhaus.

Rhoddir mwy o wybodaeth am achosion perthnasol ar ddiwedd y bennod hon (paragraffau 2.17-2.23).

Sut y gellir adnabod colli rhyddid?

2.6 Wrth benderfynu a ydyw colli rhyddid wedi neu'n debygol o ddigwydd, mae angen i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ystyried yr holl ffeithiau mewn achos. Mae'n annhebygol y bydd un diffiniad syml y gellir ei ddefnyddio ym mhob achos, ac mae'n debyg na fydd un ffactor ar ei ben ei hun yn penderfynu a ydyw'r holl gamau a gymerir yng nghyswllt y person perthnasol yn gyfystyr â cholli rhyddid. Yn gyffredinol, dylai'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau bob amser ystyried y canlynol:

- Holl amgylchiadau pob achos
- Pa fesurau sy'n cael eu cymryd yng nghyswllt yr unigolyn? Pryd y mae eu hangen? Am ba hyd y maent yn para? Beth yw effeithiau unrhyw ataliaeth neu gyfyngiadau ar yr unigolyn? Pam fod eu hangen nhw? Pa nod y maen nhw'n ceisio ei gwrdd?
- Beth yw barn y person perthnasol, ei deulu neu ofalwyr? A oes unrhyw ohonynt yn gwrthwynebu'r mesurau?
- Sut y mae unrhyw ataliaeth neu gyfyngiadau'n cael eu gweithredu? A oes unrhyw un o'r cyfyngiadau ar ryddid personol yr unigolyn yn mynd y tu hwnt i 'ataliaeth' neu 'gyfyngu' ac yn gyfystyr â cholli rhyddid?
- A oes unrhyw opsiynau llai cyfyngol er mwyn darparu gofal neu driniaeth sy'n osgoi colli rhyddid yn llwyr?
- A ydyw effaith yr holl gyfyngiadau ar y person, gyda'i gilydd, yn gyfystyr â cholli rhyddid, hyd yn oed os na fyddent ar eu pen eu hunain?

Pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i leihau'r risg o golli rhyddid?

2.7 Mae amryw o ffyrdd y gall darparwyr a chomisiynwyr gofal eu defnyddio i leihau'r risg o weithredu sy'n gyfystyr â cholli rhyddid, drwy osod cyn lleied â phosibl o gyfyngiadau a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy gynnwys y person perthnasol a'i deulu, ffrindiau a gofalwyr. Y prosesau i staff eu dilyn yw:

- Gwneud yn siŵr fod pob penderfyniad yn cael ei wneud (a'i adolygu) mewn ffordd strwythuredig, a'r rhesymau dros y penderfyniadau'n cael eu cofnodi.

Pennod 2

Beth yw colli rhyddid?

- Dilyn ymarfer da sefydledig wrth gynllunio gofal.
- Gwneud asesiad iawn i weld a oes gan berson allu neu beidio i benderfynu a ydyw eisiau derbyn y gofal neu'r driniaeth a gynigir neu beidio, yn unol ag egwyddorion y Ddeddf (gweler pennod 3 yn y prif God am ganllawiau pellach).
- Cyn trefnu bod person yn cael ei ddwyn i'r ysbyty neu i gartref gofal mewn amgylchiadau a allai fod yn gyfystyr â cholli rhyddid, dylid ystyried a ellid diwallu anghenion y person mewn ffordd lai cyfyngol. Rhaid rhoi cyn lleied â phosibl o gyfyngiadau angenrheidiol ar y person tra bydd yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal, a dylent fod am gyn lleied o amser â phosibl.
- Dylid cymryd camau iawn i helpu'r person perthnasol i gadw mewn cysylltiad â'i deulu, ffrindiau a gofawyr. Lle mae gwasanaethau eiriolaeth lleol ar gael, dylid annog eu cymorth i helpu'r person a'i deulu, ffrindiau a gofawyr.
- Dylid adolygu'r cynllun gofal yn barhaus. Efallai y byddai'n syniad da cynnwys elfen annibynnol, efallai drwy wasanaeth eiriolaeth, yn yr adolygiad.

Beth y mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'ataliaeth'?

- 2.8 O dan adran 6(4) y Ddeddf, mae rhywun yn defnyddio ataliaeth os ydynt:
- yn defnyddio grym – neu'n bygwth defnyddio grym – i wneud i rywun wneud rhywbeth y maent yn ei wrthwynebu, neu
 - yn cyfyngu ar ryddid symudiad person, p'un ai yw'n gwrthwynebu neu beidio.
- 2.9 Mae paragraffau 6.40 i 6.48 yn y prif God yn cynnwys canllawiau ar y defnydd priodol o ataliaeth. Mae ataliaeth yn briodol os caiff ei ddefnyddio i atal niwed i'r person sydd heb allu ac mae'n ymateb cymesur i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed. Nid yw defnydd priodol o ataliaeth yn gwbl gyfystyr â cholli rhyddid.
- 2.10 Mae atal person rhag gadael cartref gofal neu ysbyty ar ei ben ei hun oherwydd bod risg y byddai'n ceisio croesi ffordd mewn modd peryglus, er enghraifft, yn debygol o gael ei weld fel cyfyngu neu ataliaeth gymesur i atal y person rhag cael niwed. Byddai hynny, ynddo'i hun, yn annhebygol o fod yn gyfystyr â cholli rhyddid. Felly hefyd, mae cloi drws i warchod rhag niwed taer, ynddo'i hun, yn annhebygol o fod yn gyfystyr â cholli rhyddid.

- 2.11 Mae Lllys Hawliau Dynol Ewrop hefyd wedi nodi fod parhad unrhyw gyfyngiadau yn ffactor perthnasol wrth ystyried a ydyw person yn colli ei ryddid neu beidio. Mae hyn yn awgrymu nad yw camau sydd angen eu cymryd ar unwaith i atal niwed, ynddynt eu hunain, yn gyfystyr â cholli rhyddid.
- 2.12 Fodd bynnag, lle mae ataliaeth neu gyfyngu'n digwydd yn aml, yn gynyddol ac yn barhaus, neu os oes ffactorau eraill yn bresennol, yna dylai darparwyr gofal ystyried a ydyw hyn wedi mynd y tu hwnt i ataliaeth resymol, fel a ddiffinnir yn y Ddeddf. Os felly, rhaid iddynt naill ai wneud cais am ganiatâd o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (fel a eglurir ym mhennod 3) neu newid eu darpariaeth gofal i leihau lefel yr ataliaeth.

Sut y mae defnyddio ataliaeth yn berthnasol mewn ysbyty neu wrth fynd â rhywun i'r ysbyty neu i gartref gofal?

Mewn ysbyty

- 2.13 Os oes angen atal person sydd yn yr ysbyty am driniaeth iechyd meddwl, neu sy'n cael ei ystyried ar gyfer cael ei ddwyn i'r ysbyty am driniaeth iechyd meddwl, mae hyn yn debygol o awgrymu ei fod yn gwrthwynebu'r driniaeth neu'n gwrthwynebu bod yn yr ysbyty. Dylai'r darparwyr gofal ystyried a yw'r angen am ataliaeth yn golygu bod y person yn gwrthwynebu (gweler paragraff 4.46 y Cod hwn am ganllawiau ar sut i benderfynu a ydyw person yn gwrthwynebu i'r pwrpas hwn). Nid yw person sy'n gwrthwynebu triniaeth iechyd meddwl, ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer caethiwo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel arfer yn gymwys ar gyfer caniatâd o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Os yw'r darparwyr gofal yn credu bod angen caethiwo'r person, medrant ystyried defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Mynd â rhywun i'r ysbyty neu i gartref gofal

- 2.14 Nid yw cludo person sydd heb allu o'i gartref, neu rywle arall, i'r ysbyty neu i gartref gofal, fel arfer yn gyfystyr â cholli rhyddid (er enghraifft, eu dwyn i'r ysbyty mewn ambiwlans mewn achos brys). Hyd yn oed lle disgwylir i'r person golli ei ryddid yn y cartref gofal neu'r ysbyty, mae'n annhebygol y bydd y siwrnai ei hun yn gyfystyr â cholli rhyddid fel bod angen gofyn am ganiatâd cyn i'r siwrnai gychwyn. Bron ym mhob achos, mae'n debygol y gellir dwyn person yn gyfreithlon i'r ysbyty neu i gartref gofal o dan ddarpariaethau ehangach y Ddeddf, cyn belled ag y credir fod bod yn yr ysbyty neu'r cartref gofal er ei les.

Pennod 2

Beth yw colli rhyddid?

- 2.15 Mewn rhai achosion prin iawn, efallai fod amgylchiadau eithriadol lle byddai dwyn rhywun i'r ysbyty neu i gartref gofal yn gyfystyr â cholli rhyddid, er enghraifft lle mae angen gwneud mwy na pherswadio neu atal y person er mwyn ei gludo, neu lle mae'r siwrneyn arbennig o hir. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd angen gofyn am orchymyn gan y Llys Gwarchod i sicrhau bod y siwrneyn un gyfreithlon.

Sut y dylai awdurdodau rheoli osgoi ceisiadau diangen am ganiatâd safonol?

- 2.16 Er ei bod yn anghyfreithlon trefnu bod rhywun yn colli ei ryddid heb ganiatâd, dylai awdurdodau rheoli ystyried bod ceisiadau diangen am ganiatâd safonol mewn achosion lle na fyddai'r person yn colli ei ryddid mewn gwirionedd yn rhoi gormod o straen ar y person sy'n cael ei asesu ac ar ei deulu neu ofalwyr. Yn ogystal, rhaid hefyd ystyried y posibilrwydd o opsiynau llai cyfyngol ar gyfer darparu gofal neu driniaeth, a fyddai'n osgoi colli rhyddid o gwbl.

Enghreifftiau o gyfraith achosion

- 2.17 Er mwyn rhoi canllawiau pellach, mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys disgrifiadau byr o'r hyn a ymddengys i fod yn nodweddion sylweddol achosion diweddar neu bwysig yng Nghymru a Lloegr a lle mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn delio â cholli rhyddid. Cofiwch:
- mai canllawiau'n unig yw'r disgrifiadau hyn
 - mai ond y llysoedd all benderfynu'r gyfraith yn awdurdodol; a
 - bod y llysoedd yn debygol o ddyfarnu mewn achosion ar ôl cyhoeddi'r canllawiau hyn. Bydd angen i staff ddiweddarau eu hunain yn gyson ac ystyried datblygiadau cyfreithiol perthnasol pellach.

Achosion lle dyfarnodd y llysoedd nad oedd y camau a gymerwyd yn arwain at golli rhyddid

- 2.18 *LLBC v TG* (dyfarniad yr Uchel Lys ar 14 Tachwedd 2007)

Gŵr 78 oed oedd TG, yn dioddef o ddementia a nam gwybyddol. Roedd TG yn breswylwr mewn cartref gofal, ond cafodd ei ddwyn i'r ysbyty gyda niwmonia a gwenwyn gwaed. Tra oedd yn yr ysbyty, bu anghydfod rhwng yr awdurdod lleol a merch a wyres TG ynghylch ei ddyfodol. Roedd y ferch a'r wyres eisiau i TG fyw gyda nhw, ond credai'r awdurdod lleol fod angen gofal 24 awr ar TG mewn cartref gofal.

Cafodd y cyngor orchymyn gan y llys, yn cyfarwyddo bod TG yn cael ei roi yn y cartref gofal a oedd wedi'i adnabod fel yr un priodol gan y cyngor. Ni chafodd y ferch na'r wyres eu hysbysu bod gwrandawriad llys yn cael ei gynnal. Cafodd y gorchymyn hwnnw wedyn ei newid a gallodd TG fyw gyda'i ferch a'i wyres.

Hawliodd merch a wyres TG fod y cyfnod o amser a dreuliodd yn y cartref gofal wedi bod yn gyfystyr â cholli rhyddid.

Ystyriodd y barnwr nad oedd colli rhyddid wedi digwydd, ond roedd yr achos yn un ffiniol. Roedd y prif ffactorau yn ei benderfyniad yn cynnwys:

- Roedd y cartref gofal yn gartref gofal cyffredin a oedd â chyfyngiadau arferol ar ryddid yn unig.
- Roedd y teulu'n gallu ymweld â TG fwy neu lai heb gyfyngiad ac roedd ganddynt hawl i fynd ag ef allan o'r cartref ar dripiâu.
- Roedd TG ei hun yn cyd-fynd â'r trefniant ac yn dweud ei fod yn hapus yn y cartref gofal. Roedd wedi byw mewn cartref gofal awdurdod lleol am fwy na thair blynedd ac roedd yn wrthrychol fodlon â'i sefyllfa yno.
- Ni chollodd TG ei ryddid yn wrthrychol ar unrhyw adeg.

Meddai'r barnwr:

'Er y cytunaf fod amgylchiadau'r achos presennol efallai'n ffiniol bron rhwng cyfyngiadau ar ryddid yn unig a chaethiwo o dan Erthygl 5, rwyf wedi dod i'r casgliad, ar y cyfan ac ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, nad yw lleoliad TG yn Towerbridge yn gwbl gyfystyr â defnyddio Erthygl 5.'

2.19 *Nielsen v Denmarc (Llys Hawliau Dynol Ewrop; (1988) 11 EHRR 175)*

Roedd mam bachgen 12 oed wedi trefnu iddo gael ei ddwyn i ward seiciatrig ysbyty'r wladwriaeth. Roedd gan y bachgen anhwylder nerfol ac roedd angen triniaeth arno ar ffurf sgysiau rheolaidd a therapi amgylcheddol. Roedd y driniaeth a roddwyd, ac amodau ei gweinyddu, yn briodol. Parhaodd y driniaeth am 5V1> mis. Fodd bynnag, gwnaeth y bachgen gais i Lys Hawliau Dynol Ewrop, gan deimlo ei fod wedi colli ei ryddid.

Pennod 2

Beth yw colli rhyddid?

Nid oedd y cyfyngiadau a roddwyd ar ryddid symudiad yr ymgeisydd a'i gysylltiadau â'r byd y tu allan yn llawer gwahanol i'r cyfyngiadau a fyddai wedi cael eu rhoi ar blentyn mewn ysbyty cyffredin. Roedd drws y ward yn cael ei gloi i atal plant rhag rhoi eu hunain mewn perygl neu redeg o gwmpas yn aflonyddu ar gleifion eraill. Roedd yr ymgeisydd yn rhydd i adael y ward gyda chaniatâd ac i fynd allan yng nghwmni aelod o staff. Roedd yn cael ymweld â'i deulu a'i ffrindiau, a thuag at ddiwedd ei arhosiad roedd yn cael mynd i'r ysgol.

Dyfarnodd y Llys:

'Nid oedd y cyfyngiadau a roddwyd ar yr ymgeisydd o ran natur na graddfa yn debyg i'r achosion o golli rhyddid a ddisgrifir ym mharagraff (1) Erthygl 5. Yn benodol, ni chafodd ei gaethiwo fel person ansefydlog ei feddwl Yn wir, nid oedd y cyfyngiadau a roddwyd ar yr ymgeisydd ddim mwy na'r gofynion arferol i ofalu am blentyn 12 oed a oedd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Felly, nid oedd yr amodau y bu'r ymgeisydd yn aros o danynt, mewn egwyddor, yn wahanol i rai mewn nifer o wardiau ysbyty lle mae plant gydag anhwylderau corfforol yn cael eu trin.'

Casglodd:

'nid oedd rhoi'r ymgeisydd yn yr ysbyty yn gyfystyr â cholli rhyddid o fewn ystyr Erthygl 5, yn hytrach roedd yn ymarfer cyfrifol gan ei fam o'i hawliau gwarchodol er lles y plentyn.'

2.20 *HM v Y Swisdir (Llys Hawliau Dynol Ewrop; (2002) 38 EHRR 314)*

Cafodd gwraig 84 oed ei rhoi mewn cartref nyrsio am gyfnod amhenodol gan awdurdodau'r wladwriaeth. Roedd wedi cael yr opsiwn o aros adref a derbyn gofal yno, ond roedd hi a'i mab wedi gwrthod cydweithredu â'r gymdeithas ofal berthnasol, ac o ganlyniad roedd ei hamodau byw wedi dirywio. Penderfynodd awdurdodau'r wladwriaeth ei rhoi yn y cartref fel y gallai dderbyn y gofal meddygol angenrheidiol ynghyd ag amodau byw a safonau glendid boddhaol.

Ni chafodd y wraig ei rhoi yn ward gadw'r cartref; roedd yn rhydd i symud o gwmpas y cartref ac i gael cyswllt cymdeithasol â'r byd allanol. I ddechrau, roedd yn ansicr ynghylch pa opsiwn oedd yn well ganddi ac, ar ôl symud i'r cartref, roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i aros yno. Fodd bynnag, roedd wedyn wedi gwneud cais i'r llysoedd yn dweud ei bod wedi colli ei rhyddid.

Dyfarnodd y Llys nad oedd wedi colli ei rhyddid:

‘A chadw’r elfennau hyn mewn cof, yn enwedig y ffaith bod [yr awdurdodau] wedi gorchymyn rhoi’r ymgeisydd yn y cartref gofal er ei lles ei hun er mwyn iddi dderbyn y gofal meddygol angenrheidiol ac amodau byw a safonau glendid boddhaol, a hefyd o ystyried amgylchiadau cymharol Nielsen v Denmarc [gweler crynodeb o’r achos uchod], casgliad y Llys yw, yn amgylchiadau’r achos presennol, nad oedd rhoi’r ymgeisydd yn y cartref gofal yn gyfystyr â cholli rhyddid o fewn ystyr Erthygl 5(1), ond yn hytrach roedd yn fesur cyfrifol a gymerwyd gan yr awdurdodau cymwys er lles yr ymgeisydd.’

Achosion lle dyfarnodd y llysoedd fod y camau a gymerwyd wedi arwain at golli rhyddid

2.21 *DE a JE v Cyngor Sir Surrey (SCC) (Dyfarniad yr Uchel Lys ar 29 Rhagfyr 2006)*

Gŵr 76 oed oedd DE a oedd, ar ôl strôc ddrwg, wedi mynd yn ddall ac wedi dioddef o nam sylweddol ar ei gof tymor byr. Roedd ganddo hefyd ddementia ac nid oedd ganddo’r gallu i benderfynu lle dylai fyw, ond er hynny gallai gyfleu ei ddymuniadau’n eithaf clir a phendant yn aml.

Roedd DE yn briod â JE. Yn Awst 2003, roedd DE yn byw adref gyda JE. Teimlai JE ar un adeg na allai ofalu am DE, ac fe’i rhoddodd ar gadair ar y pafin o flaen y tŷ a ffonio’r heddlu. Penderfynodd yr awdurdod lleol ei roi mewn dau gartref gofal, a chyfeirir at y rhain yn nyfarniad y llys fel cartref X a chartref Y.

Yn y cartrefi gofal, roedd gan DE lefel sylweddol iawn o ryddid a llawer iawn o gyswilt â’r byd allanol. Ni ddefnyddiwyd ataliaeth gorfforol na chemegol gydag ef ar unrhyw adeg.

Roedd DE yn dweud yn barhaus ei fod eisiau byw gyda JE, ac roedd JE hefyd eisiau i DE fyw gyda hi. Ni chytunodd SCC y dylai DE ddychwelyd i fyw at, na chael ymweld â JE ac fe wnaethant yn glir pe bai JE yn parhau i geisio symud DE, y byddai SCC yn mynd at yr heddlu. Gwnaeth DE a JE gais i’r llysoedd bod hyn yn achos o golli rhyddid.

Yn ei ddyfarniad, meddai'r Barnwr Munby:

'Y mater hollbwysig yn yr achos hwn ... yw a gollodd DE ei ryddid i adael cartref X, ac a yw'n parhau i'w golli, ac a gollodd DE ei ryddid i adael cartref Y, ac a yw'n parhau i'w golli. A phan gyfeiriaf at adael cartref X a chartref Y, nid wyf yn golygu gadael er mwyn mynd ar drip neu'i gilydd wedi'i gymeradwyo gan SCC neu'r rhai sy'n rhedeg y cartref; rwyf yn golygu gadael o ran symud ei hun yn barhaol oddi yno i fyw lle a chyda phwy bynnag y dymuna, ac yn benodol symud ei hun i fyw adref gyda JE.'

Meddai wedyn:

'Nid oedd ac nid yw DE yn 'rhydd i adael' ac roedd ac mae, yn yr ystyr hwnnw, o dan reolaeth lwyr [yr awdurdod lleol] oherwydd, fel a ddywedodd [bargyfreithiwr DE], [yr awdurdod lleol] oedd a sydd yn penderfynu'r materion hanfodol o ble y mae DE yn cael byw, a ydyw'n cael gadael neu beidio ac a ydyw'n cael bod gyda JE.'

Casglodd:

'Y realiti syml yw y bydd DE yn cael gadael y cartref y cafodd ei roi ynddo gan [yr awdurdod lleol] a'i ryddhau i ofal DE dim ond os a phryd – os o gwbl, a byth mae'n debyg – y bydd yr [awdurdod lleol] yn ystyried hynny i fod yn briodol. Efallai fod cymhellion [yr awdurdod lleol] yn rhai caredig, ond yn fy marn i, [mae] wedi ac [mae'n] parhau i amddifadu DE o'i ryddid.'

2.22 *HL v Y Deyrnas Unedig (Llys Hawliau Dynol Ewrop; (2004) 40 EHRR 761)*

Nid oedd gŵr 48 oed a oedd wedi dioddef o awtistiaeth ers ei eni yn gallu siarad, a phrin iawn oedd lefel ei ddealltwriaeth. Roedd yn cynhyrfu'n aml ac roedd ganddo hanes o hunan-niwed. Nid oedd ganddo'r gallu i gydsynio i driniaeth.

Am fwy na 30 o flynyddoedd, derbyniodd ofal yn Ysbyty Bournemouth. Ym 1994, cafodd ei drosglwyddo i ofalwyr ac, am dair blynedd, bu'n byw'n llwyddiannus gyda'i ofalwyr. Yn dilyn digwyddiad o hunan-niwed mewn canolfan ddydd ar 22 Gorffennaf 1997, aed â'r ymgeisydd i Ysbyty Bournemouth lle cafodd ei ail-dderbyn yn anffurfiol (nid o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).

Roedd y gofalwyr eisiau i'r ymgeisydd gael ei ryddhau i'w gofal nhw, a gwrthododd yr ysbyty. Ni allai'r gofalwyr fynd i'w weld.

Pennod 2

Beth yw colli rhyddid?

Yn ei ddyfarniad yn *HL v Y Deyrnas Unedig*, meddai Llys Hawliau Dynol Ewrop:

‘y prif ffactor yn yr achos presennol [yw] bod y staff gofal iechyd a oedd yn trin a rheoli'r ymgeisydd yn ymarfer rheolaeth lwyr ac effeithiol dros ei ofal a'i symudiadau o'r funud y dangosodd broblemau ymddygiad aciwt ar 22 Gorffennaf 1997 hyd at bryd y cafodd ei gaethiwo'n orfodol ar 29 Hydref 1997.

‘Dywedodd ei swyddog meddygol cyfrifol (Dr M) yn glir, pe bai'r ymgeisydd wedi gwrthwynebu mynd i'r ysbyty neu wedi ceisio gadael wedyn, y byddai wedi ei atal rhag gwneud a byddai wedi ystyried ei dderbyn yn anwirfoddol o dan a.3 o Ddeddf 1983; yn wir, cyn gynted ag y dywedodd y Llys Apêl y byddai ei apêl yn cael ei ganiatáu, cafodd ei gaethiwo'n orfodol o dan Ddeddf 1983. Mae'r ohebiaeth rhwng gofalwyr yr ymgeisydd a Dr M yn adlewyrchu dymuniad y gofalwyr i weld yr ymgeisydd yn cael ei ryddhau ar unwaith i'w gofal nhw ac, yn yr un modd, bwriad clir Dr M a staff gofal iechyd perthnasol eraill i ymarfer rheolaeth gaeth dros ei asesiad, triniaeth, cysylltiadau ac, yn enwedig, ei symudiadau a'i fan preswyllo; byddai'r ymgeisydd ond yn cael ei ryddhau o'r ysbyty i ofal Mr a Mrs E pan ac os byddai'r staff proffesiynol hynny yn teimlo fod hynny'n briodol. Roedd yn glir o'r ohebiaeth y cyfeirir ati uchod bod cyswllt yr ymgeisydd â'i ofalwyr yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli gan yr ysbyty, ac aeth ei ofalwyr i'w weld am y tro cyntaf ar ôl iddo gael ei dderbyn ar 2 Tachwedd 1997.

‘Yn unol â hynny, y sefyllfa amlwg oedd bod yr ymgeisydd o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ac nad oedd yn rhydd i adael.’

2.23 *Storck v Yr Almaen (Llys Hawliau Dynol Ewrop; (2005) 43 EHRR 96)*

Roedd merch ifanc wedi cael ei rhoi'n achlysurol mewn sefydliad seiciatrig gan ei thad ym 1974 a 1975. Yng Ngorffennaf 1977, yn 18 oed, cafodd ei rhoi mewn sefydliad seiciatrig unwaith eto. Roedd yn cael ei chadw mewn ward dan glo ac roedd o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus staff y clinig, ac nid oedd yn rhydd i adael y clinig o gwbl yn ystod ei arhosiad cyfan o 20 mis. Pan geisiodd ddianc, cafodd ei rhwymo. Pan lwyddodd un tro, daeth yr heddlu â hi yn ôl. Nid oedd yn gallu cadw mewn cyswllt rheolaidd â'r byd allanol.

Gwnaeth gais i'r llysoedd ar y sail ei bod wedi colli ei rhyddid. Roedd anghydfod ynghylch a oedd wedi cydsynio i gael ei chaethiwo neu beidio.

Meddai'r Llys:

'roedd yr ymgeisydd, droeon, wedi ceisio dianc o'r clinig. Bu'n rhaid ei rhwymo i'w hatal rhag dianc a bu'n rhaid i'r heddlu ei dychwelyd i'r clinig pan lwyddodd i ddianc un tro. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r Llys yn gallu canfod unrhyw sail ffeithiol i'r dybiaeth bod yr ymgeisydd – a chymryd bod ganddi'r gallu i gydsynio – wedi cydsynio i aros yn y clinig. Neu, a chymryd nad oedd yr ymgeisydd mwyach yn gallu cydsynio ar ôl derbyn triniaeth gyda meddyginiaeth gref, ni ellid beth bynnag ystyried ei bod wedi cytuno'n ddilys i'w harhosiad yn y clinig.'

- 2.24** Mae'r achosion hyn yn pwysleisio'r ffaith bod angen ystyried holl amgylchiadau penodol yr unigolyn perthnasol yn ofalus cyn penderfynu a ydyw person yn colli ei ryddid neu beidio. Maent hefyd yn dangos yn glir pa mor hanfodol bwysig yw cynnwys teulu, ffrindiau a gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau: nodwedd amlwg mewn nifer o'r achosion a ddaeth gerbron y llysoedd yw gwahaniaeth barn neu broblem cyfathrebu rhwng y comisiynwyr neu'r darparwyr gofal ac aelodau o'r teulu a gofalwyr.

Pennod 2

Beth yw colli
rhyddid?

3

Sut a phryd y gellir gwneud cais am golli rhyddid, a chaniatáu hynny?

Mae rhai amgylchiadau lle mae trefnu bod rhywun yn colli ei ryddid, ac yntau heb y gallu i gydsynio i'r trefniadau ar gyfer ei ofal neu driniaeth, yn angenrheidiol i'w amddiffyn rhag niwed, a hefyd er ei les.

Mae colli rhyddid yn gallu cael ei ganiatáu gan gyrrff goruchwyllo (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru neu fyrddau iechyd lleol). I gael caniatâd i drefnu bod rhywun yn colli ei ryddid, rhaid i awdurdodau rheoli wneud cais am ganiatâd drwy ddilyn y prosesau a ddisgrifir yn y bennod hon.⁶ Unwaith y derbynnir cais, rhaid i'r corff goruchwyllo yna ddilyn y prosesau asesu a ddisgrifir ym mhennod 4 cyn y gall ganiatáu colli rhyddid. Dylid cofio nad yw caniatâd colli rhyddid, ynddo'i hun, yn rhoi caniatâd i drin rhywun. Ymdrinnir â'r mater hwn ym mharagraffau 5.10 i 5.13.

Yn y mwyafrif llethol o achosion, dylai fod yn bosibl cynllunio ymlaen llaw fel y gellir cael caniatâd safonol cyn i'r colli rhyddid ddechrau. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion eithriadol lle bo'r angen am golli rhyddid mor daer fel y bydd er lles i'r person iddo ddechrau tra bo'r cais yn cael ei ystyried. Yn yr achosion hyn, gall yr ysbyty neu'r cartref gofal roi caniatâd brys i fyny at saith diwrnod (gweler pennod 6).

Sut, yn gryno, y gellir caniatáu colli rhyddid?

3.1 Mae awdurdod rheoli'n gyfrifol am wneud cais am ganiatâd colli rhyddid ar ran unrhyw berson a allai ddod o fewn sgôp y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid:

- Yn achos ysbyty'r GIG, yr awdurdod rheoli yw'r corff GIG sy'n gyfrifol am redeg yr ysbyty lle mae'r person perthnasol eisoes, neu lle bydd, yn breswylwr.

⁶ Os yw person yn colli ei ryddid yn gyfreithlon mewn ysbyty neu gartref gofal o ganlyniad i orchymyn gan y Llys Gwarchod, nid oes angen gwneud cais am ganiatâd. Fodd bynnag, unwaith y daw cyfnod gorchymyn y Llys i ben, fel bo'r colli rhyddid cyfreithlon yn parhau rhaid gofyn am ganiatâd drwy ddilyn y prosesau a ddisgrifir yn y bennod hon.

Pennod 3

Sut a phryd y dylid gwneud cais am, a chaniatáu, colli rhyddid?

- Yn achos cartref gofal neu ysbyty preifat, yr awdurdod rheoli fydd y person sydd wedi'i gofrestru, neu sydd angen ei gofrestru, o dan ran 2 Deddf Safonau Gofal 2000 yng nghyswllt yr ysbyty neu'r cartref gofal.
- 3.2 Os yw staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol yn meddwl bod angen caniatâd, dylent hysbysu'r awdurdod rheoli. Gallai hyn fod o ganlyniad i adolygiad gofal neu asesiad o anghenion, ond gallai ddigwydd ar adegau eraill hefyd. (Gweler pennod 9 am ganllawiau ar y camau i'w cymryd os oes pryder bod person eisoes yn colli ei ryddid, heb fod wedi cael caniatâd.)
- 3.3 **Mae corff goruchwyllo'n** gyfrifol am ystyried ceisiadau am ganiatâd, am gomisiynu'r asesiadau angenrheidiol (gweler pennod 4) a, lle mae'r holl asesiadau'n gytûn, am ganiatáu colli rhyddid:
- Lle cymhwysir y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid i berson mewn ysbyty yn Lloegr, y corff goruchwyllo fydd:
 - os yw Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol yn comisiynu'r⁷ gofal neu'r driniaeth berthnasol (neu mae'n cael ei gomisiynu ar ran yr Ymddiriedolaeth), yna yr Ymddiriedolaeth honno ydyw
 - os yw Gweinidogion Cymru neu Fwrdd Iechyd Lleol yn comisiynu'r gofal a'r driniaeth berthnasol yn Lloegr, yna Gweinidogion Cymru ydyw, neu
 - mewn unrhyw achos arall, yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol dros yr ardal lle mae'r ysbyty wedi'i leoli.
 - Lle cymhwysir y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid i berson mewn ysbyty sydd wedi'i leoli yng Nghymru, y corff goruchwyllo fydd Gweinidogion Cymru neu Fwrdd Iechyd Lleol **oni bai** fod Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd yn comisiynu'r gofal a'r driniaeth berthnasol yng Nghymru ac, os felly, yr Ymddiriedolaeth fydd y corff goruchwyllo.

⁷ Mae canllawiau ar gadarnhau pwy yw'r comisiynydd cyfrifol ar gael yn http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_078466

- Lle cymhwysir y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid i berson mewn cartref gofal, p'un ai yng Nghymru neu Loegr, y corff goruchwylio fydd yr awdurdod lleol dros yr ardal lle mae'r person fel arfer yn byw. Fodd bynnag, os nad yw'r person fel arfer yn byw yn ardal unrhyw awdurdod lleol (er enghraifft rhywun heb gartref sefydlog), y corff goruchwylio fydd yr awdurdod lleol dros yr ardal lle mae'r cartref gofal wedi'i leoli.⁸

3.4 Mae dau fath o ganiatâd: safonol a brys. Rhaid i awdurdod rheoli ofyn am ganiatâd safonol pan ymddengys yn debygol, rhywdro yn ystod y 28 diwrnod nesaf, y bydd rhywun yn cael ei dderbyn i'w ysbyty neu gartref gofal mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr â cholli rhyddid o fewn ystyr Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylid gwneud y cais hwn i'r corff goruchwylio. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid gofyn am ganiatâd ymlaen llaw. Lle nad yw hyn yn bosibl, ac mae'r awdurdod rheoli o'r farn bod angen i rywun golli ei ryddid er ei les ei hun **cyn** cwblhau'r broses o gael caniatâd safonol, yna rhaid i'r awdurdod rheoli roi caniatâd brys iddo'i hun ac yna cael caniatâd safonol o fewn saith diwrnod calendr (gweler pennod 6).

3.5 Mae'r siart llif yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg ar sut y dylai proses y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid weithio.

Sut y dylai awdurdodau rheoli benderfynu a ddylid gwneud cais am ganiatâd neu beidio?

3.6 Dylai fod gan awdurdodau rheoli weithdrefn yn ei lle sy'n nodi:

- a oes angen i golli rhyddid ddigwydd neu beidio mewn achos neilltuol
- pa gamau y dylent eu cymryd i asesu a ddylid gofyn am ganiatâd neu beidio

⁸ I weithio allan lle mae'r person yn byw fel arfer, mae'r drefn arferol o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yn berthnasol (gweler http://www.dh.gov.uk/en/SocialCare/Deliveringadultsocialcare/Ordinaryresidence/DH_079346). Bydd unrhyw gwestiynau heb eu hateb ynghylch man preswyllo arferol person yn cael eu trin gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan Weinidogion Cymru. Hyd nes y gwneir penderfyniad, rhaid i'r awdurdod lleol a dderbyniodd y cais weithredu fel y corff goruchwylio. Ar ôl gwneud y penderfyniad, awdurdod lleol y man preswyllo arferol fydd y corff goruchwylio. Mae Rheoliadau 17 i 19 o Reoliadau Gallu Meddyliol (Colli Rhyddid: Caniatâd safonol, Asesiadau a Man Preswyllo Arferol) 2008 yn nodi, ar gyfer Lloegr, pa drefniadau i'w dilyn tra bydd unrhyw gwestiwn ynghylch lle mae'r person yn byw fel arfer yn cael ei benderfynu mewn achos lle mae'r awdurdod lleol wedi derbyn cais am ganiatâd safonol neu gais i benderfynu a ydyw colli rhyddid heb ganiatâd wedi digwydd.

Pennod 3

Sut a phryd y dylid gwneud cais am, a chaniatáu, colli rhyddid?

- a ydynt wedi cymryd pob cam ymarferol a rhesymol i osgoi colli rhyddid
- pa gamau y dylent eu cymryd os oes angen iddynt wneud cais am ganiatâd
- sut y dylent adolygu achosion lle mae angen, neu efallai angen caniatâd, a
- phwy ddylai gymryd y camau angenrheidiol.

Rhoddir siart llif y gellir ei defnyddio i helpu i greu gweithdrefn o'r fath yn Atodiad 2.

Beth yw'r broses o wneud cais?

- 3.7 Rhaid i awdurdod rheoli wneud cais am ganiatâd safonol. Dylai'r cais fod yn un ysgrifenedig i'r corff goruchwyllo. Mae ffurflen safonol ar gael i wneud hyn.
- 3.8 Yn Lloegr, rhaid i gais gan awdurdod rheoli am ganiatâd safonol gynnwys:
- enw a rhyw y person perthnasol
 - oed y person perthnasol neu, os nad yw hyn yn wybyddus, a ydyw'r awdurdod rheoli yn credu'n rhesymol fod y person perthnasol yn 18 oed neu'n hŷn
 - cyfeiriad presennol y person perthnasol, a rhif ffôn y cyfeiriad hwnnw
 - enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr awdurdod rheoli ac enw'r person o fewn yr awdurdod rheoli sy'n delio â'r cais
 - i ba bwrpas y gofynnir am y caniatâd
 - o ba ddyddiad y gofynnir am y caniatâd, ac
 - a ydyw'r awdurdod rheoli wedi rhoi caniatâd brys ac, os ydyw, y dyddiad y daw hwnnw i ben.
- 3.9 Rhaid i gais am ganiatâd safonol hefyd gynnwys, os yw ar gael neu os gall yr awdurdod rheoli gael gafael arno'n rhesymol:
- unrhyw wybodaeth feddygol yng nghyswllt iechyd y person perthnasol sydd, ym marn resymol yr awdurdod rheoli, yn berthnasol i'r cyfyngiadau arfaethedig ar ei ryddid
 - y diagnosis o'r anhwylder meddyliol (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983 ond yn diystyru unrhyw eithriad ar gyfer rhai gydag anabled meddyliol) y mae'r person perthnasol yn dioddef ohono

- unrhyw gynlluniau gofal ac asesiadau o anghenion perthnasol
- tarddiad hiliol, ethnig neu genedlaethol y person perthnasol
- a oes gan y person perthnasol unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig
- manylion y cyfyngiadau arfaethedig ar ryddid y person perthnasol
- a oes angen cyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol
- lle mai pwrpas y cyfyngiadau arfaethedig ar ryddid y person perthnasol yw er mwyn rhoi triniaeth, a ydyw'r person perthnasol wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw sy'n un dilys a pherthnasol i rywfaent o'r driniaeth neu i'r driniaeth i gyd
- a oes caniatâd safonol eisoes wedi'i roi yng nghyswllt caethiwo'r person perthnasol ac, os oes, y dyddiad y daw'r caniatâd hwnnw i ben
- a ydyw'r person perthnasol yn destun unrhyw ofynion o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn:
 - unrhyw un sydd wedi'i enwi gan y person perthnasol fel rhywun i ymgynghori â nhw am ei les
 - unrhyw un sy'n gofalu am y person neu gyda budd yn ei les
 - unrhyw un sydd wedi derbyn Pŵer Atwrnai Arhosol ('derbynydd') wedi'i roi gan y person
 - unrhyw ddirprwy wedi'i benodi dros y person gan y llys, ac
 - unrhyw Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol sydd eisoes wedi cael ei gyfarwyddo

Os oes caniatâd yn ei le eisoes, nid oes angen ail-gyflwyno unrhyw wybodaeth os nad yw wedi newid.

3.10 Yng Nghymru, rhaid i'r cais gan awdurdod rheoli am ganiatâd safonol gynnwys:

- enw'r person perthnasol
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr awdurdod rheoli
- y rhesymau pam y mae'r awdurdod rheoli yn ystyried bod y person perthnasol yn, neu'n mynd i gael ei gaethiwo mewn amgylchiadau sy'n ggyfystyr â cholli rhyddid
- y rhesymau pam y mae'r awdurdod rheoli yn ystyried bod y person perthnasol yn bodloni'r gofynion ar gyfer cymhwys
- manylion unrhyw ganiatâd brys sydd wedi'i roi

- gwybodaeth neu ddogfennau i gefnogi pam y mae'r person perthnasol yn bodloni'r gofynion cymhwys
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn unrhyw berson sydd â budd yn lles y person perthnasol, a
- manylion unrhyw benderfyniad dilys a pherthnasol a wnaed ymlaen llaw.

Pennod 3

Sut a phryd y dylid gwneud cais am, a chaniatáu, colli rhyddid?

At bwy y dylid anfon ceisiadau?

- 3.11** Os yw'r cais yn cael ei wneud gan gartref gofal, rhaid anfon y cais at yr awdurdod lleol dros yr ardal lle mae'r person perthnasol fel arfer yn byw. Os nad yw'r person perthnasol fel arfer yn byw o fewn ardal unrhyw awdurdod lleol (er enghraifft, heb gartref sefydlog), os nad yw'r cartref gofal yn gwybod ymhle mae'r person yn byw fel arfer, neu os nad yw'r person yn byw yng Nghymru na Lloegr, dylid anfon y cais at yr awdurdod lleol yn yr ardal lle mae'r cartref gofal wedi'i leoli.
- 3.12** Pan fo'r cais yn cael ei wneud gan ysbyty:
- os yw'r gofal yn cael ei gomisiynu gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, dylid anfon y cais at yr Ymddiriedolaeth honno
 - os yw'r gofal yn cael ei gomisiynu gan Weinidogion Cymru, dylid anfon y cais at y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r person perthnasol fel arfer yn byw
 - os yw'r gofal yn cael ei gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Lleol, dylid anfon y cais at y Bwrdd hwnnw, ac
 - mewn unrhyw achos arall (er enghraifft, gofal sy'n cael ei gomisiynu'n breifat), dylid anfon y cais at yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol dros yr ardal lle mae'r ysbyty wedi'i leoli.
- 3.13** Gyda chais sy'n cael ei anfon at y corff goruchwylio anghywir, gellir ei basio ymlaen i'r corff goruchwylio cywir heb fod angen i'r awdurdod rheoli wneud ail gais. Ond dylai'r awdurdod rheoli wneud pob ymdrech i gadarnhau pa un yw'r corff goruchwylio cywir i leihau oedi gyda thrin y cais. (Mae troednodyn 8 yn egluro sut y penderfynir ynghylch man preswyllo arferol rhywun a sut y bydd anghydfod ynghylch man preswyllo arferol yn cael ei ddatrys.)
- 3.14** Rhaid i'r awdurdod rheoli gadw cofnod ysgrifenedig o bob cais a wneir am ganiatâd safonol a'r rhesymau dros wneud y cais.

Pwy ddylai gael gwybod bod cais wedi'i wneud?

- 3.15 Dylai'r awdurdod rheoli ddweud wrth deulu, ffrindiau a gofalwyr y person perthnasol, ac wrth unrhyw Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol sydd eisoes yn cyfrannu at achos y person perthnasol, ei fod wedi gwneud cais am ganiatâd colli rhyddid, oni bai fod hynny'n anymarferol neu'n amhosibl, neu'n ddieisiau yng nghyswllt lles iechyd neu ddiogelwch y person perthnasol. Rhaid i unrhyw un sy'n cyfrannu at ofal y person perthnasol neu sydd â budd yn ei les, neu sydd wedi ei enwi ganddo fel rhywun y dylid ymgynghori ag ef, gael y cyfle i ddweud a fyddai colli rhyddid er lles y person perthnasol neu beidio, fel rhan o'r asesiad lles (gweler paragraffau 4.58 i 4.76, cyn belled ag y bo'n ymarferol a phriodol gwneud hynny. Dylid ystyried barn y person perthnasol am bwy i'w hysbysu ac ymgynghori ag ef.
- 3.16 Rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwylio os yw'n fodlon nad oes unrhyw un y dylid ymgynghori â nhw ynghylch penderfynu beth fyddai er lles y person perthnasol, ar wahân i'r rhai sy'n darparu gofal a thriniaeth i'r person perthnasol mewn capasiti proffesiynol, neu am dâl. Os nad oes, rhaid i'r corff goruchwylio gyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol i gynrychioli a chefnogi'r person perthnasol cyn cynnal unrhyw asesiadau (gweler paragraffau 3.22 i 3.27 ar gyfer hawliau a rôl Eiriolwr sy'n cael ei gyfarwyddo yn yr amgylchiadau hyn).

Pa gamau y mae angen i'r corff goruchwylio eu cymryd pan fydd yn derbyn cais am ganiatâd?

- 3.17 Pan fydd yn derbyn cais am ganiatâd colli rhyddid, rhaid i'r corff goruchwylio, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol a phosibl:
- ystyried a ydyw'r cais yn briodol ac y dylid symud ymlaen gydag ef, a
 - gofyn am unrhyw wybodaeth bellach sydd angen iddo'i chael gan yr awdurdod rheoli i'w helpu i wneud y penderfyniad.

Os oes gan y corff goruchwylio unrhyw amheuon ynghylch symud ymlaen gyda'r cais, dylai geisio eu datrys gyda'r awdurdod rheoli.

- 3.18 Dylai fod gan gyrff goruchwylio weithdrefn yn ei lle sy'n nodi pa gamau i'w cymryd, pwy ddylai eu cymryd a'r amser i wneud hyn. Cyn belled ag y bo'n ymarferol a phosibl, dylent gyfleu'r weithdrefn i'r awdurdod rheoli a rhoi'r manylion cyswllt perthnasol iddynt ar gyfer gwneud cais. Mae'r siart llif yn Atodiad 3 yn crynhoi'r broses y dylai corff goruchwylio ei dilyn ar ôl derbyn cais gan awdurdod rheoli am ganiatâd colli rhyddid safonol.

A ellir gwneud cais am ganiatâd ymlaen llaw?

- 3.19 Daw caniatâd safonol i rym pan y'i rhoddir, neu ar unrhyw adeg yn ddiweddarach a nodir yn y caniatâd. Mae paragraff 3.4 yn cyfeirio at yr amserlen ar gyfer gwneud cais cychwynol am ganiatâd: rhoddir 28 diwrnod fel y gellir fel arfer gofyn am ganiatâd fel rhan o gynllun gofal (wrth gynllunio i ryddhau rhywun o'r ysbyty er enghraifft). Nid oes cyfyngiad statudol ar faint ymlaen llaw cyn i un caniatâd ddod i ben y gellir gwneud cais am ganiatâd newydd. Yn amlwg, fodd bynnag, ni ddylid gofyn am ganiatâd ormod ymlaen llaw oherwydd gallai hyn atal asesydd rhag gwneud asesiad cywir o beth fydd amgylchiadau'r person ar yr adeg y daw'r caniatâd i rym.
- 3.20 Os yw corff goruchwylio yn ystyried bod cais am ganiatâd wedi'i wneud ormod ymlaen llaw, dylai godi'r mater â'r awdurdod rheoli. Efallai mai canlyniad hyn fydd cytuno â'r awdurdod rheoli bod angen tynnu'r cais yn ôl, a'i ailgyflwyno ar adeg fwy priodol.

Beth sy'n digwydd pan fydd yr awdurdod rheoli a'r corff goruchwylio yr un sefydliad?

- 3.21 Mewn rhai achosion, yr un sefydliad fydd y corff goruchwylio a'r awdurdod rheoli – er enghraifft, lle mae'r awdurdod lleol ei hun yn darparu cartref gofal preswyl, yn hytrach na'i fod yn prynu'r gwasanaeth gan sefydliad arall. Nid yw hyn yn ei atal rhag gwneud y ddau beth. Fodd bynnag yn Lloegr, mae'r rheoliadau yn nodi, mewn sefyllfa o'r fath, nad yw'r asesydd lles yn gallu bod yn un o weithwyr y corff goruchwylio/awdurdod rheoli, na darparu gwasanaeth iddo. Er enghraifft, mewn achos yng nghyswllt cartref gofal awdurdod lleol, gallai'r asesydd lles fod yn weithiwr y GIG neu'n ymarferydd annibynnol. (Gweler paragraffau 4.13 a 4.60 am fanylion llawn ar bwy sy'n gallu bod yn asesydd lles.) Mae darpariaethau tebyg ar gyfer Cymru.

Pennod 3

Sut a phryd y dylid gwneud cais am, a chaniatáu, colli rhyddid?

Pryd y dylid cyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol?

- 3.22 Os nad oes neb priodol i ymgynghori â nhw, ar wahân i bobl sy'n cyfrannu at ofal neu driniaeth y person perthnasol mewn capasiti proffesiynol⁹ neu am dâl, rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyllo pan fydd yn cyflwyno'r cais am ganiatâd colli rhyddid. Yna, rhaid i'r corff goruchwyllo gyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol yn syth i gynrychioli'r person. Mae'n arbennig o bwysig bod yr Eiriolwr yn cael ei gyfarwyddo'n syth os yw caniatâd brys wedi'i roi, fel y gall roi mewnbyn ystyrlon ar ddechrau'r broses. (Gweler paragraff 3.28 am gamau eraill ym mhroses y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid pan fydd yn rhaid neu efallai'n rhaid cyfarwyddo Eiriolwr.)
- 3.23 Mae Pennod 10 yn y prif God ('Beth yw gwasanaeth newydd yr Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol a sut y mae'n gweithio?') yn disgrifio hawliau ehangach a rôl yr Eiriolwr Annibynnol. Dylai cyrff goruchwyllo ddilyn y canllawiau yn y bennod honno i ddod o hyd i Eiriolwr sy'n gymwysedig i gynrychioli'r person perthnasol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi bod gan Eiriolwr Annibynnol sy'n cael ei gyfarwyddo yng nghanam cychwynnol proses y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid hawliau a chyfrifoldebau ychwanegol o'i gymharu ag Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol sy'n cael ei gyfarwyddo'n gyffredinol o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae gan Eiriolwyr Annibynnol yn y cyd-destun hwn hawl:
- fel y gwêl yn briodol, i roi gwybodaeth neu wneud cyflwyniadau i aseswyr, a rhaid i'r aseswyr hynny eu hystyried wrth wneud eu hasesiadau
 - i dderbyn copïau o unrhyw asesiadau gan y corff goruchwyllo
 - i dderbyn copi o unrhyw ganiatâd safonol a roddwyd gan y corff goruchwyllo
 - i gael ei hysbysu gan y corff goruchwyllo os na fedrant roi caniatâd safonol oherwydd na wnaeth un neu fwy o'r asesiadau colli rhyddid fodloni'r gofynion ar gyfer cymhwyso
 - i dderbyn copi o unrhyw ganiatâd brys gan yr awdurdod rheoli
 - i dderbyn gan yr awdurdod rheoli gopi o unrhyw hysbysiad yn gwrthod ymestyn cyfnod unrhyw ganiatâd brys
 - i dderbyn gan y corff goruchwyllo gopi o unrhyw hysbysiad fod caniatâd brys wedi dod i ben, ac

⁹ Nid yw ffrind neu aelod o'r teulu yn cael eu hystyried i fod yn gweithredu mewn capasiti proffesiynol dim ond am eu bod wedi eu penodi yn gynrychiolydd y person ar gyfer caniatâd a roddwyd yn flaenorol.

Pennod 3

Sut a phryd y dylid gwneud cais am, a chaniatáu, colli rhyddid?

- i wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i fynd ag achos y person perthnasol i'r Llys yng nghyswllt mater yn ymwneud â rhoi neu wrthod caniatâd safonol (yn yr un modd ag y gall unrhyw drydydd parti arall wneud).

Disgrifir y prosesau asesu a chaniatâd ym mhenodau 4 a 5.

- 3.24** Bydd angen i Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol ddod yn gyfarwydd ag amgylchiadau'r person perthnasol ac ystyried beth fydd efallai angen iddynt ddweud wrth unrhyw asesydd dros gyfnod y broses asesu. Bydd hefyd angen iddynt ystyried a oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch canlyniad y broses asesu.
- 3.25** Yn ddelfrydol, dylid datrys unrhyw wahaniaeth barn rhwng Eiriolwr Annibynnol ac asesydd tra bo'r asesiad yn dal i gael ei wneud. Lle mae anghydfod sylweddol na ellir ei ddatrys rhwng Eiriolwr ac un neu fwy o'r aseswyr, dylid hysbysu'r corff goruchwylio cyn i'r asesiad gael ei orffen. Dylai'r corff goruchwylio yna ystyried pa gamau sy'n briodol i'w cymryd, gan gynnwys efallai cynnal cyfarfod i drafod y mater. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid datrys gwahaniaeth barn yn anffurfiol fel nad oes angen, gobeithio, i Eiriolwr wneud cais i's Llys Gwarchod. Fodd bynnag, ni ddylid cymell Eiriolwr Annibynnol i beidio â gwneud cais i'r Llys Gwarchod os yw'n credu bod angen gwneud hynny. (Mae pennod 15 o'r prif God ('Beth yw'r ffyrdd gorau o setlo anghytundeb ac anghydfod ynghylch materion sy'n codi o dan y Ddeddf?') yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar ddatrys anghydfod yn codi o dan y Ddeddf.)
- 3.26** Bydd angen i Eiriolwr Annibynnol hefyd ystyried a oes ganddo bryderon ynghylch rhoi caniatâd brys (gweler pennod 6), ac a fyddai'n briodol herio rhoi caniatâd o'r fath drwy'r Llys Gwarchod.
- 3.27** Unwaith y penodir cynrychiolydd person perthnasol (gweler pennod 7), daw dyletswyddau'r Eiriolwr Annibynnol i ben. Fodd bynnag, gall yr Eiriolwr Annibynnol dal wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i fynd ag achos y person perthnasol i'r Llys yng nghyswllt rhoi caniatâd safonol; ond, wrth wneud hynny, rhaid i'r Eiriolwr Annibynnol ystyried barn cynrychiolydd y person perthnasol.

Amgylchiadau eraill lle mae'n rhaid neu efallai'n rhaid cyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol

3.28 Rhaid hefyd cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol yn ystod bylchau ym mhenodiad cynrychiolydd person perthnasol (er enghraifft, os oes angen chwilio am gynrychiolydd newydd – gweler paragraffau 7.34 i 7.36). Hefyd, gellir cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol ar unrhyw adeg os:

- nad oes gan y person perthnasol gynrychiolydd 'proffesiynol' sy'n cael ei dalu
- yw'r person perthnasol neu ei gynrychiolydd yn gofyn bod Eiriolwr Annibynnol yn cael ei gyfarwyddo i'w helpu,
- yw corff goruchwylio yn credu y bydd cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol yn helpu i sicrhau bod hawliau'r person yn cael eu gwarchod (gweler paragraffau 7.37 i 7.41).

4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

Pan fydd corff goruchwylio yn rhoi caniatâd colli rhyddid safonol, mae gan yr awdurdod rheoli hawl i amddifadu'r person perthnasol o'i ryddid yn yr ysbyty neu'r cartref gofal a enwir yn y caniatâd.

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r asesiadau sy'n rhaid eu gwneud er mwyn i ganiatâd safonol gael ei roi. Mae hefyd yn egluro pwy sy'n gymwys i gyflawni'r asesiadau hyn.

Pa asesiadau sydd angen eu cyflawni cyn rhoi caniatâd safonol?

4.1 Cyn gynted ag y bo'r corff goruchwylio wedi cadarnhau y dylid bwrw ymlaen gyda'r cais am ganiatâd safonol, rhaid iddo dderbyn yr asesiadau perthnasol i gadarnhau a ydyw'r gofynion cymhwys yn y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn cael eu cwrdd. Mae gan y corff goruchwylio gyfrifoldeb cyfreithiol i ddewis aseswyr sy'n addas a chymwys. Rhaid cwblhau asesiadau o fewn 21 diwrnod gyda chaniatâd colli rhyddid safonol, neu, lle rhoddyd caniatâd brys, cyn i'r caniatâd brys ddod i ben.

4.2 Yr asesiadau (fel a ddisgrifir ym mharagraffau 4.23 i 4.76) yw:

- asesiad oed (paragraffau 4.23 a 4.24)
- asesiad dim gwrthod (paragraffau 4.25 i 4.28).
- asesiad gallu meddyliol (paragraffau 4.29 i 4.32)
- asesiad iechyd meddwl (paragraffau 4.33 i 4.39)
- asesiad cymhwyster (paragraffau 4.40 i 4.57), ac
- asesiad lles (paragraffau 4.58 i 4.76).

Mae ffurflenni safonol ar gael i'w llenwi gan bob un o'r aseswyr.

4.3 Os nad yw'r person sy'n cael ei asesu yn ardal y corff goruchwylio ar y pryd, dylai'r corff goruchwylio geisio trefnu, cyn belled ag y bo'n ymarferol a phosibl, i ddefnyddio aseswyr sydd wedi eu lleoli wrth ymyl lle mae'r person ar y pryd.

Defnyddio asesiadau cyfwerth

4.4 Yn ôl y Ddeddf, lle mae ‘asesiad cyfwerth’ ag unrhyw un o’r asesiadau hyn eisoes wedi’i dderbyn, gellir dibynnu ar yr asesiad hwnnw yn hytrach na gwneud asesiad newydd.

4.5 Asesiad cyfwerth yw asesiad:

- sydd wedi cael ei wneud yn y 12 mis diwethaf, nid o reidrwydd i bwrpas caniatâd colli rhyddid (lle bo’r asesiad gofynnol yn asesiad oed, nid oes cyfyngiad amser ar ddefnyddio asesiad cyfwerth)
- sy’n cwrdd â holl ofynion yr asesiad colli rhyddid
- lle mae’r corff goruchwylio yn fodlon nad oes lle i gredu nad yw mwyach yn gywir, a
- lle mae gan y corff goruchwylio gopi ysgrifenedig ohono.

Un enghraifft fyddai asesiad diweddar a wnaed i bwrpas Deddf Iechyd Meddwl 1983, a allai gael ei ystyried yn un cyfwerth ag asesiad iechyd meddwl.

4.6 Dylid cymryd gofal mawr wrth benderfynu defnyddio asesiad cyfwerth ac ni ddylid ei wneud fel mater o drefn. Hynaf yn y byd yw’r asesiad, hyd yn oed os cafodd ei wneud yn y 12 mis diwethaf, lleiaf yn y byd yw’n debygol o fod yn asesiad cyfwerth dilys (oni bai ei fod yn asesiad oed). Er enghraifft, dim ond asesiad gallu meddyliol diweddar iawn fyddai’n briodol lle mae’n wybyddus fod gallu yn amrywio, oherwydd un o egwyddorion y Ddeddf yw bod yn rhaid tybio bod gan berson allu oni sefydlir nad oes ganddynt allu.

4.7 Os defnyddir asesiad lles cyfwerth, rhaid i’r corff goruchwylio hefyd ystyried unrhyw wybodaeth a roddir, neu gyflwyniadau a wneir, gan gynrychiolydd y person perthnasol neu gan Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol sydd wedi’i gyfarwyddo o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.

4.8 Dylai cyrff goruchwylio gofnodi’r rhesymau pam y gwnaethant ddefnyddio asesiad cyfwerth. Mae ffurflen safonol ar gael i wneud hyn.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

Pryd ddylid cyflawni asesiadau?

- 4.9 Yn ôl y rheoliadau ar gyfer Lloegr¹⁰ rhaid i bob asesiad sy'n ofynnol ar gyfer caniatâd safonol gael ei gwblhau o fewn 21 diwrnod calendr i'r dyddiad y mae'r corff goruchwyllo yn derbyn cais gan awdurdod rheoli. O dan y rheoliadau ar gyfer Cymru, rhaid cwblhau pob asesiad sy'n ofynnol ar gyfer caniatâd safonol o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr aseswyr eu cyfarwyddo gan y corff goruchwyllo.
- 4.10 Fodd bynnag, os oes caniatâd brys eisoes mewn grym, rhaid cwblhau'r asesiadau cyn i'r caniatâd brys ddod i ben. Yn ôl y rheoliadau ar gyfer Cymru, lle mae'r awdurdod rheoli wedi rhoi caniatâd brys iddo'i hun ac yn gwneud cais am ganiatâd safonol, rhaid i'r aseswyr gwblhau'r asesiadau o fewn pum diwrnod i'r dyddiad y cawsant eu cyfarwyddo.
- 4.11 Gall awdurdodau rheoli roi caniatâd brys am gyfnod cychwynnol heb fod yn fwy na saith diwrnod. Os oes rhesymau eithriadol pam na fu'n bosibl delio â'r cais am ganiatâd safonol o fewn cyfnod y caniatâd brys, **gall y corff goruchwyllo** ei ymestyn am hyd at saith diwrnod arall. Lle'r corff goruchwyllo yw penderfynu beth yw 'rheswm eithriadol', ar ôl ystyried holl amgylchiadau achos unigol.
- 4.12 Rhaid i gyrff goruchwyllo gadw cofnod o bob cais am ganiatâd safonol a ddaw i law a chydabod derbyn ceisiadau am ganiatâd safonol gan awdurdodau rheoli.

Sut ddylid dewis aseswyr?

- 4.13 Nid oes raid i'r chwe asesiad gael eu cwblhau gan wahanol aseswyr. Yn wir, mae'n annhebygol iawn y bydd chwech gwahanol asesydd – nid lleiaf oherwydd y dylid ceisio lleihau'r baich ar y person sy'n cael ei asesu. Fodd bynnag, rhaid i bob asesydd wneud ei benderfyniadau ei hun, a sicrhau bod elfen briodol o wrthrychedd yn cael ei chynnwys yn y broses asesu:
- **rhaid** cael o leiaf dau asesydd
 - **rhaid** i'r asesydd iechyd meddwl a'r asesydd lles fod yn bobl wahanol

¹⁰ Rheoliadau Gallu Meddyliol (Colli Rhyddid: Caniatâd Safonol, Asesiadau a Man Preswyllo Arferol) 2008.

- gall yr asesydd lles fod yn un o weithwyr y corff goruchwylio neu'r awdurdod rheoli, ond **ni all** gyfrannu at ofal neu driniaeth y person y maen nhw'n ei asesu, nac at benderfyniadau ynghylch ei ofal
- ni ddylid defnyddio asesydd lles posibl os oes ganddynt berthynas rheolwr llinell â'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnig y colli rhyddid neu'r asesydd iechyd meddwl
- ni chaiff yr un o'r aseswyr fod â budd ariannol yn achos y person y maen nhw'n ei asesu (ystyrir bod gan berson fudd ariannol mewn achos lle mae'r person hwnnw'n bartner, cyfarwyddwr, yn ddaliwr swydd arall gyda, neu'n rhywun sydd â chyfran helaeth o gyfranddaliadau yn, yr awdurdod rheoli sydd wedi gwneud y cais am ganiatâd safonol)
- **ni chaiff** asesydd berthyn i'r person sy'n cael ei asesu, na pherthyn i berson sydd â budd ariannol yng ngofal y person. I'r pwrpas hwn, 'perthynas' yw:
 - a. gŵr neu wraig, cyn ŵr neu wraig, partner sifil neu gyn bartner sifil
 - b. person yn byw gyda'r person perthnasol fel pe bai'n ŵr neu'n wraig neu'n bartner sifil iddo ef neu hi
 - c. rhiant neu blentyn
 - ch. brawd neu chwaer
 - d. plentyn i berson sy'n dod o fewn diffiniadau a, b neu ch
 - dd. nain neu daid neu ŵyr neu wyres
 - e. nain neu daid yng nghyfraith neu ŵyr neu wyres yng nghyfraith
 - f. modryb neu ewythr
 - ff. chwaer yng nghyfraith neu frawd yng nghyfraith
 - g. mab neu ferch yng nghyfraith
 - h. cefnder neu gyfnither (1af)
 - i. hanner brawd neu hanner chwaer.

Mae'r perthnasoedd hyn yn cynnwys llys berthnasoedd.

- os yw'r awdurdod rheoli a'r corff goruchwylio yr un sefydliad (gweler paragraff 3.21), ni chaiff y corff goruchwylio ddewis i gyflawni asesiad lles unrhyw berson sydd wedi'i gyflogi gan y corff, nac ychwaith sy'n darparu gwasanaeth iddo, a
- dylai'r corff goruchwylio geisio osgoi penodi aseswyr mewn unrhyw sefyllfa gwrthdaro budd posibl arall lle gallai cwestiwn ynghylch gwrthrychedd asesiad godi.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

- 4.14 Mae ffactorau perthnasol eraill y dylai cyrff goruchwylio eu hystyried wrth benodi aseswyr yn cynnwys:
- y rheswm dros y colli rhyddid sy'n cael ei gynnig
 - a oes gan yr asesydd posibl brofiad o weithio gyda'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth y mae'r person sy'n cael ei asesu'n perthyn iddo (er enghraifft, pobl hŷn, pobl gydag anableddau dysgu, pobl gydag awtistiaeth neu bobl gydag anafiadau i'w hymennydd)
 - a oes gan yr asesydd posibl brofiad o weithio gyda phobl o gefndir diwylliannol y person sy'n cael ei asesu, ac
 - unrhyw anghenion penodol eraill sydd gan y person sy'n cael ei asesu, anghenion cyfathrebu er enghraifft.
- 4.15 Dylai cyrff goruchwylio sicrhau bod digon o aseswyr ar gael i gwrdd â'u anghenion, a bod yn fodlon ym mhob achos bod gan yr aseswyr y sgiliau, profiad, cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan reoliadau i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae'r rheoliadau hefyd yn gofyn bod cyrff goruchwylio'n fodlon bod tystysgrif cofnod troseddol briodol yn cael ei chyflwyno ar gyfer asesydd. Mae'n syniad da cadw cofnod o aseswyr cymwysedig a'u profiad a'u hargaeledd. Dylai cyrff goruchwylio ystyried gwneud trefniadau i sicrhau bod gan aseswyr y cyfleon angenrheidiol i gynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth (am ddatblygiadau cyfreithiol er enghraifft) ac i rannu, archwilio ac adolygu eu hymarfer.
- 4.16 Mae aseswyr yn gweithredu fel pobl broffesiynol unigol ac felly'n bersonol atebol am eu penderfyniadau. Ni ddylai awdurdodau rheoli na chyrff goruchwylio orchymyn na cheisio dylanwadu ar eu penderfyniadau.
- 4.17 Nid oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na all cyfweiliadau, archwiliadau a chasglu ffeithiau, sy'n ofynnol fel rhan o unrhyw asesiad o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, ateb mwy nag un pwrpas, er mwyn osgoi rhoi baich diangen ar y person sy'n cael ei asesu ac ar staff. Fodd bynnag, os yw hyn yn digwydd, dylid egluro holl bwrpasau'r cyfweiliad neu'r archwiliad yn glir i'r person perthnasol, ac i unrhyw aelod o'r teulu, ffrindiau, gofalwyr neu eiriolwyr sy'n eu cefnogi.

Gwarchod rhag atebolrwydd

4.18 Ni chaiff ac ni ddylai unrhyw un gyflawni asesiad oni bai eu bod wedi eu gwarchod rhag unrhyw atebolrwydd a allai godi yng nghyswllt gwneud yr asesiad. Bydd angen i aseswyr unigol fodloni eu hunain, ac unrhyw gorff goruchwyllo sy'n eu dewis fel asesydd, bod ganddynt yswiriant priodol eu hunain neu gan eu cyflogwr.

Beth yw'r broses asesu?

4.19 Fel a nodir ym mharagraff 4.2, mae chwe asesiad sy'n rhaid eu gwneud cyn y gall corff goruchwyllo roi caniatâd.

4.20 Mae'r asesiadau wedi eu gosod allan yn y drefn y byddai fel arfer yn fwyaf priodol i'w cyflawni. Yn arbennig, argymhellir nad yw'r asesiad lles, sef yr un sy'n debygol o gymryd fwyaf o amser, yn cael ei ddechrau hyd nes bod sicrwydd rhesymol y bydd y pum gofyniad eraill ar gyfer cymhwyso yn cael eu cwrdd.

4.21 Ond, yn y pen draw, mater i'r corff goruchwyllo yw penderfynu ym mha drefn y dylid gwneud yr asesiadau ac, yng ngoleuni'r amser sydd ar gael i gwblhau'r broses asesu gyfan, ac a fyddant yn cael eu cyflawni ar adegau ar wahân neu ar yr un pryd. Bydd penderfyniad y corff goruchwyllo ynghylch faint o aseswyr fydd yn gwneud yr asesiadau (gweler paragraff 4.13) hefyd yn ffactor perthnasol.

4.22 Mae'r paragraffau canlynol yn egluro'r broses asesu.

Asesiad Oed

4.23 Pwrpas yr asesiad oed, yn syml, yw cadarnhau a ydyw'r person perthnasol yn 18 oed neu'n hŷn neu beidio. Y rheswm am hyn yw, fel a eglurir ym mharagraff 1.12, mai ond i rai 18+ oed y mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn berthnasol. I rai o dan 18 oed, mae proses ddiogelu wahanol yn berthnasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn debygol o fod yn asesiad didrafferth. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid sefydlu oed gyda thystysgrif geni neu dystiolaeth arall sydd ym marn yr asesydd yn ddibynadwy. Lle nad yw'n bosibl cadarnhau i sicrwydd bod y person yn 18+ oed, dylai'r asesydd seilio'r asesiad ar hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

4.24 Gellir cyflawni'r asesiad hwn gan unrhyw un sydd, ym marn y corff goruchwyllo, yn gymwys i fod yn asesydd lles.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

Asesiad dim gwrthod

- 4.25 Pwrpas yr asesiad dim gwrthod yw sefydlu a fyddai caniatâd i drefnu bod y person perthnasol yn colli ei ryddid yn gwrthdaro â chaniatâd arall a roddwyd eisoes i wneud penderfyniadau dros y person hwnnw.
- 4.26 Isod rhoddir enghreifftiau o wrthdaro a fyddai'n golygu na ellid rhoi caniatâd safonol:
- Os yw'r person perthnasol wedi **gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth** sy'n dal i fod yn ddilys ac sy'n berthnasol i rywfaint o'r driniaeth neu i'r holl driniaeth sy'n fwriad y cais am y caniatâd, yna ni ellir rhoi caniatâd safonol. Gweler adrannau 24 i 26 o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 a phennod 9 o'r prif God ('Beth y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniadau a wnaed ymlaen llaw i wrthod triniaeth?') am fwy o wybodaeth am benderfyniadau ymlaen llaw a phryd y maen nhw'n ddilys a pherthnasol. Cofiwch hefyd nad yw caniatâd colli rhyddid, ynddo'i hun, yn rhoi awdurdod i drin y person (gweler paragraffau 5.10 i 5.13 yn y Cod hwn).
 - Os byddai unrhyw ran o'r cynnig i amddifadu rhywun o'i ryddid (gan gynnwys unrhyw elfen o'r cynllun gofal) yn gwrthdaro â **phenderfyniad dilys gan dderbynydd neu ddirprwy** a wnaed o fewn sgôp eu hawdurdod, yna ni ellir rhoi caniatâd safonol. Er enghraifft, os yw derbynydd neu ddirprwy yn penderfynu na fyddai er lles y person perthnasol iddo ef neu hi fod mewn cartref gofal arbennig, ac mae'r penderfyniad hwnnw o fewn sgôp eu hawdurdod, yna bydd angen adolygu'r cynllun gofal gyda'r derbynydd neu'r dirprwy.
- 4.27 Os oes gwrthdaro o'r fath, ni fydd y gofyniad cymhwyso ar gyfer asesiad dim gwrthod yn cael ei gwrdd ac ni ellir rhoi caniatâd colli rhyddid safonol.
- 4.28 Gellir cyflawni'r asesiad dim gwrthod gan unrhyw un sydd, ym marn y corff goruchwyllo, yn gymwys i fod yn asesydd lles.

Asesiad gallu meddyliol

- 4.29 Pwrpas yr asesiad gallu meddyliol yw sefydlu a oes gan y person perthnasol allu i benderfynu a ddylai fynd i'r ysbyty neu i'r cartref gofal perthnasol i dderbyn gofal neu driniaeth. Mae'r asesiad yn cyfeirio'n benodol at allu'r person perthnasol i wneud y penderfyniad hwn ar yr adeg y mae angen iddo gael ei wneud. Dylid bob amser tybio i ddechrau bod gan y person allu i wneud y penderfyniad.

- 4.30 Mae adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf yn nodi sut y dylid penderfynu a ydyw person yn gallu gwneud penderfyniadau neu beidio. Mae pennod 4 yn y prif God ('Sut y mae'r Ddeddf yn diffinio gallu person i wneud penderfyniad a sut y dylid asesu gallu?') yn rhoi canllawiau pellach ar sut i asesu gallu. Wrth asesu gallu person sy'n cael ei ystyried ar gyfer y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, dylid dilyn y canllawiau hyn.
- 4.31 Mae'r rheoliadau ar gyfer Lloegr yn nodi y gellir cyflawni'r asesiad gallu meddyliol gan unrhyw un sy'n gymwys i fod yn asesydd iechyd meddwl neu'n asesydd lles. Wrth benderfynu pwy i'w benodi ar gyfer yr asesiad hwn, dylai'r corff goruchwylio ystyried bod angen dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o gyflwr y person a'i effaith ar wneud penderfyniadau.
- 4.32 Efallai y bydd cyrff goruchwylio eisiau ystyried defnyddio asesydd cymwys sydd eisoes yn adnabod y person perthnasol i wneud yr asesiad hwn, os ydynt yn credu y byddai hynny o fudd. Bydd hyn yn codi'n bennaf os ystyrir mai rhywun sy'n cyfrannu at ofal y person fyddai'r person gorau i wneud asesiad dibynadwy, drwy ddefnyddio ei wybodaeth am y person dros gyfnod o amser. Gallai hefyd helpu i leihau unrhyw bryder a allai gael ei achosi i'r person pe bai'n cael ei asesu gan rywun dieithr.

Asesiad iechyd meddwl

- 4.33 Pwrpas yr asesiad iechyd meddwl yw sefydlu a oes gan y person perthnasol gyflwr meddwl o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae hynny'n golygu unrhyw gyflwr neu anabledd y meddwl, ar wahân i fod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau. Mae'n cynnwys pob anabledd dysgu. Nid asesiad i benderfynu a oes angen triniaeth iechyd meddwl ar y person yw'r asesiad hwn.
- 4.34 Gellir gwneud gwahaniaeth rhwng asesiad iechyd meddwl ac asesiad gallu meddyliol:
- Er bod yn rhaid i berson fod ag anhwylder neu aflonyddwch yn ymwneud â gweithrediad y meddwl neu'r ymennydd i beidio bod â gallu, nid yw'n dilyn bod ganddynt yn awtomatig gyflwr meddwl o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983.
 - Diben yr asesiad iechyd meddwl yw sicrhau bod y person yn derbyn diagnosis meddygol ei fod yn 'feddyliol ansad' ac felly'n dod o fewn sgôp Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

- 4.35 Yng Nghymru a Lloegr, mae'r rheoliadau yn nodi:
- bod yn rhaid i'r asesiad iechyd meddwl gael ei wneud gan feddyg, a
 - bod yn rhaid i'r meddyg sy'n asesu naill ai fod yn gymeradwy o dan adran 12 Deddf Iechyd Meddwl 1983, neu'n ymarferydd meddygol cofrestredig gyda thair blynedd o leiaf o brofiad ôl-gofrestru mewn rhoi diagnosis o, neu drin cyflwr meddwl, fel Meddyg Teulu gyda diddordeb arbennig. Mae hyn yn cynnwys meddygon sy'n cael eu hystyried yn awtomatig i fod yn gymeradwy o dan adran 12 oherwydd eu bod yn glinigwyr cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- 4.36 I fod yn gymwys i wneud asesiadau, yn Lloegr bydd angen i feddyg fod wedi cwblhau hyfforddiant safonol ar gyfer aseswyr iechyd meddwl colli rhyddid. Ac eithrio o fewn y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda'r dyddiad y cwblhaodd y meddyg yr hyfforddiant safonol yn llwyddiannus, mae'r rheoliadau ar gyfer Lloegr hefyd yn gofyn bod angen i'r corff goruchwyllo fod yn fodlon bod y meddyg, yn y 12 mis cyn ei ddewis, wedi cwblhau hyfforddiant pellach sy'n berthnasol i'w rôl fel asesydd iechyd meddwl. Yng Nghymru, bydd angen i feddyg fod wedi cwblhau hyfforddiant priodol â meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol.
- 4.37 Rhaid i gyrff goruchwyllo ystyried addasrwydd yr asesydd ar gyfer yr achos dan sylw (er enghraifft, a oes ganddo ef neu hi brofiad sy'n berthnasol i gyflwr y person).
- 4.38 Fel gydag asesiad gallu meddyliol, efallai y bydd cyrff goruchwyllo eisiau ystyried defnyddio asesydd cymwys sydd eisoes yn adnabod y person perthnasol i wneud yr asesiad hwn, os ydynt yn teimlo y byddai o fudd.
- 4.39 Rhaid i'r asesydd iechyd meddwl ystyried sut y mae iechyd meddwl y person sy'n cael ei asesu yn debygol o gael ei effeithio gan golli ei ryddid, ac adrodd ar ei gasgliadau i'r asesydd lles. Ni all yr un person gyflawni'r asesiad iechyd meddwl a'r asesiad lles.

Asesiad cymhwyster

- 4.40 Mae'r asesiad hwn yn ymwneud yn benodol â statws, neu statws posibl y person perthnasol, o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- 4.41 Nid yw person yn gymwys ar gyfer caniatâd colli rhyddid:
- os yw wedi'i gaethiwo fel claf mewnol mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu Act 1983, or

- os byddai'r caniatâd, pe câi ei roi, yn anghyson ag ymrwymiad sy'n rhaid iddynt ufuddhau iddo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel gofyniad i fyw yn rhywle arall. Bydd hyn ond yn effeithio ar bobl sydd ar gyfnod o absenoldeb o'u caethiwed o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu sydd yng ngofal gwarcheidwad neu'n derbyn triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth neu wedi cael eu rhyddhau'n amodol.

- 4.42 Lle mae'r caniatâd arfaethedig yn ymwneud â chartref gofal, neu â cholli rhyddid mewn ysbyty i dderbyn triniaeth heb fod yng nghyswllt iechyd meddwl, y cwbl fydd yr asesiad cymhwyster yn ei wneud fydd gwirio na fyddai'r caniatâd yn anghyson ag ymrwymiad sy'n rhaid i'r person ufuddhau iddo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- 4.43 Lle mae person yng ngofal gwarcheidwad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gall y gwarcheidwad benderfynu lle bydd yn byw, ond ni all awdurdodi colli rhyddid ac ni all fynnu ei fod yn byw yn rhywle lle byddai'n colli ei ryddid oni bai fod y colli rhyddid hwnnw wedi'i awdurdodi.
- 4.44 Yn achlysurol, efallai y bydd angen i berson sydd yng ngofal gwarcheidwad a heb allu i wneud y penderfyniadau perthnasol dderbyn gofal neu driniaeth benodol mewn ysbyty neu gartref gofal ac ni ellir ei ddarparu heb golli rhyddid. Gallai hyn fod mewn cartref gofal lle mae'r person yn byw eisoes neu lle mae'r gwarcheidwad yn credu y dylai fyw, neu gallai fod mewn ysbyty lle mae angen i'r person fod i dderbyn gofal iechyd corfforol. Gallai hefyd fod yn berthnasol os oes angen i'r person fod mewn ysbyty i dderbyn gofal iechyd meddwl. Mae'r broses ar gyfer cael caniatâd colli rhyddid a'r meini prawf sydd i'w defnyddio yr un fath ag ar gyfer unrhyw berson arall.
- 4.45 Os yw'r caniatâd arfaethedig yn ymwneud â cholli rhyddid mewn ysbyty **yn llwyr neu'n rhannol i bwrpas trin cyflwr meddwl**, yna ni fydd y person perthnasol yn gymwys os:
- yw'n gwrthwynebu i fynd i'r ysbyty, neu i rywffaint o'r driniaeth neu i'r holl driniaeth y bydd yn ei dderbyn yno ar gyfer cyflwr meddwl, **ac**
 - mae'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cais derbyn o dan adran 2 neu adran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (oni bai fod atwrnai neu ddirprwy, sy'n gweithredu o fewn eu pwerau, wedi caniatáu i'r pethau y mae'r person yn gwrthwynebu iddynt).
- 4.46 Mewn nifer o achosion, bydd y person perthnasol yn gallu gwrthwynebu. Fodd bynnag, os nad yw'r person yn gallu cyfathrebu, neu'n gallu cyfathrebu ond ychydig, bydd angen i aseswyr ystyried ymddygiad, dymuniadau, teimladau, barn, credoau a gwerthoedd y person, yn

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

y gorffennol a'r presennol, cyn belled ag y gellir eu cadarnhau (gweler paragraffau 5.37 i 5.48 o'r prif God am ganllawiau ar sut i wneud hyn). Os oes rheswm dros feddwl y byddai person yn gwrthwynebu pe bai'n gallu, yna dylid cymryd bod y person hwnnw'n gwrthwynebu. Weithiau, efallai fod ymddygiad person yn awgrymu i ddechrau ei fod yn gwrthwynebu, ond nad yw'r gwrthwynebiad yn ymwneud â'r driniaeth o gwbl. Os felly, **ni ddylid** cymryd bod y person yn gwrthwynebu.

- 4.47 Dylai aseswyr bob amser gofio mai eu gwaith yw sefydlu'n syml a yw'r person yn gwrthwynebu i driniaeth neu i fod mewn ysbyty neu beidio: nid yw'n berthnasol a ydyw'r gwrthwynebiad yn rhesymol neu beidio.
- 4.48 Hyd yn oed os nad yw person yn gwrthwynebu ac mae caniatâd colli rhyddid yn bosibl, ni ddylid cymryd mai caniatâd o'r fath yw'r ateb cywir o reidrwydd. Efallai fod ffactorau eraill sy'n awgrymu y dylid defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 (er enghraifft, lle credir ei bod yn debygol y bydd y person yn adennill gallu perthnasol ac yna'n gwrthod rhoi ei ganiatâd i driniaeth, neu lle mae'n bwysig bod gan reolwyr yr ysbyty bŵer ffurfiol i ailafael mewn person sy'n mynd yn absennol heb ganiatâd). Rhoddir canllawiau pellach ar hyn yng Nghod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- 4.49 Nid oes angen i'r asesydd cymhwyster benderfynu (nac ystyried hyd yn oed) a fyddai cais o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er lles y person.
- 4.50 Os yw'r caniatâd arfaethedig i drefnu bod rhywun yn colli ei ryddid mewn ysbyty **yn llwyr neu'n rhannol i bwrpas derbyn triniaeth am gyflwr meddwl**, yna ni fydd y person ychwaith yn gymwys os yw:
- pryd hynny ar gyfnod o absenoldeb o'i gaethiwed o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
 - yn derbyn triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth, neu
 - wedi cael ei ryddhau'n amodol,
- ac, os felly, dylid defnyddio'r pwerau galw yn ôl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- 4.51 Fodd bynnag, mae pobl sy'n absennol o'u caethiwed o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu sy'n derbyn triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth neu wedi cael eu ryddhau'n amodol, yn gymwys ar gyfer y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid os oes angen triniaeth arnynt mewn ysbyty am gyflwr corfforol.

Pwy sy'n gallu cyflawni asesiad cymhwyster?

4.52 O dan y rheoliadau ar gyfer Lloegr, rhaid i'r asesiad cymhwyster gael ei wneud gan:

- asesydd iechyd meddwl sydd hefyd yn feddyg adran 12, neu gan
- asesydd lles sydd hefyd yn weithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy.

4.53 Ni ellir cyflawni'r asesiad gan feddyg nad yw'n gymeradwy o dan adran 12, hyd yn oed os yw'n gymwys i fod yn asesydd iechyd meddwl, nac ychwaith gan rywun nad yw'n weithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy, hyd yn oed os yw'n gymwys i fod yn asesydd lles. Bydd hyn yn sicrhau bod yr asesydd cymhwyster yn ddigon cyfarwydd â Deddf Iechyd Meddwl 1983, fydd yn arbennig o bwysig mewn achosion lle ymddengys bod y pwerau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 efallai yn fwy priodol na'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.

4.54 Yn aml iawn, bydd yr asesiad cymhwyster yn cael ei wneud gan yr asesydd lles, ond, os na, rhaid i'r asesydd cymhwyster ofyn i'r asesydd lles ddarparu unrhyw wybodaeth gymhwyster berthnasol sydd efallai gan yr asesydd lles, a rhaid i'r asesydd lles gydymffurfio â'r cais hwn.

Beth sy'n digwydd pan fydd pobl yn cael eu hasesu i fod yn anghymwys?

4.55 Os yw'r asesydd cymhwyster yn credu nad yw'r person perthnasol yn gymwys, ond (ar sail adroddiad yr asesydd lles) y dylai er hynny golli ei ryddid er ei les ei hun, dylai'r asesydd cymhwyster roi gwybod i'r corff goruchwylio ar unwaith.

4.56 Os yw person eisoes yn destun Deddf Iechyd Meddwl 1983, dylai'r asesydd cymhwyster hysbysu'r corff goruchwylio er mwyn dod i gysylltiad â'r clinigwr cyfrifol perthnasol (h.y. y clinigwr sy'n gyffredinol gyfrifol am driniaeth y person) neu, os yw'r person yn destun gwarcheidwad, dylai hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol. Fel arall, dylai'r asesydd neu'r corff goruchwylio drefnu bod y person yn cael asesu ymhellach er mwyn gwneud cais iddo gael ei dderbyn mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd angen i aseswyr fod yn gyfarwydd â'r trefniadau lleol ar gyfer gwneud hyn.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

- 4.57 Mewn rhai achosion, hyd yn oed cyn gwneud yr asesiad cymhwyster, efallai y canfyddir bod siawns y bydd angen asesu'r person i bwrpas gwneud cais o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 oherwydd bod yr asesiad cymhwyster yn casglu ei fod yn anghymwys ar gyfer caniatâd colli rhyddid. Yn yr achosion hyn, dylid mynd ati, lle bo hynny'n ymarferol a phosibl, i drefnu asesiadau mewn ffordd sy'n lleihau nifer y cyfweiliadau neu'r archwiliadau ar wahân y mae'n rhaid i'r person eu cael.

Asesiad Lles

- 4.58 Pwrpas yr asesiad lles yw sefydlu, yn gyntaf oll, a ydyw colli rhyddid yn digwydd neu'n mynd i ddigwydd ac, os felly:
- a ydyw er lles y person perthnasol ei fod yn colli ei ryddid
 - a oes angen i'r person golli ei ryddid er mwyn atal niwed iddo ei hun, ac
 - mae colli rhyddid yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd y bydd y person yn dioddef niwed ac i ddifrifoldeb y niwed hwnnw.
- 4.59 Yr asesydd lles yw'r person sy'n gyfrifol am asesu beth sydd er lles y person perthnasol.
- 4.60 Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i'r asesiad lles gael ei wneud gan weithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy, gweithiwr cymdeithasol, nyrs, therapydd galwedigaethol neu seicolegydd siartredig sydd â'r sgiliau a'r profiad a nodir yn y rheoliadau. Yn Lloegr, mae hyn yn cynnwys dwy flynedd o leiaf o brofiad ôl-gofrestru. Yn Lloegr, rhaid i'r corff goruchwyllo hefyd fod yn fodlon:
- nad yw'r asesydd wedi cael ei wahardd o'r gofrestr neu'r rhestr sy'n berthnasol i broffesiwn y person
 - bod yr asesydd wedi cwblhau hyfforddiant, sydd wedi'i gymeradwyo¹¹ gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i fod yn asesydd lles
 - ac eithrio o fewn y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda'r dyddiad y cwblhaodd y person yr hyfforddiant cymeradwy yn llwyddiannus, bod yr asesydd, yn y 12 mis cyn ei ddewis, wedi cwblhau hyfforddiant pellach sy'n berthnasol i'w rôl fel asesydd lles, a

¹¹ Mae cyrsiau cymeradwy ar gael yn: <http://www.dh.gov.uk/en/SocialCare/Deliveringadultsocialcare/MentalCapacity/MentalCapacityActDeprivationofLibertySafeguards/index.htm>

- bod gan yr asesydd y sgiliau angenrheidiol i gasglu, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth gymhleth a gwahanol farn a'u pwysu a'u mesur yn briodol wrth wneud penderfyniadau.

4.61 Mae adran 4 o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 yn nodi'r egwyddorion lles sy'n berthnasol i bwrpas y Ddeddf. Mae pennod 5 yn y prif God ('Beth y mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'les'?) yn egluro hyn yn fwy manwl, ac, yn enwedig, mae paragraff 5.13 yn y prif God yn cynnwys rhestr wirio o'r ffactorau sydd angen eu hystyried wrth weithio allan beth sydd er lles person. Mae'r egwyddorion a'r canllawiau hyn yr un mor berthnasol i weithio allan beth sydd er lles person i bwrpas y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Fodd bynnag, pan ddaw'n fater o les o ran colli rhyddid, mae ffactorau ychwanegol yn berthnasol, gan gynnwys:

- a allai unrhyw niwed ddigwydd i'r person pe na bai'n colli ei ryddid
- beth fyddai'r niwed hwnnw
- pa mor debygol yw'r niwed hwnnw o ddigwydd (h.y. a yw lefel y risg yn ddigon mawr i gyfiawnhau cam mor ddifrifol â threfnu bod person yn colli ei ryddid?)
- pa opsiynau gofal eraill sydd ar gael a allai osgoi colli rhyddid, ac
- os na ellir osgoi colli rhyddid ar y pryd, pa gamau y gellid eu cymryd i'w osgoi yn y dyfodol.

Sefydlu a ydyw colli rhyddid yn digwydd

4.62 Gorchwyl cyntaf yr asesydd lles yw sefydlu a ydyw colli rhyddid yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, oherwydd nid oes unrhyw bwynt i'r broses asesu fynd yn ei blaen os nad yw colli rhyddid yn digwydd. Os daw'r asesydd lles i'r casgliad **nad yw** colli rhyddid yn digwydd ac nad yw'n debygol o ddigwydd, dylai nodi yn ei adroddiad asesu i'r corff goruchwyllo nad yw colli rhyddid er lles y person oherwydd bod opsiwn llai cyfyngol amlwg ar gael. Felly, ni fydd y gofyniad lles yn cael ei gwrdd yn yr achos hwnnw.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

- 4.63 I sefydlu a ydyw colli rhyddid yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, rhaid i'r asesydd lles ymgynghori ag awdurdod rheoli yr ysbyty neu'r cartref gofal lle mae'r person yn aros, neu lle bydd yn aros ac archwilio unrhyw asesiadau o anghenion perthnasol a chynlluniau gofal a baratowyd ar gyfer y person. Rhaid i'r asesydd lles ystyried a ydyw'r cynllun gofal a'r ffordd y mae neu y bydd yn cael ei weithredu yn arwain at golli rhyddid. Os na, yna nid oes angen unrhyw ganiatâd colli rhyddid ar gyfer y cynllun gofal hwnnw.
- 4.64 Rhaid i'r awdurdod rheoli a'r corff goruchwylio ddarparu i'r asesydd lles unrhyw asesiadau o anghenion neu gynlluniau gofal a wnaed ganddynt neu a wnaed ar eu rhan.

Proses yr asesiad lles

- 4.65 Os yw'r asesydd lles o'r farn bod colli rhyddid yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, dylai ddechrau cyflawni asesiad lles llawn. Yn unol ag adran 4(7) o'r Ddeddf, mae hyn yn golygu holi barn ystod o bobl sy'n gysylltiedig â'r person perthnasol i ganfod a ydynt yn credu bod, neu y byddai colli rhyddid er lles y person perthnasol i'w warchod rhag niwed neu i'w alluogi i ddilyn y cynllun gofal sy'n cael ei gynnig. Dylai'r asesydd lles, cyn belled ag y bo'n ymarferol a phosibl, holi barn
- unrhyw un y mae'r person wedi'i enwi'n flaenorol fel rhywun y mae angen ymgynghori â fo neu hi
 - unrhyw un sy'n cyfrannu at ofal y person
 - unrhyw un sydd â budd yn lles y person (er enghraifft, gofalywr teuluol, perthnasau agos eraill, neu eiriolwr sydd eisoes yn gweithio gyda'r person), ac
 - unrhyw dderbynydd neu ddirprwy sy'n cynrychioli'r person.
- 4.66 Gall hyn olygu bod angen i'r asesydd lles egluro prif agweddau y cynllun gofal, a'r hyn y mae'n ceisio ei wneud, i'r bobl yr ymgynghorir â nhw. Yna, dylai'r asesydd lles ystyried barn y bobl hyn cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol a phriodol. Mae'n hanfodol bod yr asesydd lles yn rhoi barn annibynnol a gwrthrychol ynghylch a oes cyfiawnhad gwirioneddol dros golli rhyddid, ar ôl ystyried yr holl ffactorau a barn pawb perthnasol.

- 4.67 Rhaid i'r asesydd lles nodi yn ei asesiad enw a chyfeiriad pob person sydd â budd y gwnaeth ymgynghori â nhw wrth gyflawni'r asesiad.
- 4.68 Efallai na fydd teulu a ffrindiau'n hyderus ynghylch mynegi barn: cyfrifoldeb yr asesydd lles yw eu galluogi i wneud hyn – drwy eu cefnogi i gwrdd ag anghenion cyfathrebu neu iaith lle bo angen gwneud hynny.

Senario: Ymgynghori ynghylch lles

Mae Mr Simpson yn 60 oed ac yn dioddef o ddementia gyda chof tymor byr arbennig o wael. Mae clinigwyr yn gytun bod hyn mae'n debyg yn gysylltiedig â goryfed alcohol cronig. Ar ôl derbyn triniaeth gychwynnol mewn ysbyty, mae wedi cael ei dderbyn mewn cartref gofal – penderfyniad y cytunodd â fo.

Fodd bynnag, er bod ganddo'r gallu meddyliol i gydsynio i gael ei dderbyn i'r ysbyty, nid oes ganddo unrhyw ddealltwriaeth o'i ddementia. Nid yw'n gallu deall y goblygiadau iechyd a diogelwch os yw'n parhau i yfed, ac mae'n gwneud hynny'n drwm pob tro y mae'n cael gafael ar alcohol ac arian i'w brynu.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

Senario: Ymgynghori ynghylch lles (parhad)

Er na allai Mr Simpson gael gafael ar alcohol yn yr ysbyty, mae tafarn o fewn pellter cerdded i'w gartref gofal, ac mae'n mynd draw i yfed yno. Pan fo'n dychwelyd i'r cartref yn feddw, mae ei ymddygiad yn gallu achosi cryn bryder ac o bosibl mae'n beryglus i'r preswylwyr eraill. Barn staff y cartref gofal yw, os bydd hyn yn parhau, na fydd dewis efallai ond ei ddychwelyd i'r ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae staff y cartref gofal wedi gofyn i Mr Simpson yfed yn gymedrol, ond ofer fu hyn; gofynnwyd i'r landlord beidio â gwerthu mwy nag un diod iddo, ond mae wedi gwrthod gwneud hyn. Mae rheolwr y cartref bellach yn ystyried cynllun gofal i atal Mr Simpson rhag gadael y cartref heb rywun i'w hebrwng, ac atal ymweliadau gan ffrindiau sy'n dod ag alcohol gyda nhw. Mae'n credu y byddai hyn er lles Mr Simpson.

Gan fod y dafarn ar agor drwy'r dydd, pe bai'r cynllun gofal newydd yn cael ei fabwysiadu, byddai'n atal Mr Simpson rhag mynd allan o gwbl heb rywun i'w hebrwng, er ei fod yn aml yn mynd i'r siopau a'r parc yn ogystal ag i'r dafarn. Mae lefelau staffio'r cartref yn isel ac nid oes hebryngydd ar gael ond ar rai diwrnodau ac am gyfnodau ar y tro'n unig.

Mae merch Mr Simpson, ei berthynas agosaf, yn poeni bod y cyfyngiadau hyn yn eithafol ac y byddent yn arwain at golli rhyddid. Mae'n credu mai cael diod a chymdeithasu yn y dafarn yw'r unig bleser sydd gan ei thad ar ôl, ac mae'n siŵr, pe bai'r gallu ganddo, y byddai'n dewis dal ati i yfed, beth bynnag oedd y peryglon i'w iechyd.

Mae'n gofyn am gyfarfod lles i ystyried a allai cynllun gofal llai cyfyngol barhau i gwrdd â'i anghenion.

Yn y cyfarfod hwn, mae nyrs iechyd meddwl gymunedol Mr Simpson yn cadarnhau bod Mr Simpson yn debygol o fod heb allu i benderfynu ar y mater hwn, ac yn cynghori os bydd yn parhau i oryfed y bydd ei ddementia yn debygol o waethygu'n sydyn iawn ac y bydd yn debygol o farw ynghynt. Fodd bynnag, ni fyddai ychydig o alcohol yn andwyo iawn iddo.

Senario: Ymgynghori ynghylch lles (parhad)

Y consensws yw y byddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu Mr Simpson i gynnal ei gysylltiadau cymdeithasol a chario ymlaen â'r bywyd y mae wedi arfer â fo, ac y byddai hynny'n arwain at golli rhyddid. O gofio barn ei ferch, teimlir na fyddai er lles Mr Simpson pe bai'n cael ei atal rhag yfed unrhyw alcohol o gwbl. Fodd bynnag, o ystyried y peryglon i'w iechyd a'r tebygolrwydd y byddai'n rhaid fel arall ei gadw mewn ysbyty, byddai er lles Mr Simpson i sicrhau nad yw'n meddwi. (Byddai'r opsiwn o gyfyngu ei fynediad at ei arian yn annerbyniol gan fod ganddo'r gallu o hyd i benderfynu sut i'w wario mewn ffyrdd eraill.)

Mae'r drafodaeth yna'n canolbwyntio ar sut i leihau'r cyfyngiadau fel ei fod yn parhau i allu mynd i'r dafarn, ond yn yfed yn gymedrol. Yn ôl y gweithiwr allweddol yn y cartref gofal, pan fydd yn mynd i'r dafarn yng nghwmni Mr Simpson, ei fod yn cydweithredu'n llwyr ac ond yn cael un diod cyn dychwelyd gyda hi. Cytunir felly y bydd y cartref yn darparu rhywun i'w hebrwng i'r dafarn o leiaf deirgwaith yr wythnos, ac i'r siopau a'r parc ar adegau eraill, ac y bydd ei ferch yn gallu mynd â fo allan ar unrhyw adeg.

Cytunwyd y byddai staff y cartref gofal (mewn ymgynghoriad â'i ferch) yn adolygu cynllun gofal Mr Simpson ymhen deufis ac, os teimlir bod angen mwy o gyfyngiadau, yn ystyried a fydd wedyn angen gofyn am ganiatâd colli rhyddid.

- 4.69 Rhaid i'r asesydd lles gynnwys y person perthnasol yn y broses asesu gymaint ag y bo hynny'n bosibl ac ymarferol, a'i helpu i gyfrannu at y penderfyniadau. Dylid rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen ar y person perthnasol i gyfrannu, yn defnyddio dulliau di-eiriau o gyfathrebu lle bo angen (gweler paragraffau 3.10 a 3.11 yn y prif God) neu gyda chymorth therapyddion lleferydd ac iaith. Gallai hefyd helpu cynnwys eraill y mae'r person perthnasol eisoes yn ymddiried ynddynt ac sydd wedi arfer â chyfathrebu â fo neu hi.
- 4.70 Bydd angen i'r asesydd lles ystyried casgliadau'r asesydd iechyd meddwl ynghylch sut y bydd colli ei ryddid yn debygol o effeithio ar y person sy'n cael ei asesu. Os byddai'r gofal sy'n cael ei gynnig yn golygu symud y person, yna dylai'r asesydd ystyried effaith yr aflonyddwch a'r siwrne ei hun ar y person.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

- 4.71 Os yw'r asesiad lles yn cefnogi colli rhyddid yn y cartref gofal neu'r ysbyty dan sylw, rhaid i'r asesydd nodi beth ddylai'r cyfnod caniatâd hwyaf fod yn yr achos dan sylw. Ni ddylai fod yn fwy na 12 mis. Dylai'r asesydd roi'r rhesymau dros ddewis y cyfnod a ddewisir. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori – ond dylai hefyd adlewyrchu gwybodaeth yng nghynllun gofal y person ynghylch am ba hyd y bydd angen darparu gofal neu driniaeth o dan amgylchiadau sy'n golygu colli rhyddid. Dylai hefyd ystyried unrhyw syniad posibl ynghylch pa mor debygol y bydd amgylchiadau'r person perthnasol o newid, gan gynnwys datblygiad tebygol y salwch neu'r anabledd. Yr egwyddor sylfaenol yw mai am y cyfnod lleiaf posibl y dylai colli rhyddid ddigwydd, felly, er mwyn i'r cyfnod hwyaf o 12 mis ddigwydd, bydd angen i'r asesydd fod yn ffyddiog na fydd newid yn debygol yn amgylchiadau'r person a fyddai'n effeithio ar y caniatâd o fewn y cyfnod hwnnw.

Adroddiad yr asesydd lles

- 4.72 Rhaid i'r asesydd lles ddarparu adroddiad sy'n egluro ei gasgliad a'i resymau drosto. Os nad yw o blaid colli rhyddid, dylai ei adroddiad geisio bod mor ddefnyddiol â phosibl i'r comisiynwyr a'r darparwyr gofal wrth benderfynu ynghylch beth i'w wneud yn y dyfodol (er enghraifft, drwy argymhell opsiwn arall yn lle'r driniaeth neu'r gofal lle gellid osgoi colli rhyddid). Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r asesydd lles yn trafod y posibilrwydd o weithredu opsiynau o'r fath gyda'r darparwyr gofal **yn ystod y broses asesu**.
- 4.73 Os nad yw'r asesydd lles o blaid colli rhyddid, byddai'n arfer da cynnwys ei adroddiad yng nghynllun gofal neu nodiadau achos y person perthnasol, i sicrhau bod unrhyw farn am sut i osgoi colli rhyddid yn cael ei hegluro'n glir i'r darparwyr gofal ac i'r holl staff perthnasol yn barhaus.
- 4.74 Efallai y bydd yr asesydd lles yn argymhell rhoi amodau ar y caniatâd. Er enghraifft, gallai wneud argymhellion ynghylch materion cyswllt, materion sy'n berthnasol i ddiwylliant y person neu faterion pwysig eraill sy'n ymwneud â cholli rhyddid a fyddai – pe na byddent yn derbyn sylw – yn golygu y byddai colli rhyddid yn peidio â bod er lles y person. Gall yr asesydd lles hefyd argymhell amodau er mwyn gweithio tuag at osgoi colli rhyddid yn y dyfodol. Ond nid rôl yr asesydd lles yw cynnig amodau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater o golli rhyddid.

- 4.75 Ni ddylai amodau ddisodli cynllun gofal trylwyr (gweler paragraff 2.7 ar ymarfer da wrth gynllunio gofal). Wrth argymell amodau, dylai aseswyr lles geisio rhoi cyn lleied â phosibl o gyfyngiadau angenrheidiol, fel nad ydynt yn atal na'n rhwystro staff yr ysbyty neu'r cartref gofal yn ddiangen rhag ymateb yn briodol i anghenion y person, boed yr anghenion hynny'n aros yr un fath neu'n amrywio dros amser. Byddai'n arfer da pe bai'r asesydd lles yn trafod unrhyw amodau arfaethedig â staff perthnasol y cartref neu'r ysbyty cyn cwblhau'r asesiad yn derfynol, a nodi'n glir yn ei adroddiad a fyddai gwrthod neu amrywio'r amodau gan y corff goruchwylio yn effeithio'n sylweddol ar gasgliadau eraill y daeth yr asesydd iddynt.
- 4.76 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai'r asesydd lles argymell rhywun i gael ei benodi fel cynrychiolydd y person perthnasol (gweler pennod 7). Dylai'r asesydd fod mewn sefyllfa dda, o ganlyniad i'r broses ymgynghori, i adnabod unrhyw un addas i gyflawni'r rôl hon. Ni ellir penodi cynrychiolydd ar gyfer y person perthnasol oni bai a hyd nes y bydd caniatâd yn cael ei roi. Fodd bynnag, drwy adnabod rhywun i gyflawni'r rôl hon yn ddigon buan, gall yr asesydd lles helpu i sicrhau bod cynrychiolydd yn cael ei benodi cyn gynted â phosibl.

Senario: Cais am ganiatâd safonol

Mae Mrs Jackson yn 87 oed ac yn byw ar ei phen ei hun mewn byngalo anghysbell mewn ardal wledig. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae staff yn ei chanolfan iechyd leol wedi bod yn poeni'n gynyddol ynghylch ei lles a'i gallu i edrych ar ôl ei hun. Mae wedi mynd i edrych yn flêr, nid yw'n ymddangos i fod yn bwyta'n iawn ac mae ei thŷ yn fudr.

Mae'r tîm iechyd meddwl cymunedol wedi ceisio ennill ei hymddiriedaeth, ond mae'n gyndyn o ddelio â nhw. Mae wedi gwrthod mynediad i'w chartref i ofalwyr gofal ac wedi gwrthod cymorth gyda'i glendid personol a'i gwaith tŷ.

Oherwydd y credir ei bod yn risg bosibl iddi ei hun, mae'n cael ei derbyn i ysbyty seiciatrïg o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i dderbyn asesiad o'i chyflwr meddwl.

Pennod 4

Beth yw'r broses asesu ar gyfer caniatâd colli rhyddid safonol?

Senario: Cais am ganiatâd safonol (*parhad*)

Yn dilyn yr asesiad, teimlir bod angen i Mrs Jackson dderbyn triniaeth bellach am gyflwr meddwl. Mae cais yn cael ei wneud i barhau i'w chaethiwo o dan adran 3 Deddf Iechyd Meddwl 1983. Rhagnodir meddyginiaeth gwrthseicotig iddi, ond nid yw'n ymddangos i gael fawr o effaith ar ei hymddygiad. Mae'n parhau i fod yn hynod amheus o bobl i'r pwynt fel ei bod yn camddyichmygu pethau. Mae'n cael ei hasesu i fod yn dioddef o bosibl o ddementia ysgafn, rhyw fath o Alzheimer mae'n debyg, ond, oherwydd nad oes unrhyw welliant amlwg o gymryd y feddyginiaeth gwrth-ddementia, teimlir bod triniaeth bellach am gyflwr meddwl yn ddiangen.

Mae Mrs Jackson yn mynnu ei bod eisiau dychwelyd i'w chartref ei hun, ond o ystyried methiant yr ymdrechion blaenorol i'w chael i gytuno i dderbyn cymorth yn ei chartref a'r tebygolrwydd y bydd ei meddwl yn dirywio yn y dyfodol, credir mai ei throsglwyddo i gartref gofal fyddai orau.

Mae'r tîm iechyd meddwl yn cynnal cyfarfod lles i ystyried ei gofal a'i lleoliad i'r dyfodol, a gwahoddir gweithiwr cymdeithasol cymeradwy'r tîm a'r Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, sydd wedi'i gyfarwyddo, i fynychu. Daw'r cyfarfod i'r casgliad nad oes gan Mrs Jackson ddigon o allu meddyliol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch ei dymuniad i ddychwelyd i'w chartref. Nid oes penderfyniad ymlaen llaw wedi'i wneud, dim Pŵer Atwrnai Arhosol, dim dirprwy llys wedi ei benodi na ffordd ymarferol o gysylltu â'i theulu agosaf.

Daethpwyd o hyd i gartref gofal priodol. Mae cynllun gofal yn cael ei ddatblygu i roi gymaint o ddewis a rheolaeth i Mrs Jackson dros ei bywyd beunyddiol â phosibl. Fodd bynnag, teimlir bod y cyfyngiadau sydd dal eu hangen i sicrhau lles Mrs Jackson yn rhai mor ddwys ac yn parhau cyhyd fel y dylai rheolwr y cartref gofal (yr awdurdod rheoli perthnasol) wneud cais am ganiatâd colli rhyddid safonol.

Mae'r asesydd lles yn cytuno bod y cwrs gweithredu sy'n cael ei gynneg er lles Mrs Jackson ac yn argymhell caniatâd safonol am chwe mis yn y lle cyntaf.

Pa ganllawiau sydd ar gael ar gyfer gwaith aseswyr?

Mynediad at gofnodion

4.77 Gall pob asesydd, ar unrhyw adeg sy'n rhesymol, archwilio a gwneud copïau o:

- unrhyw gofnod iechyd
- unrhyw gofnod gan, neu sy'n cael ei gadw gan awdurdod lleol a wnaed yn unol â gwaith y gwasanaethau cymdeithasol, ac
- unrhyw gofnod sy'n cael ei gadw gan gartref gofal

sydd yn eu barn nhw efallai'n berthnasol i'w hasesiad. Dylai aseswyr restru'r cofnodion a archwiliwyd ganddynt yn eu hadroddiad asesu.

Cofnodi ac adrodd ar asesiadau

4.78 Cyn gynted â phosibl ar ôl cyflawni eu hasesiadau, rhaid i aseswyr gadw cofnod ysgrifenedig o'r asesiad a rhoi copïau o adroddiad(au) yr asesiad i'r corff goruchwyllo. Yn ei dro, rhaid i'r corff goruchwyllo roi copïau o'r adroddiad(au) asesu i:

- yr awdurdod rheoli
- y person perthnasol a'i gynrychiolydd, ac i
- unrhyw Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol sydd wedi'i gyfarwyddo

ar yr un pryd ag y mae'n rhoi copïau iddynt o'r caniatâd colli rhyddid neu o'r hysbysiad na fydd caniatâd yn cael ei roi (gweler paragraff 5.7 am y naill a 5.18 am y llall).

5

Beth ddylai ddigwydd ar ôl cwblhau'r asesiadau?

Os yw bob asesiad yn y broses asesu caniatâd safonol yn nodi fod yr unigolyn perthnasol yn cwrdd â phob un o'r gofynion cymhwys, yna bydd y corff goruchwylio yn rhoi caniatâd i golli rhyddid. Fodd bynnag, os na fydd un o'r gofynion cymhwys yn cael eu cwrdd, bydd angen gweithredu'n wahanol, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos unigol.

Mae'r bennod hon yn nodi canlyniadau posibl y broses asesu ac mae'n cynnig cyfarwyddyd ar beth ddylai ddigwydd nesaf.

Pa gamau ddylai'r corff goruchwylio eu cymryd os yw'r asesiadau'n dod i'r casgliad fod yr unigolyn yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer caniatâd?

- 5.1 Os yw'r holl asesiadau yn dod i'r casgliad fod yr unigolyn perthnasol yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer caniatâd, a bod gan y corff goruchwylio gopïau ysgrifenedig o'r holl asesiadau, mae'n rhaid iddo roi caniatâd safonol. Mae ffurflen safonol ar gael ar gyfer y pwrpas hwn.
- 5.2 Ni all y corff goruchwylio roi caniatâd safonol os na fydd bob un o'r gofynion yn cael eu cyflawni.
- 5.3 Mae'n rhaid i'r corff goruchwylio osod cyfnod yr caniatâd, na fydd yn hirach na'r hyn a gaiff ei argymhell gan yr aseswr pennaf les (gweler paragraff 4.71).
- 5.4 Pan fydd y corff goruchwylio yn rhoi caniatâd safonol, mae'n rhaid iddo wneud hynny'n ysgrifenedig ac mae'n rhaid iddo ddatgan y canlynol:
 - enw'r unigolyn perthnasol
 - enw'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol
 - y cyfnod y bydd yr caniatâd mewn grym (na fydd yn fwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr aseswr pennaf les)
 - rheswm dros roi'r caniatâd (h.y. pam bod rhaid i'r unigolyn golli rhyddid)

- unrhyw amodau o dan yr hyn y rhoddir caniatâd (gweler paragraff 5.5), a'r
- rheswm pam bod bob un gofyniad cymhwyso yn cael eu cwrdd.

5.5 Fe all y corff goruchwyllo bennu amodau i'r caniatâd. Cyn penderfynu p'un ai rhoi'r caniatâd yn amodol ar amodau, mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan yr aseswr pennaf les (gweler paragraff 4.74). Lle nad yw'r corff goruchwyllo yn gosod amodau yn ôl argymhellion yr aseswr pennaf les, dylai drafod y mater gyda'r aseswr pennaf les rhag ofn y byddai gwrthod neu amrywio'r amodau yn effeithio'n sylweddol ar gasgliadau eraill yr aseswr pennaf les yn ei adroddiad.

5.6 Y corff goruchwyllo sy'n gyfrifol am benodi cynrychiolydd ar gyfer yr unigolyn perthnasol (gweler pennod 7).

5.7 Cyn gynted â phosibl ar ôl rhoi'r caniatâd, mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo roi copi o'r caniatâd i'r:

- awdurdod rheoli
- yr unigolyn perthnasol
- cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol
- unrhyw Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) sy'n gysylltiedig, a
- bob unigolyn dan sylw a enwir gan yr aseswr pennaf les yn eu hadroddiad fel rhywun maen nhw wedi ymgynghori ag o/hi wrth wneud eu hasesiad.

Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo hefyd gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw caniatâd safonol mae'n ei roi ac o'r materion a gyfeirir atynt ym mharagraff 5.4.

5.8 Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli gymryd pob cam posibl ac ymarferol i sicrhau fod yr unigolyn perthnasol yn deall effaith yr caniatâd a'u hawliau yn ymwneud â'r caniatâd. Mae'r rhain yn cynnwys eu hawl i herio'r caniatâd drwy'r Llys Gwarchod, eu hawl i wneud cais am adolygiad, a'u hawl i gael EGMA, ynghyd â'r broses o wneud hynny (gweler paragraffau 7.37 i 7.41). Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth briodol i'r unigolyn perthnasol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth ysgrifenedig hefyd gael ei roi i gynrychiolydd yr unigolyn perthnasol. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd cyn gynted ag sy'n bosibl ac sy'n ymarferol ar ôl rhoi caniatâd.

Pa mor hir y gall caniatâd bara?

5.9 Dylai colli rhyddid bara am y cyfnod byrraf posibl. Dylai'r aseswr pennaf les dim ond argymell caniatâd cyn belled â bod yr unigolyn perthnasol yn debygol o gwrdd â'r holl ofynion cymhwys. Fe all caniatâd fod am gyfnod eithaf byr. Er enghraifft, fe all cyfnod byr fod yn briodol os:

- yw'r rheswm dros golli rhyddid er budd yr unigolyn oherwydd bod eu trefniadau gofal arferol wedi torri i lawr, neu
- mae newidiadau'n debygol i anhwylder meddyliol yr unigolyn yn y dyfodol agos (er enghraifft, os yw'r unigolyn mewn uned adferiad yn dilyn anaf i'r ymennydd).

Pa gyfyngiadau sy'n bodoli ar ganiatâdau?

5.10 Mae caniatâd colli rhyddid – p'un ai'n un brys neu safonol – yn ymwneud â cholli rhyddid yn unig. Nid yw'n rhoi caniatâd i drin pobl, na gwneud unrhyw beth arall a fyddai fel arfer angen eu cydsyniad. Mae'r trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth i'r bobl hynny sydd o dan ganiatâd colli rhyddid, yn destun darpariaethau ehangach y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005.

5.11 Golyga hyn na ellir rhoi triniaeth i unigolyn sydd ddim wedi cydsynio oni bai:

- ei fod yn cael ei sefydlu nad oes gan yr unigolyn y gallu i wneud y penderfyniad dan sylw
- y cytunir y bydd y driniaeth er eu lles, ar ôl ystyried barn yr unigolyn a'r bobl sy'n agos atynt, ac unrhyw EGMA, lle'n berthnasol mewn achos o driniaeth feddygol ddifrifol.
- nad yw'r driniaeth yn gwrthdaro â phenderfyniad a wneir gan dderbynnydd Atwrneiaeth Arhosol neu ddirprwy sy'n gweithredu o fewn sgôp eu pwerau.
- nad yw'r driniaeth yn gwrthdaro â phenderfyniad a wneir gan dderbynnydd Atwrneiaeth Arhosol neu ddirprwy sy'n gweithredu o fewn sgôp eu pwerau.

5.12 I benderfynu beth sydd er lles unigolyn, mae adran 4 o'r Ddeddf yn berthnasol yn yr un ffordd ag y byddai pe na bai'r unigolyn yn colli rhyddid. Mae'r cyfarwyddyd ym mhennod 5 o'r prif God ar asesu'r lles pennaf yn berthnasol hefyd.

Pennod 5

Beth ddylai ddigwydd unwaith mae'r asesiadau wedi'u cwblhau?

- 5.13 Gellir darparu triniaeth i gynnal bywyd, neu driniaeth i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn, tra disgwylir am benderfyniad gan y Llys Gwarchod ynghylch unrhyw fater perthnasol. Bydd yr angen i weithredu er lles yr unigolyn dan sylw yn parhau yn y cyfamser.

A yw'n bosibl symud unigolyn i leoliad gwahanol o dan caniatâd safonol?

- 5.14 Os bydd unigolyn sy'n destun caniatâd safonol yn symud i ysbyty neu gartref gofal gwahanol, mae'n rhaid i'r awdurdod sy'n rheoli'r ysbyty neu gartref gofal newydd wneud cais am caniatâd safonol newydd. Dylid gwneud cais **cyn** symud yr unigolyn.
- 5.15 Os oes raid symud yr unigolyn ar frys fel nad yw hyn yn bosibl, bydd rhaid i'r awdurdod sy'n rheoli'r ysbyty neu'r cartref gofal newydd roi caniatâd brys (gweler pennod 6).
- 5.16 Yr unig eithriad yw os na fydd yr oruchwyliaeth gofal yn y cyfleuster newydd yn cynnwys colli rhyddid.
- 5.17 Nid yw'r trefniadau hyn yn digwydd yn lle cymhwyso darpariaethau adrannau 38 a 39 o'r Ddeddf ynghylch newid preswylfa.

Beth sy'n digwydd os yw asesiad yn dod i'r casgliad nad oes un o'r gofynion yn cael eu cwrdd?

- 5.18 Petai unrhyw un o'r asesiadau'n dod i'r casgliad nad oes un o'r gofynion yn cael eu cwrdd, yna dylai'r broses asesu stopio ar unwaith ac ni ellir rhoi caniatâd. Dylai'r corff goruchwylio:
- hysbysu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chynnal asesiad nad oes angen iddynt ei gwblhau
 - roi gwybod i'r awdurdod rheoli, yr unigolyn dan sylw, unrhyw EGMA sy'n gysylltiedig â phob unigolyn sy'n cael eu hymgyngori gan yr aseswr pennaf les nad oes caniatâd wedi'i roi (mae ffurflen safonol ar gael ar gyfer y pwrpas hwn), a
 - rhoi copïau o'r asesiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r awdurdod rheoli, yr unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA. Mae'n rhaid gwneud hyn cyn gynted â phosibl, oherwydd mewn rhai achosion bydd angen gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer gofal yr unigolyn.

- 5.19 Os mai'r rheswm dros beidio â rhoi caniatâd safonol yw oherwydd nad yw'r gofyniad cymhwyster yn cael ei gwrdd, mae'n bosibl bydd angen ystyried gwneud yr unigolyn yn destun Deddf Iechyd Meddwl 1983. Os mai dyma fydd yr achos, efallai y bydd yn bosibl defnyddio'r un aseswyr i wneud y penderfyniad hwnnw, gan isafu'r prosesau asesu.

Pennod 5

Beth ddylai ddigwydd unwaith mae'r asesiadau wedi'u cwblhau?

Beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod rheoli a'r comisiynwyr gofal os bydd cais am caniatâd yn cael ei wrthod?

- 5.20 Mae'r awdurdod rheoli yn gyfrifol am sicrhau nad yw'n amddifadu unigolyn o'u rhyddid heb caniatâd. Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli gydymffurfio gyda'r gyfraith yn y cyswllt hwn: lle bydd cais am caniatâd yn cael ei wrthod, bydd angen iddo adolygu gwir drefniadau gofal neu drefniadau arfaethedig yr unigolyn perthnasol i sicrhau na chaniateir i broses colli rhyddid barhau neu ddechrau.
- 5.21 Bydd angen i gyrrff goruchwyllo a chomisiynwyr gofal eraill brynu pecynnau gofal mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n bosibl i awdurdodau rheoli gydymffurfio gyda chanlyniad y broses asesu trefniadau diogelu rhag colli rhyddid pan fydd cais am caniatâd safonol yn cael ei wrthod.
- 5.22 Bydd y camau gweithredol y dylai'r awdurdodau rheoli a'r comisiynwyr gofal eu hystyried petai cais am caniatâd yn cael ei wrthod, yn dibynnu ar y rheswm dros wrthod yr caniatâd:
- os daeth yr aseswr lles pennaf i'r casgliad nad oedd yr unigolyn perthnasol mewn gwirionedd yn, neu'n debygol o golli rhyddid, mae'n annhebygol y bydd angen gweithredu.
 - Petai'r aseswr lles pennaf yn dod i'r casgliad nad oedd colli rhyddid er lles yr unigolyn perthnasol, bydd angen i'r awdurdod rheoli, mewn cydweithrediad â'r comisiynydd gofal, ystyried sut gellir newid y cynllun gofal i osgoi colli rhyddid. (Gweler, er enghraifft, y cyfarwyddyd ar ffyrdd ymarferol o ostwng y risg o golli rhyddid ym mharagraff 2.7.) Dylent archwilio'n ofalus y rhesymau a roddwyd yn adroddiad yr aseswr lles pennaf, ac fe allai fod yn ddefnyddiol trafod y mater gyda'r aseswr lles pennaf. Lle'n briodol, dylent hefyd drafod y mater gyda'r teulu a'r gofalywyr. Os nad yw'r unigolyn yn breswlydd yn y cartref gofal neu'r ysbyty eto, efallai na fydd y cynllun gofal diwygiedig yn cynnwys derbyniad i'r cyfleuster hwnnw oni bai fod yr amodau gofal yn cael eu haddasu i fod yn llai cyfyngol ac ni fydd colli rhyddid yn digwydd.

- Petai'r aseswr galluedd meddyliol yn dod i'r casgliad fod **gan** yr unigolyn perthnasol y gallu i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal, bydd angen i'r cartref gofal neu'r ysbyty ystyried sut i gefnogi'r unigolyn i wneud penderfyniadau o'r fath, mewn cydweithrediad â'r comisiynydd gofal.
- Pe na bai'r unigolyn perthnasol yn gymwys i fod yn destun caniatâd colli rhyddid, fe all fod yn briodol asesu p'un ai dylid gwneud cais i gadw'r unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ai peidio.
- Os nad oes gan yr unigolyn perthnasol anhwylder meddyliol fel y diffinnir yn y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, bydd angen addasu'r cynllun gofal i osgoi colli rhyddid, gan na fyddai sail gyfreithiol ar gyfer amddifadu unigolyn o ryddid o dan yr amgylchiadau hynny.
- Lle bydd derbynnydd neu ddirprwy yn gwneud gwrthodiad dilys, neu benderfyniad perthnasol a dilys o flaen llaw (gweler paragraffau 4.25 i 4.28), bydd angen gwneud trefniadau gofal eraill. Os bydd gwrthodiad yn cael ei gwestiynu, mae'n rhaid cael penderfyniad gan y Llys Gwarchod.
- Os bydd yr unigolyn o dan 18 oed, mae'n bosibl ystyried defnyddio Deddf Plant 1989.

5.23 Fe all gweithio allan pa gamau dylid eu cymryd pan fydd cais am ganiatâd colli rhyddid safonol yn cael ei wrthod mewn perthynas â 'hunan-gyllidwr' achosi problemau penodol, oherwydd efallai na fydd yr awdurdod rheoli yn gallu gwneud trefniadau gofal eraill heb eu trafod gyda'r rhai sy'n rheoli'r cyllid, p'un ai'n berthnasau i'r unigolyn neu eraill. Dylai'r canlyniad dymunol fod yn ddarpariaeth trefn gofal sydd ddim yn cynnwys colli rhyddid.

5.24 Os bydd yr aseswr lles pennaf yn dod i'r casgliad nad yw'r gofyniad lles pennaf yn cael ei gwrdd, ond ymddengys i'r aseswr fod yr unigolyn sy'n cael ei asesu eisoes yn colli ei ryddid, mae'n rhaid i'r aseswr roi gwybod i'r corff goruchwyllo ac egluro yn ei adroddiad pam eu bod wedi dod i'r casgliad hwn. Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo wedyn hysbysu'r awdurdod rheoli i adolygu cynllun gofal yr unigolyn perthnasol ar unwaith fel nad yw colli rhyddid heb ei ganiatáu yn parhau. Mae'n rhaid gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol ar frys i atal beth allai fod yn golled rhyddid anghyfreithlon. Dylid cofnodi'r camau a gymerwyd i atal colli rhyddid yn y cynllun gofal. Lle'n bosibl, dylai teulu, ffrindiau a gofalwyr fod yn gysylltiedig â'r penderfyniad sut i atal rhag bod colli rhyddid yn parhau. Os oes gan y corff goruchwyllo unrhyw amheuan ynghylch p'un ai yw'r mater yn cael ei ddatrys yn foddhaol o fewn graddfa amser briodol, dylai roi gwybod i'r corff goruchwyllo (gweler pennod 11).

6

Pryd y gellir rhoi caniatâd brys o golli rhyddid?

Lle bynnag sy'n bosibl, dylid gwneud ceisiadau am ganiatâd colli rhyddid cyn i'r golled rhyddid ddechrau. Fodd bynnag, lle bydd yn anochel cychwyn proses o golli rhyddid cyn cael ganiatâd safonol, gellir rhoi caniatâd brys a fydd yn gwneud colled rhyddid yn gyfreithiol am gyfnod byr.

Mae'r bennod hon yn cynnwys cyfarwyddyd ar y rheolau o gwmpas caniatâd(au) brys.

Pryd ellir rhoi caniatâd brys?

6.1 Gall awdurdod rheoli roi caniatâd brys ei hun ar gyfer colled rhyddid lle:

- bydd angen iddo wneud cais i'r corff goruchwylio am ganiatâd safonol, ond creda fod yr angen i'r unigolyn golli ei ryddid yn achos mor frys fel bod angen i'r golled ddechrau cyn gwneud cais, neu
- bydd wedi gwneud cais am ganiatâd safonol, ond creda fod yr angen i'r unigolyn golli ei ryddid yn achos mor frys fel bod angen i'r colli ddechrau cyn i'r corff goruchwylio ddelio â'r cais.

Golyga hyn na ellir rhoi caniatâd brys heb wneud cais am ganiatâd safonol ar yr un pryd. Felly, cyn rhoi caniatâd brys, bydd angen i awdurdod rheoli gael disgwyliad rhesymol fod y chwe gofyniad cymhwysol ar gyfer caniatâd safonol yn debygol o gael eu cwrdd.

6.2 Dylid defnyddio caniatâd(au) brys fel arfer yn unig mewn ymateb i anghenion sydyn na ragwelwyd. Fodd bynnag, gellir eu defnyddio hefyd wrth gynllunio gofal (er enghraifft, i osgoi oedi wrth drosglwyddo ar gyfer adferiad, lle byddai oediad yn gostwng budd tebygol yr adferiad).

6.3 Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio caniatâd brys os na chredir y bydd angen caniatâd ar gyfer colled rhyddid safonol. Er enghraifft:

- lle bydd unigolyn sydd ddim â'r gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth yn datblygu anhwylder meddyliol o ganlyniad i salwch corfforol, a
- lle bydd y salwch corfforol yn gofyn am driniaeth yn yr ysbyty o dan amgylchiadau sy'n arwain at golled rhyddid, a
- lle disgwylir i driniaeth ar gyfer y salwch corfforol hwnnw arwain at ddatrysiad sydyn o'r anhwylder meddyliol fel na fyddai angen caniatâd safonol o golled rhyddid,

Ile na fyddai'n briodol rhoi caniatâd brys er mwyn cyfreithloni colled rhyddid yn y tymor byr.

6.4 Hefyd, ni ddylid rhoi caniatâd ar gyfer colled rhyddid ar frys pan fydd unigolyn er enghraifft, mewn uned ddamweiniau ac argyfwng neu mewn cartref gofal, a rhagwelir na fydd yr unigolyn hwnnw/honno yn yr amgylchedd hwnnw o fewn ychydig oriau.

6.5 Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir i roi caniatâd brys a gweithredu i golled rhyddid fod er lles yr unigolyn hwnnw/honno, fel yr amlinellir yn adran 4 o'r Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Lle bydd ataliad yn gysylltiedig, mae'n rhaid i bob gweithred gydymffurfio gyda'r amodau ychwanegol yn adran 6 o'r Ddeddf (gweler pennod 6 o'r prif God).

6.6 Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli benderfynu ar y cyfnod y bydd rhaid rhoi caniatâd brys, ond ni ddylai hyn fod yn fwy na saith niwrnod (gweler paragraffau 6.20 i 6.28 ynghylch rhoi estyniad posibl i'r cyfnod saith niwrnod). Mae'n rhaid rhoi'r caniatâd yn ysgrifenedig ac mae'n rhaid iddo nodi:

- enw'r unigolyn perthnasol
- enw'r ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol
- y cyfnod y bydd y caniatâd mewn grym, a'r
- rheswm dros roi'r caniatâd.

Mae ffurflen safonol ar gael gan yr awdurdod rheoli i'w defnyddio i hysbysu corff goruchwyllo ei fod wedi rhoi caniatâd brys.

Pennod 6

Pryd gellir rhoi caniatâd(au) brys o golli rhyddid?

- 6.7 Dylai fod gan gyrrff goruchwyllo ac awdurdodau rheoli weithdrefn yn ei lle sy'n dynodi:
- pa gamau y dylid eu cymryd pan fydd angen gwneud awdurdodiad brys
 - pwy ddylai weithredu, ac
 - o fewn pa raddfa amser.

Pa gofnodion y dylid eu cadw am ganiatâd(au) brys?

- 6.8 Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ganiatâd brys a roir, gan gynnwys manylion ynghylch pam y penderfynodd roi'r caniatâd brys. Mae'n rhaid iddynt roi copi o'r caniatâd i'r unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA cyfarwyddedig, a rhoi copi yng nghofnodion yr unigolyn perthnasol. Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli hefyd geisio sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, fod yr unigolyn perthnasol yn deall effaith y caniatâd a'r hawl i herio'r caniatâd drwy'r Llys Gwarchod. Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth briodol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- 6.9 Dylai'r awdurdod rheoli, cyn belled ag sy'n bosibl ac yn briodol, hysbysu teulu, ffrindiau a gofalwyr yr unigolyn perthnasol pan fydd caniatâd brys yn cael ei roi er mwyn eu galluogi i gynnig cefnogaeth wybodus i'r unigolyn.
- 6.10 Dylid cofnodi prosesau o gwmpas rhoi a derbyn caniatâd(au) brys yn glir, a'u monitro a'u harchwilio'n rheolaidd, fel rhan o strwythur rheolaeth awdurdod rheoli neu gorff goruchwyllo.

Pwy ddylai gael eu hymgyngori cyn rhoi caniatâd brys?

- 6.11 Os yw'r awdurdod rheoli yn ystyried colled rhyddid ar frys a rhoi caniatâd brys, mae'n rhaid iddynt, cyn belled ag sy'n bosibl, ystyried barn unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â gofal yr unigolyn perthnasol neu sydd â diddordeb yn eu lles. Y nod ddylai fod i ymgynghori â gofalwyr ac aelodau'r teulu cyn gynted â phosibl cyn penderfynu rhoi caniatâd brys.
- 6.12 Dylid cofnodi'r camau a gymerir i gynnwys teulu, ffrindiau neu ofalwyr yng nghofnodion yr unigolyn perthnasol, ynghyd â'u barn. Bydd barn y gofalwyr yn bwysig gan y bydd eu gwybodaeth o'r unigolyn yn eu rhoi mewn sefyllfa dda i fesur sut bydd yr unigolyn yn ymateb i golli rhyddid, a'r effaith fydd yn ei gael ar eu cyflwr meddyliol. Fe all hefyd fod yn briodol ymgynghori ag unrhyw staff all fod yn gysylltiedig ag achos yr unigolyn.

- 6.13 Fodd bynnag, bydd y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar ddyfarniad o'r hyn sydd er lles yr unigolyn perthnasol. Bydd angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad o'r awdurdod rheoli allu dangos eu bod wedi gwneud penderfyniad rhesymol yn seiliedig ar eu barn broffesiynol sy'n cymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau rhesymol. Mae hwn yn benderfyniad pwysig, oherwydd fe allai olygu colli rhyddid unigolyn heb i'r broses lawn o asesu trefniadau diogelu rhag colli rhyddid ddigwydd eto. Dylid gwneud penderfyniad felly ar lefel uwch o fewn yr awdurdod rheoli.

Senario: Caniatâd brys wedi'i ddilyn gan ganiatâd safonol byr dymor

Mae Mr Baker yn 75 oed, yn ŵr gweddw ac yn byw ar gyfyl ei unig deulu - er ferch. Mae'n cael ei dderbyn i'r ysbyty ar ôl i'w ferch ei ddarganfod ar lawr y gegin. Mae o'n annodweddiadol o ddryslud ac nid yw'n gallu rhoi hanes dibynadwy o'r hyn ddigwyddodd. Mae o'n cael archwiliad corfforol arferol, ynghyd ag ymchwiliadau gwaed a dŵr, ac mae'n derbyn diagnosis o haint y llwybr wrinol. Mae o'n cael gwrthfotigau, ond mae ei ofal nyrsio'n cael ei gymhlethu gan ei ddryswch anwadal. Unwaith neu ddwy mae o'n tynnu ei ddillad ac yn cerdded drwy'r ward yn noeth, ac ambell waith mae'n ceisio gadael y ward, heb fod yn ymwybodol ei fod yn yr ysbyty, ac yn credu ei fod yn hwyr i gyfarfod pwysig yn y gwaith. Fodd bynnag, yn ystod cyfnodau mwy eglur, mae o'n gwybod lle mae o ac mae o'n derbyn yr angen am ymchwiliad a thriniaeth yn yr ysbyty.

Mae'r ymgynghorydd sy'n gyfrifol amdano, mewn ymgynghoriad â staff nyrsio'r ward a merch Mr Baker, yn teimlo y byddai er lles iddo gael ei roi mewn ystafell ochr i warchod ei urddas, a chyfyngu ar ei symudiadau i wneud yn siŵr ei fod yn aros ar y ward.

Fodd bynnag, ar ôl dau ddiwrnod, ymddengys fod ei ddryswch yn gwaethygu: mae o'n dechrau cael rhithwelediadau ac mae'n rhaid i'r staff ei atal yn gorfforol fwy nag unwaith rhag gadael y ward. Ar ôl cael ei asesu gan feddyg o'r tîm cyswllt seiciatreg, mae Mr Baker yn derbyn presgripsiwn o feddyginiaeth gwrthseicotig er ei ddiogelwch ei hun a chleifion eraill. Nid yw'n gwrthod cymryd ei feddyginiaeth. Mae'r buddion a'r sgîl-ffeithiau posibl yn cael eu trafod gyda'i ferch ac, wrth bwysu a mesur, teimlir fod y feddyginiaeth er lles iddo er mwyn i'r ysbyty allu parhau gyda'i ymchwiliadau meddygol.

Pennod 6

Pryd gellir rhoi caniatâd(au) brys o golli rhyddid?

Senario: Caniatâd brys wedi'i ddilyn gan ganiatâd safonol byr dymor (*parhad*)

Mae'r staff yn dechrau pryderu ynghylch y lefel o gyfyngu ar ryddid Mr Baker. Yn arbennig, maen nhw'n bryderus ynghylch hyd y cyfyngiadau; y ffaith nad yw Mr Baker yn cael cyfnodau eglur pan fydd yn gallu rhoi ei gydsyniad i ofal a thriniaeth barhaus yn yr ysbyty; a'r ataliad corfforol sy'n ofynnol o hyd ar adegau.

Ar ôl trafodaeth rhwng rheolwr y ward a merch Mr Baker, mae'r awdurdod rheoli yn rhoi caniatâd brys ac mae'n cyflwyno cais am ganiatâd safonol i'r corff goruchwylio (PCT). Mae aseswr lles pennaf yn cael ei benodi, ac mae'r seiciatrydd cyswllt yn darparu asesiadau ar iechyd meddwl a gallu meddyliol. Wrth wneud yr holl asesiadau ar drefniadau diogelu rhag colli rhyddid i weld a yw'r gofynion cymhwyso'n cael eu cwrdd, er bod ataliad yn cael ei ddefnyddio, ystyrir nad yw hyn yn golygu ei fod yn gwrthwynebu o ystyried yr holl amgylchiadau. Felly nid yw'n anghymwys, ac mae caniatâd safonol yn cael ei roi.

A ellir symud unigolyn i mewn i ofal o dan ganiatâd brys?

- 6.14 Mae'n bosibl y bydd achosion lle bydd awdurdodau rheoli yn ystyried rhoi caniatâd brys i'w galluogi i symud yr unigolyn perthnasol i fath newydd o ofal. Fe all hyn ddigwydd, er enghraifft, wrth ystyried p'un ai derbyn unigolyn sy'n byw gartref neu gyda pherthnasau i drefn gofal ysbyty a fyddai'n colli eu rhyddid, a phan ymddengys fod yr angen am dderbyniad mor frys fel na fyddai digon o amser i ddilyn y broses caniatâd safonol.
- 6.15 I rai pobl, byddai newid mewn lleoliad yn cael effaith niweidiol ar eu hiechyd meddwl, all wydroi'n sylweddol y ffordd maen nhw'n dod drosodd mewn unrhyw broses asesu. Mewn achosion o'r fath, dylai awdurdodau rheoli ystyried a fyddai rhoi caniatâd brys a derbyn yr unigolyn i ysbyty yn gorbwyso'r buddion o adael yr unigolyn yn eu lleoliad presennol, lle byddai unrhyw asesiad o'u hanghenion yn fwy cywir. Bydd hyn yn cynnwys edrych yn ofalus ar y trefniadau gofal presennol ac ymgynghori gydag unrhyw ofalwyr sy'n gysylltiedig, i sefydlu p'un ai gellir gofalu am yr unigolyn yn ddiogel ac am y gorau yn eu cartref tra bydd y broses asesu'n mynd ymlaen. Lle bydd yr unigolyn perthnasol eisoes yn wybyddus i ddarparwyr gofal statudol, er enghraifft y tîm iechyd meddwl cymunedol neu wasanaethau cymdeithasol, fe fydd yn bwysig eu cynnwys yn y broses o wneud

penderfyniadau. Fe all Meddyg Teulu'r unigolyn perthnasol fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth hefyd ynghylch sefyllfa'r unigolyn, ac fe all gynnig barn werthfawr pan fydd y priodoldeb o symud unigolyn i osodiad gofal gwahanol yn cael ei ystyried.

Beth sy'n digwydd ar ddiwedd cyfnod o ganiatâd brys?

- 6.16 Bydd caniatâd brys yn terfynu ar ddiwedd cyfnod penodedig. Fel y nodwyd uchod, fel arfer, fe fydd hyn am uchafswm o saith niwrnod, ond o dan amgylchiadau eithriadol gall y **corff goruchwyllo** ymestyn caniatâd brys i uchafswm o 14 diwrnod, fel yr eglurir ym mharagraffau 6.20 i 6.28.
- 6.17 Bydd caniatâd brys yn terfynu cyn y cyfnod hwn os bydd y caniatâd safonol yr ymgeisiwyd amdano'n cael ei roi.
- 6.18 Bydd caniatâd brys hefyd yn cael ei derfynu os bydd awdurdod rheoli'n derbyn rhybudd gan y corff goruchwyllo na fydd y caniatâd safonol yn cael ei roi. Wedyn, ni fydd yn gyfreithiol parhau i amddifadu'r unigolyn perthnasol o'i ryddid.
- 6.19 Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo hysbysu'r unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA cyfarwyddedig fod y caniatâd brys wedi dod i ben. Gellir cyfuno'r hysbysiad hwn gyda'r hysbysiad iddyn nhw o ganlyniad y cais am ganiatâd safonol.

Senario: Ystyried caniatâd brys

Mae Mr Watson yn 35 oed. Mae ganddo awtistiaeth ac anabledau dysgu. Mae o'n byw yng nghartref y teulu gyda'i rieni. Er ei fod wedi setlo yno ac yn gyffredinol yn dawel gartref, weithiau bydd Mr Watson yn cyffroi pan fydd mewn amgylchedd anghyfarwydd a gorlawn.

Pan fydd ei rieni i ffwrdd am ychydig ddiwrnodau, a Mr Watson yng ngofal gofalwr cyflogedig, mae o'n cael damwain yn y cartref. Mae ei ofalwr yn amau ei fod wedi torri ei fraich ac mae'n mynd ag o i'r adran Dd&A yn yr ysbyty lleol, lle penderfynir fod angen pelydr-x ar y fraich i wirio a oes toriad. Y canlyniad yw nad oes toriad, dim ond cleisio drwg, felly nid oes angen meddygol i'w dderbyn i'r ysbyty.

Pennod 6

Pryd gellir rhoi caniatâd(au) brys o golli rhyddid?

Senario: Senario: Ystyried caniatâd brys (parhad)

Fodd bynnag, oherwydd y boen mae o'n ei ddioddef a'r amgylchedd gorlawn, mae Mr Watson wedi cynhyrfu i'r fath raddau fel bod gweithwyr diogelwch yr ysbyty'n teimlo bod angen ei reoli'n gorfforol. Mae'r gofalwr yn ceisio ei atal a'i arwain allan lle mae o'n fwy tebygol o setlo a thawelu.

Oherwydd bod ataliad yn cael ei ddefnyddio, mae'r meddyg D&A yn meddwl tybed a yw'n ddyletswydd arno ddefnyddio caniatâd brys neu fesur arall i gadw Mr Watson yn yr ysbyty os yw'n credu fod hyn am y gorau.

Mae o'n ymgynghori gyda nyrs seiciatreg cyswllt, sy'n tawelu ei feddwl bod ataliad o'r fath yn cael ei ganiatáu o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 lle mae'n angenrheidiol i atal niwed i'r unigolyn, a chyn belled â'i fod yn ymateb cymesur. Mae'r nyrs yn cynorthwyo'r gofalwr i fynd â Mr Watson i fan tawelach. Mae hi'n awgrymu i'r meddyg ffonio rhieni Mr Watson am fwy o wybodaeth, ac mae o'n cael rhagor o boen laddwyr i Mr Watson.

Mae'r meddyg yn siarad gyda rhieni Mr Watson, sy'n credu nad oes gan Mr Watson y gallu meddyliol i benderfynu ar ei ofal a'i driniaeth o dan yr amgylchiadau presennol. Maen nhw wedi dod ar draws sefyllfaoedd tebyg sawl gwaith, ac maen nhw'n hyderus y bydd Mr Watson yn tawelu unwaith y bydd wedi cael mynd adref. Maen nhw'n dweud y dylai unrhyw asesiad mwy manwl o'i gyflwr meddyliol ddigwydd yno, yng nghwmni'r gofalwr y maen nhw'n ei hadnabod ac ymddiried ynddi. Maen nhw'n tawelu meddwl y meddyg fod Mr Watson yn annhebygol iawn o beri perygl iddo'i hun, ei ofalwr neu'r cyhoedd.

Mae'r meddyg yn penderfynu y byddai'n well i Mr Watson fynd adref gyda'i ofalwr.

Sut a phryd y gellir ymestyn caniatâd brys?

- 6.20 Os oes rhesymau eithriadol pam na ellir delio â chais am ganiatâd safonol o fewn cyfnod y caniatâd brys gwreiddiol, fe all yr awdurdod rheoli ofyn i'r corff goruchwyllo roi estyniad i gyfnod y caniatâd brys am uchafswm o saith niwrnod arall. Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli gadw cofnod ysgrifenedig o'r rheswm dros wneud y cais ac mae'n rhaid hysbysu'r unigolyn perthnasol, yn ysgrifenedig, eu bod wedi gwneud cais. ~ Mae ffurflenni safonol ar gael i awdurdodau rheoli wneud cais

i gorff goruchwylio am estyniad i ganiatâd brys ac i gyrff goruchwylio gofnodi eu penderfyniad wrth ymateb i gais o'r fath.

- 6.21 Oni bai fod hyd y caniatâd brys yn cael ei ymestyn gan y corff goruchwylio, neu os bydd caniatâd safonol yn cael ei roi cyn i'r caniatâd brys ddod i ben, bydd y caniatâd i golli rhyddid yn dod i ben unwaith y bydd cyfnod y caniatâd brys wedi dod i ben. Mae'n hanfodol felly fod unrhyw gais am estyniad i ganiatâd brys yn cael ei wneud yn brydlon. Bydd hyn yn gorfodi cyfathrebu da rhwng yr awdurdod rheoli a'r corff goruchwylio ynghylch y broses o asesu'r caniatâd safonol. Mae'n bosibl bydd angen cymryd gofal arbennig pan fydd caniatâd brys yn dod i ben dros y penwythnos neu wyliau banc, pan na fydd y bobl briodol yn yr awdurdod rheoli na'r corff goruchwylio ar gael ar unwaith.
- 6.22 Mae'n bosibl bydd y corff goruchwylio yn ymestyn cyfnod y caniatâd brys os:
- bydd yr awdurdod rheoli wedi gwneud cais am ganiatâd safonol
 - bydd rhesymau eithriadol pam nad yw'n bosibl gwneud caniatâd safonol, a'i
 - fod yn hanfodol i'r broses o golli rhyddid barhau tra bydd y corff goruchwylio'n gwneud ei benderfyniad.
- 6.23 Gellir ond caniatáu estyniadau am resymau eithriadol. Enghraifft o pryd byddai estyniad yn cael ei gyfiawnhau yw:
- lle na fyddai'n bosibl cysylltu ag unigolyn y bydd angen i'r aseswr lles pennaf gysylltu ag o/hi
 - lle na ellir dibynnu ar yr asesiad heb eu mewnbwn, a
 - lle byddai estyniad am y cyfnod penodedig yn caniatáu iddynt gael eu cysylltu.
- 6.24 Y corff goruchwylio ddylai benderfynu beth a olygir wrth 'reswm eithriadol', ond oherwydd difrifoldeb y materion dan sylw, mae'n rhaid i benderfyniad y corff goruchwylio fod â sylfaen gadarn sy'n bosibl ei amddiffyn. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol defnyddio prinder staff fel rheswm i ymestyn cyfnod caniatâd brys.
- 6.25 Dim ond unwaith y gellir ymestyn cyfnod caniatâd brys.

- 6.26 Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo roi gwybod i'r awdurdod rheoli beth yw hyd unrhyw estyniad a roir ac mae'n rhaid iddo ddiweddarau'r caniatâd brys gwreiddiol fel ei fod yn nodi'r cyfnod estynedig. Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo hefyd gadw cofnod ysgrifenedig o ganlyniad y cais a chyfnod yr estyniad.
- 6.27 Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli roi copi o'r caniatâd brys diwygiedig i'r unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA cyfarwyddedig, ac mae'n rhaid iddo geisio sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, fod yr unigolyn perthnasol yn deall effaith y caniatâd a'u hawl i'w herio drwy'r Llys Gwarchod. Mae'n rhaid rhoi'r wybodaeth briodol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- 6.28 Petai'r corff goruchwyllo'n penderfynu peidio ymestyn cyfnod y caniatâd brys, mae'n rhaid iddo hysbysu'r awdurdod rheoli o'i benderfyniad a'i resymau dros wneud y penderfyniad. Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli roi copi o'r hysbysiad i'r unigolyn perthnasol a'r EGMA sy'n gysylltiedig.

Pennod 6

Pryd gellir rhoi caniatâd(au) brys o golli rhyddid?

7 Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

Unwaith y cyflwynir caniatâd safonol colli rhyddid, bydd angen i gyrrff goruchwyliol apwyntio cynrychiolydd i'r person perthnasol mor fuan ag sy'n bosibl ac ymarferol i gynrychioli'r person a gollodd ei ryddid.

Mae'r bennod hon yn egluro rôl cynrychiolydd y person perthnasol gan roi canllawiau ar sut i'w dethol a'u hapwyntio.

Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

7.1 Rhaid i'r corff goruchwyliol apwyntio cynrychiolydd person perthnasol ar gyfer pob person y mae'n rhoi caniatâd safonol amddifadedd rhyddid iddo. Mae'n bwysig bod y cynrychiolydd yn cael ei apwyntio pan roddir y caniatâd neu mor fuan ag sy'n bosibl ac ymarferol ar ôl hynny.

7.2 Rôl cynrychiolydd y person perthnasol unwaith yr apwyntir yw:

- cadw cysylltiad gyda'r person perthnasol, a
- chynrychioli a chefnogi'r person perthnasol gyda phob mater sy'n ymwneud â dulliau diogelu rhag colli rhyddid, gan gynnwys, os yn briodol, gofyn am adolygiad, defnyddio gweithdrefn gwyno'r sefydliad ar ran y person neu wneud cais i'r Llys Gwarchod.

Mae hon yn rôl allweddol yn y broses amddifadu o ryddid, gan gynrychioli a chefnogi'r person perthnasol mewn modd sy'n annibynnol o gomisiynwyr a darparwyr y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

7.3 Mae egwyddor lles pennaf y Ddeddf yr un mor berthnasol i gynrychiolydd y person perthnasol ag i bobl eraill sy'n gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau dros bobl sydd heb y gallu i wneud hynny.

Pennod 7

Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

Sut y dylai awdurdodau rheoli weithio gyda chynrychiolydd y person perthnasol?

- 7.4 Cyn gynted ag sy'n bosibl ac ymarferol ar ôl i ganiatâd safonol colli rhyddid gael ei gyflwyno, dylai'r awdurdod rheoli geisio sicrhau bod y person perthnasol a'i gynrychiolydd yn deall:
- effaith y caniatâd
 - yr hawl i ofyn am adolygiad (gweler pennod 8)
 - y gweithdrefnau ffurfiol ac anffurfiol sydd ar gael iddynt
 - eu hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod i geisio amrywio neu ddwyn y caniatâd i ben (gweler pennod 10), ac
 - eu hawl, pan nad oes cynrychiolydd 'proffesiynol' gan y person perthnasol, i ofyn am gefnogaeth Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) (gweler paragraffau 7.37 i 7.41)
- 7.5 Wrth ddarparu gwybodaeth i'r person a'i gynrychiolydd, dylai'r awdurdod rheoli ystyried anghenion cyfathrebu ac anghenion iaith y person a'i gynrychiolydd. Dylai darparu gwybodaeth fod yn gyfrifoldeb parhaus, yn hytrach na gweithgaredd unwaith yn unig.

Pwy sy'n gallu bod yn gynrychiolydd y person perthnasol?¹²

- 7.6 I f od yn gymwys i fod yn gynrychiolydd person perthnasol, dylai'r person fod:
- yn 18 oed neu drosodd
 - yn gallu cadw mewn cysylltiad gyda'r person perthnasol, ac
 - yn fodlon cael ei apwyntio.

Ni ddylai'r person:

- fod â diddordeb ariannol yn awdurdod rheoli'r person perthnasol (ystyrir bod gan berson ddiddordeb ariannol petai'n bartner, cyfarwyddwr, deilydd swydd arall neu'n brif gyfranddaliwr o'r awdurdod rheoli.)

¹² Ymdrinnir â'r gofynion sy'n ymwneud â chymhwyster, dethol ac apwyntio cynrychiolwyr person perthnasol yn y rheoliadau. Y rheoliadau ar gyfer Lloegr yw Rheoliadau Gallu Meddyliol 2008 (Colli rhyddid: Apwyntio Cynrychiolydd Person Perthnasol). Y rheoliadau ar gyfer Cymru yw Rheoliadau Gallu Meddyliol 2008 (Colli rhyddid: Apwyntio Cynrychiolydd Person Perthnasol (Cymru)).

- perthynas person sydd â diddordeb ariannol yn awdurdod rheoli'r person perthnasol (mae paragraff 4.13 yn egluro'r hyn a olygir gan 'berthynas')
- yn cael ei gyflogi gan, neu'n darparu gwasanaeth i'r cartref gofal lle mae'r person perthnasol yn trigo ynddo.
- yn cael ei gyflogi gan yr ysbyty mewn rôl sy'n gysylltiedig neu a all fod yn gysylltiedig gyda thriniaeth neu ofal y person perthnasol, neu
- yn cael ei gyflogi i weithio yng nghorff goruchwyliol y person perthnasol mewn rôl sy'n gysylltiedig neu a all fod yn gysylltiedig gydag achos y person perthnasol.

7.7 Bydd apwyntiad cynrychiolydd y person perthnasol yn ychwanegol at apwyntio'r derbynnnydd neu ddirprwy ond heb effeithio arnynt. Yn yr un modd, bydd swyddogaethau'r cynrychiolydd yn ychwanegol at awdurdod unrhyw dderbynnnydd, pwerau unrhyw ddirprwy neu unrhyw bwerau'r llys ond heb effeithio arnynt. Gall y derbynnnydd neu ddirprwy gael eu hapwyntio'n gynrychiolydd y person perthnasol os ydynt yn cyfarfod y meini prawf a welir ym mharagraff 7.6.

7.8 Nid oes rhagdybiaeth mai'r un person yw cynrychiolydd y person perthnasol a'r sawl a ystyrir y berthynas agosaf ar gyfer dibenion Deddf Iechyd Meddwl 1983, hyd yn oed pan fo'r person perthnasol yn debygol o fod yn destun ar yr un pryd i awdurdodaeth o dan y trefniadau diogelu hyn ag un o ddarpariaethau Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Y rheswm yw na chaiff cynrychiolydd y person perthnasol ei ddethol yn yr un modd â'r berthynas agosaf o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac nid ydynt yn cyflawni'r un rôl. Fodd bynnag, nid oes dim i ddweud na all cynrychiolydd y person perthnasol a'r berthynas agosaf o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fod yr un person.

Pa bryd y dylid enwi cynrychiolydd y person perthnasol?

7.9 Dylai'r broses o enwi cynrychiolydd y person perthnasol gychwyn mor fuan â phosibl.

7.10 Fel arfer, dylai hyn ddigwydd pan apwyntir yr asesydd lles pennaf - hyd yn oed os na chafodd un neu fwy o'r asesiadau eraill eu cwblhau. Rhaid i'r asesydd lles pennaf, fel rhan o'r broses asesu, nodi os oes rhywun yr hoffai ei argymhell i fod yn gynrychiolydd y person perthnasol. Dylai'r asesydd lles pennaf drafod rôl y cynrychiolydd gyda'r rhai a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r asesiad.

Pennod 7

Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

7.11 Mae hyn yn gadael risg y gall y broses i enwi cynrychiolydd ddechrau mewn achosion lle na roddwyd caniatâd. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y broses yn dechrau, fel gellir apwyntio'r cynrychiolydd unwaith y rhoddir yr caniatâd neu mor fuan ag sy'n bosibl neu'n ymarferol wedi hynny.

Sut y dylid dethol cynrychiolydd y person perthnasol?

7.12 Yn y lle cyntaf dylai'r asesydd lles pennaf sefydlu os oes gan y person perthnasol y gallu i ddethol ei gynrychiolydd ei hunan ac, os felly, estyn gwahoddiad iddo wneud hynny. Os yw'r gallu ganddo ac yn dethol person cymwys (yn unol â'r meini prawf a welir ym mharagraff 7.6), dylai'r asesydd lles pennaf argymhell y person hynny i'r corff goruchwyllo ei apwyntio.

7.13 Yn hytrach, os nad oes gan y person perthnasol y gallu, a bod yr awdurdod priodol gan dderbynnydd neu ddirprwy, gall y derbynnydd neu'r dirprwy ddethol y person i'w argymhell yn gynrychiolydd y person perthnasol, unwaith eto yn ddarostyngedig i'r meini prawf a welir ym mharagraff 7.6. Petai'r derbynnydd neu ddirprwy yn dethol person cymwys, yna rhaid i'r asesydd lles pennaf argymhell y person hwnnw i'r corff goruchwyllo ei apwyntio.

7.14 Gwaith yr asesydd lles pennaf yw cadarnhau os yw unrhyw gynrychiolydd a gynigiwyd gan y person perthnasol, derbynnydd neu ddirprwy yn gymwys. Petai'r asesydd lles pennaf yn penderfynu nad yw cynrychiolydd a gynigiwyd yn gymwys, rhaid iddo roi gwybod i'r person a wnaeth y dewis a'i wahodd i wneud dewis arall.

7.15 Os na fydd y person perthnasol, derbynnydd neu ddirprwy, yn dethol person cymwys, yna bydd yr asesydd lles pennaf yn ystyried os gallant ddod o hyd i rywun cymwys sy'n gallu gweithredu fel cynrychiolydd y person perthnasol.

7.16 Wrth argymhell, dylai'r asesydd ystyried a chadw golwg ar ffactorau megis:

- A oes gan y person perthnasol ffafriaeth?
- Os nad yw'r gallu ganddo i fynegi ffafriaeth ar hyn o bryd, a wnaed unrhyw ddatganiad ysgrifenedig gan y person perthnasol pan oedd y gallu ganddosy'n dangos pwy y mae bellach ei angen i'w gynrychioli?

- A fydd y cynrychiolydd a gynigir yn gallu cadw mewn cysylltiad gyda'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn ymddangos ei fod yn ymddiried ac yn gyfforddus gyda'r cynrychiolydd a gynigir?
- A fydd y cynrychiolydd a gynigir yn gallu cynrychioli'r person perthnasol yn effeithiol?
- A yw'r cynrychiolydd a gynigir yn debygol o gynrychioli lles pennaf y person perthnasol?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr asesydd lles pennaf yn gallu bwrw golwg ar yr un pryd os yw'r cynrychiolydd a gynigir yn fodlon ymgymryd â'r gwaith.

- 7.17 Ni ddylid rhagdybio bod angen i'r cynrychiolydd fod yn rhywun sy'n cefnogi'r amddifadiad o ryddid.
- 7.18 Ni ddylai'r asesydd lles pennaf ddethol cynrychiolydd petai'r person perthnasol, os oes gandd o'r gallu i wneud hynny, neu dderbynnydd neu ddirprwy sy'n gweithredu oddi fewn i'w hawdurdod, yn datgan nad ydynt yn fodlon gyda'r dewis.
- 7.19 Petai'r asesydd lles pennaf yn methu argymhell rhywun i fod yn gynrychiolydd y person perthnasol, rhaid cyfleu hynny i'r corff goruchwyllo ar unwaith. Yna bydd y corff goruchwyllo ei hun yn enwi person cymwys i'w apwyntio'n gynrychiolydd. Wrth wneud hyn, gall y corff goruchwyllo ddethol person:
- a fyddai'n cyflawni'r gwaith mewn capasiti proffesiynol
 - gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith
 - nad yw'n aelod o'r teulu, yn ffrind i'r person perthnasol neu'n gofalu amdano
 - nad yw'n cael ei gyflogi gan awdurdod rheoli'r person perthnasol nac yn darparu gwasanaethau iddynt, pan fo awdurdod rheoli'r person perthnasol yn gartref gofal.
 - nad yw'n cael ei gyflogi i weithio yn awdurdod rheoli'r person perthnasol, mewn rôl sy'n gysylltiedig i achos y person perthnasol neu a allai fod yn gysylltiedig ag ef, pan fo awdurdod rheoli'r person perthnasol yn ysbyty.
 - nad yw'n cael ei gyflogi i weithio i'r corff goruchwyllo sy'n apwyntio'r cynrychiolydd mewn rôl sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol neu a allai fod yn gysylltiedig ag ef, a
 - y mae'r corff goruchwyllo yn fodlon fod tystysgrif briodol o gofnod troseddol wedi ei chyhoeddi mewn perthynas ag ef.

- 7.20 Gall y corff goruchwylio dalu i berson a ddewisir ganddo i fod yn gynrychiolydd y person perthnasol o dan yr amgylchiadau a welir ym mharagraff 7.19. Gellir comisiynu'r gwasanaeth hwn, er enghraifft, trwy ddarparwr gwasanaethau hyrwyddo, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi cynrychiolaeth annibynnol effeithiol i'r person perthnasol.
- 7.21 Wrth ddethol cynrychiolydd priodol i'r person perthnasol, dylai'r asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwylio roi sylw arbennig i anghenion cyfathrebu a diwylliannol y person perthnasol.

Pennod 7

Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

Sut ddylai cynrychiolydd y person perthnasol gael ei apwyntio?

- 7.22 Rhaid i'r corff goruchwyliol estyn gwahoddiad ysgrifenedig i'r person a argymhellwyd gan yr asesydd lles pennaf i fod yn gynrychiolydd y person perthnasol. Os nad argymhellir unrhyw un gan yr asesydd lles pennaf, yna dylai'r corff goruchwylio enwi ac apwyntio rhywun i gyflawni'r gwaith. Petai'r person yn fodlon bod yn gynrychiolydd, rhaid i'r corff goruchwyliol ysgrifennu'n ffurfiol i'w apwyntio. Petai'r person yn gwrthod, rhaid enwi person cymwys arall a'i wahodd i fod yn gynrychiolydd. Rhaid parhau gyda'r broses hon hyd nes y caiff person cymwys ei apwyntio.
- 7.23 Rhaid i apwyntiad cynrychiolydd y person perthnasol gan y corff goruchwyliol fod yn ysgrifenedig gan ddatgan rôl a chyfrifoldebau cynrychiolydd y person perthnasol. Yn ogystal dylai'r llythyr apwyntio gynnwys enw'r person a apwyntiwyd a'r dyddiad pan ddaw'r apwyntiad i ben, a ddylai fod am y cyfnod lle cafodd y caniatâd safonol ei roi. Rhaid i'r corff goruchwyliol anfon copïau o'r apwyntiad ysgrifenedig at:
- y person a apwyntiwyd
 - y person perthnasol
 - derbynnydd neu ddirprwy'r person perthnasol
 - unrhyw EGMA sy'n gysylltiedig â hyn
 - pob person sydd â diddordeb a enwyd gan yr asesydd lles pennaf yn ei adroddiad fel rhywun y bu iddo ymgynghori ag ef wrth gyflawni ei asesiad, ac
 - awdurdod rheoli'r ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol.

7.24 Rhaid i gynrychiolydd y person perthnasol gadarnhau'n ysgrifenedig i'r corff goruchwyllo ei fod yn fodlon derbyn yr apwyntiad ac wedi deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â'r person perthnasol.

Sut y dylid cefnogi a monitro gwaith cynrychiolydd y person perthnasol?

- 7.25 Mae'n bwysig bod gan y cynrychiolydd gyswllt digonol gyda'r person perthnasol i sicrhau bod lles pennaf y person perthnasol yn cael ei ddiogelu. Felly er mwyn cyflawni ei rôl, bydd angen i'r cynrychiolydd gael cyswllt wyneb yn wyneb gyda'r person perthnasol. I alluogi hyn bydd angen i'r cartref gofal neu'r ysbyty ganiatáu ymweliadau gan y cynrychiolydd ar amseroedd rhesymol. Dylid cofnodi enw cynrychiolydd y person yng nghofnodion gofal iechyd a chymdeithasol y person.
- 7.26 Dylai awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyllo roi gwybod i gynrychiolydd y person perthnasol am y ffynonellau cefnogaeth a gwybodaeth sydd ar gael i'w cynorthwyo gyda'r gwaith, gan gynnwys sut i gael gafael ar gefnogaeth EGMA (Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol) (gweler paragraff 7.37 i 7.41).
- 7.27 Os na fydd cyswllt digonol gan y cynrychiolydd gyda'r person perthnasol, am ba bynnag reswm, bydd y person yn cael trafferth i gael mynediad at hawliau adolygu ac apelio pwysig. Am y rheswm hwn, os na fydd y cynrychiolydd yn cadw lefel briodol o gyswllt gyda'r person, bydd angen i'r awdurdod rheoli ystyried rhoi gwybod i'r corff goruchwyllo. Pan fo'r awdurdod rheoli yn adolygu cynllun gofal y person, dylai ystyried os yw'r cynrychiolydd mewn cyswllt digonol gyda'r person perthnasol i gynnig cefnogaeth effeithiol. Bydd cofnodion a gedwir gan yr awdurdodau rheoli ar amllder y cyswllt o gymorth iddynt wrth ystyried hyn.
- 7.28 Oherwydd bod y lefelau priodol a'r dulliau o gyswllt rhwng y person perthnasol a'i gynrychiolydd yn amrywio o achos i achos, mae'n fater y bydd angen i'r awdurdod rheoli ddefnyddio ei ddisgresiwn arno. Petai gan yr awdurdod rheoli unrhyw bryderon, efallai mai gwell fyddai codi'r mater gyda'r cynrychiolydd yn y lle cyntaf i weld os gellir datrys unrhyw broblem yn anffurfiol. Petai'r cynrychiolydd, ar ôl gwneud hyn, yn dal i fethu â chadw'r hyn a ystyrir yng ngolwg yr awdurdod rheoli yn lefel briodol o gyswllt gyda'r person perthnasol, yna dylai'r awdurdod rheoli roi gwybod i'r corff goruchwyllo.

Pa bryd y gellir dwyn apwyntiad cynrychiolydd y person perthnasol i ben?

- 7.29** Gellir dwyn apwyntiad cynrychiolydd y person perthnasol i ben trwy unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:
- Daw'r caniatâd safonol i ben ac ni wneir cais am ganiatâd newydd, neu o wneud cais newydd, fe'i gwrthodir.
 - Bod y person perthnasol, petai'r gallu ganddo, yn gwrthwynebu i'r cynrychiolydd barhau yn ei rôl a bod person arall yn cael ei ddewis i fod yn gynrychiolydd yn ei le.
 - Bod derbynnydd neu ddirprwy, petai o fewn eu gallu i wneud hynny a bod y person perthnasol heb y gallu i benderfynu, yn gwrthwynebu i'r cynrychiolydd barhau yn ei rôl a bod person arall yn cael ei ddewis i fod yn gynrychiolydd yn ei le.
 - Bod y corff goruchwylio yn dod i wybod nad yw'r cynrychiolydd bellach yn fodlon neu'n gymwys i barhau yn y rôl.
 - Bod y corff goruchwyliol yn dod i wybod nad yw cynrychiolydd y person perthnasol yn cadw mewn cysylltiad gyda'r person, nac yn ei gynrychioli a'i gefnogi'n effeithiol neu heb weithredu er lles pennaf y person.
 - Bod cynrychiolydd y person perthnasol yn marw.
- 7.30** Petai'r corff goruchwylio yn dod i wybod nad yw'r cynrychiolydd yn cadw mewn cysylltiad gyda'r person, neu ddim yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol, neu nad yw bellach yn gymwys, dylai gysylltu gyda'r cynrychiolydd i gael cadarnhad o'r sefyllfa cyn penderfynu dwyn yr apwyntiad i ben ai peidio.
- 7.31** Pan ddaw apwyntiad cynrychiolydd y person perthnasol i ben, rhaid i'r corff goruchwylio roi rhybudd i bob un a restrir ym mharagraff 7.23. Dylid cyflwyno'r rhybudd hwn mor fuan â phosibl, gan ddatgan pa bryd y daeth yr apwyntiad i ben a'r rheswm dros hynny.
- 7.32** Pan ddaw apwyntiad cynrychiolydd y person perthnasol i ben ond bod y colli rhyddid cyfreithlon yn parhau, rhaid i'r corff goruchwylio apwyntio olynnydd addas i fod yn gynrychiolydd y person perthnasol mor fuan ag sy'n bosibl ac ymarferol ar ôl iddynt ddod i wybod bod angen llenwi'r swydd. Fel ag o'r blaen, dylai person sy'n gymwys i fod yn asesydd lles pennaf wneud argymhelliad i'r corff goruchwylio a dylai'r corff hwnnw gymryd sylw o'r argymhellion.

Pennod 7

Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

- 7.33 Os mai'r rheswm dros ddwyn apwyntiad y cyn gynrychiolydd i ben yw'r ffaith nad yw bellach yn gymwys, dylid gofyn am farn y cyn gynrychiolydd ynghylch pwy a allai ddod yn ei le. Wedyn dylid gwahodd y person a enwyd yr un mwyaf addas i dderbyn yr apwyntiad. Dylid parhau â'r broses hon hyd oni fydd person cymwys yn fodlon derbyn yr apwyntiad.

Beth fyddai'n digwydd pan nad oes cynrychiolydd i'r person perthnasol ar gael?

- 7.34 Bydd person a amddifadir o'i ryddid mewn sefyllfa eithriadol o fregus yn ystod unrhyw gyfnod pan ddisgwylir apwyntiad cynrychiolydd i'r person perthnasol, gan ei bod yn bosibl na fydd neb i gynrychioli ei les neu i wneud cais am adolygiad ar ei ran. Mewn amgylchiadau o'r fath, os nad oes neb a all gefnogi a chynrychioli'r person (ac eithrio person a ofynnwyd i ddarparu gofal a thriniaeth i'r person perthnasol mewn capasiti proffesiynol neu a gyflogwyd i wneud hynny), bydd angen i'r awdurdod rheoli roi gwybod i'r corff goruchwyliol, a gallant hwy gyfarwyddo EGMA i gynrychioli'r person perthnasol hyd oni apwyntir cynrychiolydd newydd.
- 7.35 Mae rôl yr EGMA a gyfarwyddir mewn amgylchiadau o'r fath yn ei hanfod yr un fath a rôl cynrychiolydd y person perthnasol. Mewn sefyllfa o'r fath daw rôl yr EGMA i ben pan apwyntir cynrychiolydd newydd i'r person perthnasol.
- 7.36 Pa bryd bynnag na fydd gan y person perthnasol gynrychiolydd, fe fydd yn bwysig iawn bod cyrff goruchwyliol yn ystyried defnyddio eu disgresiwn i gynnal adolygiad petai newid sylweddol yn amgylchiadau'r person.

Pa bryd y dylid cyfarwyddo EGMA?

- 7.37 Mae gan y person a amddifadwyd o'i ryddid o dan ganiatâd safonol a'i gynrychiolydd hawl statudol i gael gafael ar EGMA. Cyfrifoldeb y corff goruchwyliol yw cyfarwyddo EGMA petai'r person perthnasol neu ei gynrychiolydd yn gofyn am un. Y bwriad yw rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r person perthnasol neu aelod o'r teulu neu ffrind sy'n gweithredu fel eu cynrychiolydd petaent ei angen, ac i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r broses adolygu neu gael mynediad at drefniadau diogelu'r Llys Gwarchod. Pan fo'r person perthnasol gyda chynrychiolydd 'proffesiynol' wedi ei dalu (gweler paragraffau 7.19 a 7.20), ni ddylai'r angen am gefnogaeth hyrwyddo ychwanegol godi ac felly nid oes angen gofyn am ddarparu EGMA yn yr amgylchiadau hyn.

- 7.38 Rôl yr EGMA yw bod o gymorth i gynrychioli'r person perthnasol, ac yn enwedig, i gynorthwyo'r person perthnasol a'u cynrychiolydd i ddeall effaith yr caniatâd, beth mae'n ei olygu, pam y cafodd ei roi, pam fod y person perthnasol yn cyfarfod meini prawf y caniatâd, pa mor hir fydd y cyfnod, unrhyw amodau y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddynt a sut i ofyn am adolygiad neu i'w herio yn y Llys Gwarchod. Yn ogystal gall yr EGMA roi cefnogaeth gydag adolygiad (gweler pennod 8) neu gyda chais i'r Llys Gwarchod (gweler pennod 10), er enghraifft cynorthwyo'r person i roi eu sylwadau drosodd.
- 7.39 Bydd gan yr EGMA yr hawl i wneud cyflwyniadau i'r corff goruchwyliol ar y mater o a ddylid adolygu gofyniad cymhwysol ai peidio, neu i gyfleu gwybodaeth, neu gyflwyniadau, i unrhyw asesydd sy'n cynnal asesiad adolygu. Rhaid dweud wrth y person a'u cynrychiolydd am wasanaeth EGMA a sut i ofyn amdano.
- 7.40 Dylid cyfarwyddo EGMA pa bryd bynnag y gwneir cais gan y person perthnasol neu ei gynrychiolydd. Gellir gwneud hynny fwy nag unwaith yn ystod cyfnod y caniatâd. Er enghraifft, gellir gofyn am gymorth ar ddechrau'r caniatâd ac eto yn hwyrach er mwyn gofyn am adolygiad.
- 7.41 Yn ychwanegol, petai rheswm gan y corff goruchwyliol i gredu na fyddai'r adolygiad a threfniadau diogelu'r Llys Gwarchod yn cael eu defnyddio heb gefnogaeth EGMA, yna rhaid iddynt gyfarwyddo EGMA. Er enghraifft, petai'r corff goruchwyliol yn gwybod bod y person wedi dethol cynrychiolydd sydd angen cymorth gyda chyfathrebu, dylai ystyried os oes angen EGMA ai peidio.

Pennod 7

Beth yw rôl cynrychiolydd y person perthnasol?

8

Pryd dylid adolygu caniatâd a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

Pan fydd unigolyn yn colli ei ryddid, mae gan yr awdurdod rheoli ddyletswydd i fonitro'r achos yn barhaus er mwyn gweld a yw amgylchiadau'r unigolyn yn newid - a all olygu nad oes rhaid iddo golli ei ryddid mwyach.

Bydd rhaid i'r awdurdod rheoli lunio cynllun gofal sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau clir o ran monitro a chadarnhau o dan ba amgylchiadau y dylid cynnal adolygiad. Er enghraifft, os yw cyflwr yr unigolyn yn newid yn aml, yna dylid adolygu ei sefyllfa yn amlach.

Mae'r bennod hon yn esbonio dyletswyddau'r awdurdodau rheoli a'r cyrff goruchwylio o ran adolygu achosion a'r hyn sy'n digwydd pan fo caniatâd yn dod i ben. Gwelir y broses adolygu ar ffurf graff llif yn Atodiad 4.

Pryd y dylid adolygu caniatâd safonol?

- 8.1 Gellir adolygu caniatâd safonol ar unrhyw adeg. Cynhelir yr adolygiad hwn gan y corff goruchwylio.
- 8.2 Mae rhai rhesymau statudol dros gynnal adolygiad. Os atebir y rhesymau statudol hyn am adolygiad, mae'n rhaid i'r corff goruchwylio gynnal ymchwiliad. Os gofynnir am adolygiad gan yr unigolyn dan sylw, ei gynrychiolydd, neu'r awdurdod rheoli, mae'n rhaid i'r corff goruchwylio gynnal ymchwiliad. Mae llythyrau safonol ar gael ar gyfer yr unigolyn dan sylw neu ei gynrychiolydd er mwyn gofyn am adolygiad. Ceir hefyd ffurflen safonol ar gyfer yr awdurdod rheoli i ofyn am adolygiad. Gall corff goruchwylio hefyd ddewis cynnal adolygiad o'i wirfodd.
- 8.3 Dyma'r rhesymau statudol dros adolygiad:
 - Dydi'r unigolyn dan sylw ddim bellach yn gymwys o dan y gofynion oed, dim gwrthodiad, gallu meddyliol, iechyd meddyliol neu les .
 - Dydi'r unigolyn dan sylw ddim mwyach yn ateb y gofyniad cymhwyster gan ei fod bellach yn gwrthwynebu derbyn triniaeth iechyd meddwl mewn ysbyty ac maent yn ateb y meini prawf am gais mynediad o dan adran 2 neu adran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler paragraffau 4.45 i 4.48).

Pennod 8

Pryd y dylid adolygu awdurdodiad a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

- Bu newid yn sefyllfa'r unigolyn dan sylw, ac oherwydd y newid, byddai'n briodol i addasu amod sy'n bodoli ar hyn o bryd, ei ddileu neu ychwanegu amod newydd.
- Mae'r rhesymau pam y mae'r unigolyn yn cyfateb i'r gofynion cymhwyso bellach yn wahanol i'r rhai a roddwyd pan ddyfarnwyd y caniatâd safonol.

- 8.4 Gall trefniadau gwahanol fod yn berthnasol os nad yw'r unigolyn yn ateb y gofyniad cymhwyster bellach gan ei fod yn glaf dan orchymyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'n ateb gofyniad o'r ddeddf honno sy'n tynnu'n groes i'r caniatâd. (Gweler paragraffau 8.19 hyd at 8.31 o ran gohirio caniatâd safonol dros dro).
- 8.5 Mae'n rhaid i awdurdod rheoli ofyn am adolygiad os ydynt o'r farn nad yw un neu fwy o'r gofynion cymhwyso bellach yn cael eu hateb neu mae'n bosib na ellir eu hateb mwyach.

Beth sy'n digwydd pan fo adolygiad ar fin digwydd?

- 8.6 Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo roi gwybod i'r unigolyn dan sylw, ei gynrychiolydd a'i awdurdod rheoli os ydynt am gynnal adolygiad. Dylid gwneud hyn naill ai cyn i'r adolygiad ddechrau neu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib wedi iddo gychwyn. Mae ffurflen safonol ar gael ar gyfer y diben hwn.
- 8.7 Bydd rhaid i gofnodion yr unigolyn dan sylw gynnwys gwybodaeth am unrhyw adolygiadau ffurfiol y gofynnwyd amdanynt, pryd y cawsant eu hystyried a'r canlyniad. Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo gadw'r cofnodion hyn.
- 8.8 Gall unigolyn golli ei ryddid cyn diwedd adolygiad ffurfiol. Dim ond caniatáu colli rhyddid y mae caniatâd; nid yw'n golygu bod rhaid i'r unigolyn golli ei ryddid pan nad yw'r amgylchiadau yn gofyn am hynny. Os yw cartref gofal neu ysbyty yn penderfynu nad oes angen colli rhyddid bellach, yna mae'n rhaid iddynt ei ddiddymu'n syth, gan addasu'r gyfundrefn gofal neu weithredu unrhyw newid arall sy'n briodol. Dylai'r awdurdod rheoli wedyn ymgeisio i'r corff goruchwyllo er mwyn adolygu, ac os yw hynny'n briodol, rhoi terfyn ar y caniatâd yn ffurfiol.

Sut y dylid adolygu caniatâd safonol?

- 8.9 Pan fo corff goruchwyllo yn derbyn cais am adolygiad, mae'n rhaid i'r corff benderfynu pa rai, os o gwbl, o'r gofynion cymhwyso sydd angen eu hadolygu. Mae ffurflen safonol ar gael i gofnodi'r penderfyniad hwn.
- 8.10 Os yw'r corff goruchwyllo yn penderfynu nad oes angen adolygu unrhyw un o'r gofynion cymhwyso, ni fydd angen unrhyw weithredu pellach. Er enghraifft, os cafwyd asesiad neu adolygiad lled ddiweddar, ac nad oes tystiolaeth newydd wedi ei chyflwyno i ddangos nad yw'r unigolyn perthnasol yn ateb y meini prawf, neu fod amgylchiadau wedi newid, nid oes angen unrhyw adolygiad.
- 8.11 Os yw'n ymddangos bod angen adolygu un neu fwy o'r gofynion cymhwyso, bydd rhaid i'r corff goruchwyllo drefnu asesiad adolygu ar wahân i'w gynnal ar gyfer pob un o'r gofynion hyn.
- 8.12 Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo gofnodi pryd y gofynnir am adolygiad, beth yw ei benderfyniad (os yw'n penderfynu cynnal adolygiad neu beidio) a'r rhesymau dros ei benderfyniad.
- 8.13 Yn gyffredinol, dylai prosesau adolygu ddilyn y prosesau caniatâd safonol - felly dylai cyrff arolygu gynnal yr asesiadau a amlinellwyd ym mhennod 4 o'r Cod Ymarfer hwn ar gyfer pob un o'r gofynion cymhwyso sydd angen eu hadolygu.
- 8.14 Pan fo'r corff goruchwyllo yn penderfynu y dylid adolygu'r gofyniad, a hynny'n unig gan fod manylion yr **amodau** sydd wedi eu gosod wrth y caniatâd angen eu newid, ac nad yw'r cais adolygiad yn cynnwys tystiolaeth am newid arwyddocaol yn amgylchiadau cyffredinol yr unigolyn dan sylw, nid oes rhaid cynnal ailasesiad llawn o'r lles .
- 8.15 Os yw'r adolygiad yn ymwneud ag unrhyw un o'r gofynion eraill, neu gyda newid arwyddocaol yn sefyllfa'r unigolyn o dan y gofyniad lles , dylai'r corff goruchwyllo drefnu asesiad newydd.
- 8.16 Os yw'r asesiad yn dangos bod y gofyniad yn dal i gael ei ateb, dylai'r corff goruchwyllo wneud yn siwr a yw'r rheswm penodol y caiff ei ateb wedi newid o'r rheswm a roddwyd ar y caniatâd gwreiddiol. Os yw hynny'n wir, pryd y dylid adolygu caniatâd a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

Pennod 8

Pryd y dylid adolygu awdurdodiad a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

Senario: Y broses adolygu

Mae Jo yn 29 ac mi ddioddefodd niwed difrifol i'w hymennydd yn y ddamwain ffordd a laddodd ei rhieni. Mae'n cael anhawster mawr gyda chyfathrebu geiriol ac ysgrifenedig. Mae Jo yn gallu cael pyliau o rwystredigaeth mawr ac mae hanesion ohoni'n troi ar bobl eraill yn y cartref nyrsio ble mae'n byw ar hyn o bryd. Ar y dechrau, roedd hi'n ceisio gadael y cartref yn rheolaidd, ond ym marn y sefydliad oedd yn darparu'r gofal ar ei chyfer, byddai hynny'n creu perygl gwirioneddol iddi, felly dylid rhwystro hynny rhag digwydd.

Cafodd Jo ei hasesu o dan y canllawiau diogelu colli rhyddid ac fe gytunwyd ar caniatâd am chwe mis. Mae tri mis arall yn weddill ar y caniatâd hwn. Fodd bynnag, mae Jo wedi dod yn ei blaen yn rhyfeddol yn y cartref, a barn ei chynrychiolydd yw nad ydi hi'n siŵr bellach a oes angen y cyfyngiadau arni. Ond ym marn staff y cartref gofal, nid yw'r gwelliant hwn yn lleihau'r gofyniad lles yn y caniatâd safonol i golli rhyddid.

Mae Jo yn cael help gan ei chynorthwydd i ofyn am adolygiad, a hynny ar ffurf llythyr yn cynnwys lluniau. Mae'r lluniau fel petaent yn disgrifio rhwystredigaeth Jo gyda phrosesau cyfreithiol sydd, yn ei golwg hi, yn ei rhwystro rhag symud i'w chartref ei hun.

Mae'r corff goruchwyllo yn penodi asesydd lles i gydlynu'r adolygiad. Mae'r asesydd lles yn ystyried pa rai o'r gofynion cymhwyster sydd angen eu hadolygu a chan bwy. Mae'n ymddangos y dylid adolygu'r asesiad lles, ynghyd â'r asesiadau iechedd meddwl a gallu meddyliol o bosib.

Er mwyn asesu gallu meddyliol Jo, a'i dymuniadau hi ei hun ar gyfer yr asesiad lles, mae'r asesydd lles yn credu y byddai help arbenigol yn fuddiol. Mae therapydd iaith a lleferydd yn cyfarfod gyda Jo ac yn defnyddio system o gyfathrebu gweledol gyda hi. Gan ddefnyddio'r system hon, mae'r therapydd yn gallu dweud, yn ei barn hi, nad oes gan Jo mo'r gallu i wneud penderfyniad i adael y cartref gofal. Roedd yr asesiad iechedd meddwl hefyd yn cadarnhau yr ystyrir fod gan Jo anhwylder meddwl o hyd.

Senario: Y broses adolygu (parhad)

Serch hynny, roedd yr asesydd lles yn ansicr a oedd aros o dan ~y caniatâd safonol i golli rhyddid o les i Jo o hyd. Doedd hi ddim yn bosib cydlynu asesiadau cyfredol llawn gan y tîm adfer-, a oedd yn ei hadnabod yn dda, o fewn y terfynau amser oedd wedi eu gosod. Felly, gan fod y cartref gofal yn credu bod angen y caniatâd safonol o hyd, a'i fod yn achos cymhleth, argymhelliad yr asesydd lles i'r corff arolygu oedd y dylid gosod dau amod i'r caniatâd safonol:

- dylid cynnal asesiadau ar gynnydd clinigol Jo gan arbenigwyr asesiadau adferiad, a
- dylid cynnal adolygiad achos llawn o fewn mis

Yn yr achos adolygu hwn, a oedd yn cynnwys cynrychiolydd Jo a'r asesydd lles , cytunwyd bod Jo wedi dod yn ei blaen cymaint fel nad oedd colli rhyddid yn angenrheidiol mwyach, gan fod y peryglon ynghlwm wrth iddi gael rhyddid cynyddol wedi lleihau. Felly, diddymwyd y caniatâd safonol, ac fe luniwyd cynllun gofal newydd oedd yn canolbwyntio ar weithio tuag at fwy o fyw annibynnol.

Beth fydd yn digwydd os nad yw unrhyw un o'r gofynion yn cael eu hateb?

- 8.17 Os nad yw unrhyw un o'r gofynion yn cael eu hateb, yna mae'n rhaid diddymu'r caniatâd yn syth.
- 8.18 Mae'n rhaid i'r corff goruchwylio roi rhybudd ysgrifenedig ynghylch canlyniad adolygiad ac unrhyw newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r caniatâd safonol i golli rhyddid ar gyfer:
- yr awdurdod rheoli a'r cartref gofal neu'r ysbyty ei hun
 - yr unigolyn dan sylw
 - cynrychiolydd yr unigolyn dan sylw, ac
 - unrhyw Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) sy'n rhan o'r broses.

Pennod 8

Pryd y dylid adolygu awdurdodiad a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

Gohirio'r caniatâd dros dro

- 8.19** Ceir trefniadau adolygu ar wahân ar gyfer achosion lle nad yw'r gofyniad cymhwysedd yn cael ei ateb am gyfnod byr o amser am resymau heblaw bod yr unigolyn yn gwrthwynebu derbyn triniaeth iechyd meddwl mewn ysbyty. Er enghraifft, os yw'r unigolyn dan sylw yn cael ei ddal fel claf mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, bydd rhaid i'r awdurdod rheoli roi gwybod i'r corff goruchwyllo a fydd yn gohirio'r caniatâd.
- 8.20** Os yw'r unigolyn dan sylw yn gymwys eto o fewn 28 diwrnod, bydd rhaid i'r awdurdod rheoli roi gwybod i'r corff goruchwyllo a fydd yn dileu'r gohiriad. Os na roddir rhybudd felly o fewn 28 diwrnod, yna caiff y caniatâd ei diddymu. Mae ffurflenni safonol ar gael i awdurdodau rheoli er mwyn rhoi gwybod i gyrff goruchwyllo am yr angen i ohirio caniatâd, neu fod angen codi caniatâd.
- 8.21** Os yw'r unigolyn yn rhoi'r gorau i ateb y gofyniad cymhwyster oherwydd eu bod yn dechrau gwrthwynebu derbyn triniaeth iechyd meddwl mewn ysbyty, ac maent yn cyflawni'r meini prawf am gael eu derbyn o dan adran 2 neu adran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, dylid cychwyn adolygiad yn syth (gweler paragraff 8.3).

A oes angen adolygiad pan fo gallu'r unigolyn dan sylw yn amrywio?

- 8.22** Ceir arweiniad am bobl gyda gallu dros dro neu allu sy'n amrywio ym mharagraffau 4.26 a 4.27 o'r Prif God. Yng nghyd-destun diogelu rhag colli rhyddid, pan fo gallu unigolyn penodol i wneud penderfyniadau am y trefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer ei ofal a'i driniaeth yn amrywio ar sail tymor byr, bydd rhaid cyrraedd cydbwysedd rhwng:
- yr angen i adolygu a diddymu caniatâd os yw'r unigolyn yn ailafael yn ei allu
 - treulio amser ac adnoddau yn adolygu, diddymu ac yna ceisio caniatâd i gollu rhyddid eto wrth i allu'r unigolyn dan sylw newid
- 8.23** Dylid edrych ar bob achos yn unigol. Dylai Awdurdodau Rheoli oruchwyllo pob achos; ble ystyrir bo person sydd o dan amodau caniatâd wedi ailafael yn y gallu i benderfynu am y trefniadau i'w gwneud ar gyfer ei ofal a'i driniaeth, dylai'r awdurdod rheoli asesu a oes tystiolaeth gyson o ailafael yn y gallu hwn ar seiliau tymor hir. Barn glinigol yw hon y bydd angen ei gwneud gan unigolyn cymwys.

- 8.24 Pan fo tystiolaeth gyson o ran ailafael mewn gallu ar y sail tymor hir hwn, dylid codi'r colli rhyddid yn syth, a gofyn am adolygiad ffurfiol a diddymiad o'r caniatâd. Fodd bynnag, dylid cofio bod colli rhyddid yn cynnwys rhai diogeliadau y bydd yr unigolyn dan sylw yn eu colli os diddymir y caniatâd. Pan fo'r ailafael mewn gallu yn debyg o fod yn rhywbeth dros dro, a bydd angen y caniatâd eto o fewn cyfnod byr o amser, dylid cadw'r caniatâd yn ei le ond gan adolygu'r sefyllfa'n barhaus.

Gallu sy'n amrywio

Mae Walter, gŵr oedrannus gydag iselder difrifol, wedi ei dderbyn i ysbyty o gartref gofal. Mae'n ymddangos yn ddryslyd ac ar goll, ond nid yw'n wrthwynebus i'r hyn sy'n digwydd iddo. Ni all ei deulu edrych ar ei ôl gartref, ond byddai'n well ganddyn nhw pe bai'n gallu mynd i gartref gofal arall yn hytrach nag aros yn yr ysbyty. Fodd bynnag, doedd dim lleoliad arall ar gael, felly wrth i'r asesiad ddod i'r casgliad nad oes gan Walter mo'r gallu i wneud penderfyniadau am ei ofal a'i driniaeth, yr unig opsiwn sydd i'w weld yn ymarferol yw iddo aros ar y ward.

Gan fod y gyfundrefn gofal ar y ward yn gyfyngol iawn – nid oes modd i Walter adael yr ysbyty ac fe gyfyngir ei symudiadau oddi mewn i'r ysbyty er ei les ei hun - mae staff y ward yn credu bod angen iddynt geisio am ganiatâd colli rhyddid, sydd wedyn yn cael ei ganiatáu.

Fodd bynnag, gydag amser, mae Walter yn dechrau cael cyfnodau o iawn bwyll, ble mae'n datgan ei fod yn mor falch bod ar y ward yn hytrach na'r cartref gofal. Cynhelir cyfarfod adolygu ac mae'r cyfranogwyr yn gytûn fod gan Walter y gallu weithiau i wneud penderfyniadau ynghylch y trefniadau ar gyfer ei ofal a'i driniaeth. Wrth i'r gallu hwn amrywio, wedi ymgynghori gyda'i deulu, penderfynir y dylai'r caniatâd i golli rhyddid aros yn ei le am y tro.

Mae Walter yn parhau ar y ward ac yn dod yn ei flaen i'r ffasiwn raddau fel bo'i deulu'n teimlo y gallent edrych ar ei ôl gartref. Mae Walter ei hun yn ymddangos yn hapus gyda'r cynnig hwn, ac mae'r seiciatrydd ymgynghorol sy'n gyfrifol amdano yn cytuno â'r syniad. Adolygir y caniatâd i golli rhyddid ac fe'i diddymir.

Beth sy'n digwydd pan fo caniatâd yn darford?

- 8.25 Pan fo caniatâd yn dod i ben, ni all yr awdurdod rheoli barhau i unigolyn golli ei ryddid yn gyfreithiol.
- 8.26 Os ystyria awdurdod rheoli bod angen parhau i unigolyn golli ei ryddid wedi i'r caniatâd ddod i ben, bydd angen iddynt ofyn i ganiatâd safonol pellach gychwyn unwaith y daw'r caniatâd cyfredol i ben.
- 8.27 Does dim cyfyngiad amser statudol o ran pa mor gynnar cyn terfyn un caniatâd y gall awdurdod rheoli geisio am adnewyddu'r caniatâd. Bydd angen iddo ddigwydd digon ymlaen llaw i'r caniatâd wedi'i adnewyddu gael ei roi cyn i'r caniatâd cyfredol ddod i ben (ond gweler paragraffau 3.19 a 3.20 am beidio â cheisio am ganiatâd(au) ormod ymlaen llaw).
- 8.28 Pan fydd y proses ar waith, mae'r broses o adnewyddu caniatâd safonol yn union yr un fath â'r broses o sefydlu'r caniatâd gwreiddiol a bydd rhaid cynnal yr un prosesau asesu. Fodd bynnag, ni fydd yr angen i roi gwybod i'r EGMA yn codi fel rheol, oherwydd dylai'r unigolyn dan sylw fod wedi penodi cynrychiolydd yn barod.
- 8.29 Pan fo'r caniatâd safonol yn dod i ben, bydd rhaid i'r corff goruchwylioroi gwybod yn ysgrifenedig i'r canlynol:
- yr unigolyn dan sylw
 - cynrychiolydd yr unigolyn dan sylw
 - yr awdurdod rheoli, a
 - phob unigolyn sydd â diddordeb a enwyd gan yr asesydd lles yn ei adroddiad fel rhai y mae wedi cysylltu â nhw wrth gynnal ei asesiad.

Pennod 8

Pryd y dylid adolygu awdurdodiad a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

9

Beth sy'n digwydd os cred rhywun bod unigolyn wedi colli ei ryddid heb ganiatâd?

Mae'n fater difrifol i unigolyn golli ei ryddid heb ganiatâd os nad oes ganddo'r gallu i gydsynio i hynny. Os cred unrhyw un bod unigolyn yn colli ei ryddid, dylent godi'r mater gyda'r awdurdodau perthnasol.

Os deuir i'r casgliad bod yr unigolyn wedi colli ei ryddid yn anghyfreithlon, bydd hyn fel rheol yn arwain at newid yn y trefniadau gofal, neu mewn cais ar gyfer caniatâd i golli rhyddid.

Mae'r bennod hon yn esbonio'r broses ar gyfer adrodd am bryderon ac asesu os yw colli rhyddid anghyfreithlon yn digwydd. Mae'r siart llif yn Atodiad 3 yn crynhoi'r broses y dylai corff goruchwyllo ei dilyn wrth dderbyn cais gan rywun heblaw'r awdurdod rheoli i archwilio a oes colli rhyddid anghyfreithlon ar hyn o bryd ai peidio.

Beth ddylai rhywun ei wneud os credant fod unigolyn yn colli ei ryddid heb ganiatâd?

- 9.1 Os yw'r person dan sylw eu hunain, unrhyw berthynas, ffrind, gofalwr neu unrhyw drydydd parti arall (megis unigolyn yn cynnal ymweliad archwilio neu aelod o fudiad eiriolaeth) yn credu bod person yn colli ei ryddid heb i'r awdurdod rheoli geisio am ganiatâd, dylent ddwyn y mater i sylw'r awdurdod rheoli. Yn y lle cyntaf, dylent ofyn i'r awdurdod rheoli geisio am ganiatâd os ydynt am barhau â'r gyfundrefn ofal neu newid y gyfundrefn ofal yn syth. O gofio am ddifrifoldeb person yn colli ei ryddid, dylai'r awdurdod rheoli ymateb o fewn amser rhesymol i'r cais. Byddai hyn yn golygu o fewn 24 awr fel rheol.
- 9.2 Fe allai'r awdurdod rheoli ddatrys y mater yn anffurfiol gyda'r unigolyn sydd wedi dod â'r mater i'r golwg. Er enghraifft, gallai'r awdurdod rheoli drafod yr achos gyda'r person hwn, ac efallai wneud addasiadau i'r trefniadau gofal fel bo'r pryderon bod colli rhyddid yn digwydd yn diflannu. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod rheoli yn methu â datrys y mater gyda'r person dan sylw yn fuan, dylent gyflwyno cais am ganiatâd safonol i'r corff goruchwyllo.

Pennod 9

Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn credu bod unigolyn yn colli rhyddid heb ganiatâd?

9.3 Os yw'r unigolyn dan sylw wedi codi'r mater gyda'r awdurdod rheoli, a'r awdurdod rheoli heb geisio am ganiatâd o fewn cyfnod rhesymol o amser, gall yr unigolyn dan sylw ofyn i'r corff goruchwyllo benderfynu a oes colli rhyddid anghyfreithlon o wedi digwydd. Dylent:

- roi gwybod i'r corff goruchwyllo ynghylch yr unigolyn maent yn pryderu amdano, ac enw'r ysbyty neu'r cartref gofal, ac
- esbonio cystal ag y medrent, pam eu bod yn credu bod yr unigolyn yn colli ei ryddid.

Mae llythyr safonol ar gael ar gyfer y diben hwn.

9.4 Mewn amgylchiadau fel hyn, bydd rhaid i'r corff arolygu ddewis a phenodi person sy'n addas ac yn gymwys i allu cynnal asesiad lles i ystyried a yw'r unigolyn wedi colli ei ryddid.

9.5 Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r corff goruchwyllo drefnu asesiad o'r fath os yw'n ymddangos i'r corff arolygu bod:

- y cais sydd wedi dod i law yn wamal neu er mwyn peri gofid (er enghraifft, pan ei bod yn amlwg nad yw'r unigolyn wedi colli ei ryddid neu lle bo asesiad diweddar iawn wedi ei gynnal a ble bo ceisiadau cyson yn dod i law)
- pan fo'r cwestiwn ynghylch colli rhyddid anghyfreithlon eisoes wedi ei benderfynu ac nad oes newid amgylchiadau a fyddai'n teilyngu gweld y cwestiwn yn cael ei ystyried eto.

Dylai'r Corff Goruchwyllo gofnodi eu rhesymau dros eu penderfyniadau. Mae ffurflen safonol ar gael ar gyfer y diben hwn.

9.6 Mae'n rhaid i'r corff goruchwyllo roi gwybod i'r unigolyn a gododd y mater, yr unigolyn dan sylw, awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol ac unrhyw EGMA sydd ynghlwm wrth y mater:

- eu bod wedi derbyn cais i asesu a fu colli rhyddid anghyfreithlon
- a yw wedi penderfynu comisiynu asesiad neu beidio, a
- phwy sydd wedi ei benodi fel asesydd, os yw hynny'n berthnasol.

Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn rhoi gwybod i'r corff arolygu'n uniongyrchol eu bod o'r farn bod unigolyn yn colli ei ryddid heb ganiatâd?

9.7 Os yw unigolyn yn codi pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli rhyddid anghyfreithlon gyda'r corff goruchwylio'n uniongyrchol, bydd rhaid i'r corff goruchwylio drefnu asesiad rhagarweiniol yn syth er mwyn asesu a oes colli rhyddid yn digwydd. Dylai'r corff goruchwylio wedyn roi gwybod yn syth i'r awdurdod rheoli eu hunain, yn hytrach na gofyn i'r unigolyn gysylltu â'r awdurdod rheoli eu hunain i ofyn iddynt geisio am ganiatâd safonol o ran y person sydd, o bosib, wedi colli ei ryddid. Dylai'r corff arolygu gytuno gyda'r awdurdod rheoli beth yw cyfnod rhesymol o ran pryd y dylid gofyn am ganiatâd safonol (oni bai bod yr awdurdod rheoli yn gallu datrys y mater yn anffurfiol gyda'r unigolyn sy'n pryderu am y sefyllfa yn ôl y disgrifiad ym mharagraff 9.2). Os nad yw'r awdurdod rheoli yn cyflwyno cais yn y cyfnod y cytunwyd arno, a'r mater heb ei ddatrys yn anffurfiol, dylai'r corff arolygu ddilyn y broses a nodwyd ym mharagraffau 9.3 i 9.6 er mwyn asesu a yw colli rhyddid anghyfreithlon yn digwydd. Hyd yn oed os yw'n well gan y person sydd wedi codi'r pryder ddelio'n uniongyrchol â'r awdurdod rheoli, dylai'r corff goruchwylio fonitro'r hyn sy'n digwydd yn ofalus iawn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw golli rhyddid anghyfreithlon yn digwydd heb fod gweithredu cywir yn digwydd.

Sut y cynhelir yr asesiad o golli rhyddid anghyfreithlon?

9.8 Bydd rhaid cynnal asesiad a yw colli rhyddid anghyfreithlon yn digwydd o fewn saith niwrnod calendr. Er bod rhaid cynnal yr asesiad gan unigolyn sy'n addas ac yn gymwys i gynnal asesiad lles, nid asesiad lles fel y cyfryw fydd hwn. Pwrpas yr asesiad yw sefydlu'n syml a yw colli rhyddid anghyfreithlon yn digwydd.

9.9 Bydd rhaid i'r unigolyn a enwebwyd i ymgymryd â'r asesiad gysylltu ag awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol, ac archwilio unrhyw asesiadau a chynlluniau gofal anghenion priodol, er mwyn ystyried a ydynt yn gyfystyr â cholli rhyddid. Dylai hefyd siarad gyda'r person a gododd bryderon ynghylch pam ei fod o'r farn bod yr unigolyn dan sylw yn colli ei ryddid, ac ymgynghori, ble fo hynny'n bosib, gyda theulu a ffrindiau'r person perthnasol. Os nad oes unrhyw un yn briodol ymhlith teulu a ffrindiau, dylai roi gwybod i'r corff arolygu a fydd yn trefnu bod yr EGMA yn cefnogi a chynrychioli'r person. Mae ffurflen safonol ar gael i'r asesydd gofnodi canlyniad yr asesiad.

Beth fydd y drefn ar ôl cynnal yr asesiad?

9.10 Mae tri chanlyniad posib i'r asesiad hwn. Gall yr asesydd ddod i'r casgliad:

- nad yw'r unigolyn yn colli ei ryddid
- mae'r unigolyn yn colli ei ryddid yn gyfreithlon gan fod caniatâd yn bodoli (mae hwn yn ganlyniad annhebygol oherwydd dylai'r corff goruchwyllo fod yn ymwybodol a oes unrhyw ganiatâd yn bodoli, gan wneud unrhyw asesiad fel ymateb i gais trydydd parti yn ddiangen), neu
- mae'r person yn colli ei ryddid yn anghyfreithlon.

9.11 Dylai'r corff goruchwyllo roi gwybod i'r bobl a ganlyn ynghylch canlyniad yr asesiad:

- y trydydd parti pryderus a wnaeth y cais
- y person perthnasol
- awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol
- unrhyw EGMA sydd ynghlwm â'r mater

Mae ffurflen safonol ar gael i'r diben hwn.

9.12 Os mai canlyniad yr asesiad yw bod colli rhyddid anghyfreithlon ar waith, yna dylai'r broses asesu lawn ddigwydd fel pe bai cais am ganiatâd safonol ar gyfer colli rhyddid wedi ei wneud – oni bai bod yr awdurdod rheoli'n newid y trefniadau gofal fel ei bod yn glir nad oes colli rhyddid mwyach.

9.13 Os bydd yr awdurdod rheoli wedi ystyried beth y gellid ei wneud i osgoi colli rhyddid, a'i fod yn penderfynu bod yr angen i barhau â'r colli rhyddid mor ddwys fel bod rhaid i'r gyfundrefn ofal barhau tra bo'r asesiadau yn cael eu cynnal, dylent roi caniatâd brys a cheisio caniatâd safonol o fewn saith niwrnod. Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli roi i'r corff goruchwyllo yr un math o wybodaeth y byddai'n rhaid ei chynnwys mewn cais ar gyfer caniatâd safonol.

9.14 Os nad yw'r person sydd wedi codi'r pryder yn derbyn canlyniad ei gais am asesiad, gall apelio i'r Llys Amddiffyn i gael gwrandawriad o'r achos. Gweler pennod 10 am ragor o fanylion am rôl y Llys Gwarchod.

Pennod 9

Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn credu bod unigolyn yn colli rhyddid heb ganiatâd?

Er mwyn cydsynio ag Erthygl 5(4) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae gan unrhyw un sy'n colli ei ryddid, yn unol â'r diogeliadau a ddisgrifiwyd yn y Cod Ymarfer hwn, yr hawl i gael mynediad brys i lys all adolygu cyfreithlondeb y colli rhyddid sydd wedi digwydd. Y Llys Gwarchod a sefydlwyd gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005, yw'r llys ar gyfer y diben hwn. Bydd pennod 8 o'r Prif God yn rhoi mwy o fanylion am ei rôl, ei bwerau a'i gyfrifoldebau.

Pryd all pobl gyflwyno cais i'r Llys Gwarchod ynghylch diogelu rhag colli rhyddid a phwy all geisio amdano?

Cyflwyno cais cyn y rhoddir caniatâd

10.1 Gall yr unigolyn perthnasol, neu rywun yn gweithredu ar ei ran, wneud cais i'r Llys Gwarchod, cyn y penderfynir ar gais am ganiatâd i berson golli ei ryddid. Gellir gwneud hyn er mwyn gofyn i'r llys ddatgan a oes gan y person perthnasol allu, neu a yw gweithred a wnaed neu weithred yr argymhellir ei gwneud yn gysylltiedig â'r person yn anghyfreithlon (gall hynny gynnwys a yw'r ddeddf neu a fyddai'r ddeddf o les i'r person perthnasol). Mater i'r Llys Gwarchod yw penderfynu a ddylid ystyried cais felly cyn y penderfyniad ar ganiatâd.

Cyflwyno cais wedi i ganiatâd gael ei roi

10.2 Ar ôl rhoi caniatâd safonol, mae gan yr unigolyn dan sylw, neu ei gynrychiolydd, yr hawl i gyflwyno cais i'r Llys Gwarchod i farnu ar unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r materion canlynol:

- a yw'r unigolyn perthnasol yn ateb un neu fwy o'r anghenion cymhwyso ar gyfer colli rhyddid
- y cyfnod y bydd ycaniatâd safonol mewn bodolaeth
- diben ycaniatâd safonol sydd wedi ei roi neu'r
- amodau sydd ynghlwm wrth ycaniatâd safonol a roddwyd

10.3 Pan roddircaniatâd brys, mae gan yr unigolyn dan sylw, neu rai unigolion yn gweithredu ar eu rhan megis derbynnydd neu ddirprwy, yr hawl i ofyn i'r Llys Gwarchod farnu ar unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r materion canlynol:

- a ddylid fod wedi rhoi'r caniatâd brys

Pennod 10

Beth yw'r Llys Gwarchod a phryd all pobl gyflwyno cais i'r llys?

- y cyfnod y bydd y caniatâd brys mewn bodolaeth
 - diben y caniatâd brys a roddwyd
- 10.4 Pan roddir caniatâd safonol neu frys, gall unrhyw unigolyn arall hefyd gyflwyno cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i farnu a ddylid fod wedi rhoi'r caniatâd. Serch hynny, mae gan y Llys Gwarchod hawl i benderfynu ystyried cais gan yr unigolion hyn ai peidio.
- 10.5 Ble bynnag fo hynny'n bosib, dylid datrys pryderon am golli rhyddid yn anffurfiol neu drwy gyfundrefn gwyno'r corff goruchwyllo neu awdurdod rheoli perthnasol, yn hytrach na thrwy'r Llys Gwarchod. Mae Pennod 15 o'r Prif God "Beth yw'r ffyrdd gorau i ddatrys anghydfod am faterion sy'n rhan o'r Ddeddf Gallu Meddyliol 2005") yn cynnwys arweiniad cyffredinol am ddatrys unrhyw anghydfod sy'n codi o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae'r prosesau adolygu a welir ym mhennod 8 o'r Cod hwn hefyd yn rhoi dull o ddatrys pryderon neu anghydfod, fel ag yr esbonnir yn y bennod honno.
- 10.6 Dylid anelu i gyfyngu ceisiadau i'r Llys Gwarchod i'r achosion hynny sydd wir angen eu cyfeirio at y llys. Fodd bynnag, gyda cholli rhyddid yn y fantol, ni ddylai unigolion gael eu rhwystro rhag gwneud cais i'r Llys Gwarchod os ydynt wedi methu â datrys pryderon yn foddhaol drwy gyfryngau eraill o fewn amser rhesymol.

Sut ddylai unigolion gyflwyno cais i'r LlysGwarchod?

- 10.7 Mae arweiniad ar gyfundrefnau'r llys, gan gynnwys sut i wneud cais, wedi ei gynnwys yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer a Rheolau'r Llys Gwarchod, a gyhoeddwyd gan y llys.¹³
- 10.8 Mae gan yr unigolion canlynol hawl mynediad awtomatig i'r Llys Gwarchod ac nid oes angen iddynt dderbyn caniatâd gan y llys i wneud cais:
- unigolyn sydd â'r diffyg gallu, neu yr honnir iddo fod â'r diffyg gallu, i wneud penderfyniad neu weithred benodol

¹³ Fel rheol, bydd ffi ar gyfer ceisiadau i'r llys. Mae manylion am y ffioedd gaiff eu codi gan y llys, a'r amgylchiadau pryd na fydd angen talu ffioedd, neu pryd y cânt eu had-dalu, ar gael o Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (<http://www.publicguardian.gov.uk/>)

- y sawl sy'n rhoi'r Atwrneiaeth Arhosol y mae cais yn ymwneud ag ef, neu'r sawl sy'n ei derbyn
- dirprwy a benodwyd gan y llys i weithredu ar ran yr unigolyn dan sylw
- unigolyn a enwyd mewn gorchymyn llys sydd eisoes yn bod, y mae'r cais yn ymwneud ag ef¹⁴, ac
- unigolyn a benodwyd gan y corff goruchwylio yn gynrychiolydd yr unigolyn perthnasol.

10.9 Bydd rhaid i'r ymgeiswyr eraill gael caniatâd gan y llys cyn gwneud cais. (Gweler adran 50 o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 fel y'i diwygiwyd). Gellir gwneud hyn drwy lenwi'r ffurflen gais briodol.

Pa orchmynion y gall y Llys Gwarchod eu gwneud?

10.10 Gall y llys wneud gorchymyn;

- i amrywio neu ddiddymu caniatâd safonol neu frys, neu
- gyfeirio'r corff goruchwylio (yn achos caniatâd safonol), neu'r awdurdod rheoli (mewn achos caniatâd brys) i amrywio neu ddiddymu'r caniatâd.

Beth yw rôl y Llys Gwarchod o ran unigolion â diffyg gallu sy'n colli eu rhyddid mewn lleoliadau y tu hwnt i ysbytai neu gartrefi gofal?

10.11 Dim ond mewn amgylchiadau pan fo unigolyn yn colli ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal y mae'r diogelu rhag colli rhyddid yn berthnasol. Os bydd unigolyn yn colli ei ryddid ac yntau â diffyg gallu i gytuno i'r trefniadau a wnaed ar gyfer ei ofal neu driniaeth mewn lleoliadau eraill (er enghraifft, yng nghartref yr unigolyn ei hun, mewn amgylchiadau byw cefnogol ar wahân i gartrefi gofal neu ganolfan ddydd), ni fydd hynny'n gyfreithlon oni bai y derbynnir gorchymyn gan y Llys Gwarchod ar fater lles (gweler paragraff 6.51 o'r Prif God).

¹⁴ Mae esiamplau o orchmynion llys presennol yn cynnwys gorchmynion yn penodi dirprwy neu ddatganiadau gan y llys o ran materion triniaeth.

10.12 Mewn achos fel hyn, dylid cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod cyn i'r colli rhyddid ddechrau. Bydd gorchymyn Llys Gwarchod wedyn yn sail gyfreithiol i'r colli rhyddid. Ni fydd angen caniatâd colli rhyddid ar wahân o dan brosesau'r cod hwn.

A yw cymorth cyfreithiol ar gael i gefnogi ceisiadau i'r Llys Gwarchod mewn achosion diogelu rhag colli rhyddid?

10.13 Bydd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer cyngor a chynrychiolaeth gerbron y Llys Gwarchod.

Pennod 10

Beth yw'r Llys Gwarchod a phryd all pobl gyflwyno cais i'r llys?

Mae i unigolyn golli ei ryddid yn fater arwyddocaol iawn. Mae'r broses diogelu rhag colli rhyddid wedi ei llunio er mwyn sicrhau bod unigolyn sydd â diffyg gallu i gytuno i'r diddymiaadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer ei ofal neu driniaeth yn cael ei amddiffyn rhag ei gadw fel claf mewn modd mympwyol. Er mwyn rhoi sicrwydd meddwl bod y prosesau diogelu yn cael eu rhoi ar waith yn gywir, mae'n bwysig bod mecanwaith effeithiol i fonitro sut y mae'r trefniadau diogelu yn cael eu gweithredu.

Pwy fydd yn monitro'r trefniadau diogelu?

- 11.1 Bydd Rheoliadau¹⁵ yn gosod y cyfrifoldebau am y broses arolygu o weithrediad y diogelu rhag colli rhyddid yn Lloegr ar reolydd newydd, sef y Comisiwn Ansawdd Gofal. Mae'r corff hwn yn cyfuno swyddogaethau'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, y Comisiwn Gofal Iechyd a'r Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl. Caiff y corff newydd ei sefydlu yn 2008, wedi i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei chymradwyo gan Dŷ'r Cyffredin, a disgwylir y bydd yn weithredol erbyn 2009/10 yn unol â'r diogelu rhag colli rhyddid yn dod i fodolaeth.
- 11.2 Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru fydd yn monitro gweithrediad y diogelu rhag colli rhyddid. Fe wneir hyn ar eu rhan gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Beth fydd y cyrff arolygu yn ei wneud a pha bwerau fydd ganddynt?

- 11.3 Bydd disgwyl i'r cyrff arolygu ar gyfer y cartrefi gofal ac ysbytai:
- fonitro'r modd y caiff y trefniadau diogeliadu rhag colli rhyddid eu rhoi ar waith gan:
 - ymweld ag ysbytai a chartrefi gofal yn unol â'u rhaglen ymweld bresennol

¹⁵ Ceir ymgynghoriad ynghylch rheoliadau i Loegr yn hwyrach. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sut y byddant yn defnyddio eu pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Cymru.

Pennod 11

Sut fydd y trefniadau diogelu yn cael eu monitro?

- cyfweld unigolion sydd mewn ysbytai a chartrefi gofal i'r graddau yr ystyrir bod angen gwneud hynny
 - creu cofnodion o ran gofal neu driniaeth unigolion sydd mewn ysbytai a chartrefi gofal, ac arolygu'r cofnodion hynny
- adrodd yn flynyddol, gan grynhoi eu gweithgaredd a'u darganfyddiadau ynghylch y diogelu rhag colli rhyddid. Yn Lloegr, cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd, ac yng Nghymru, caiff yr adroddiad ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Mater i bob corff goruchwyllo fydd penderfynu a ddylid cyhoeddi adroddiad penodol ar y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, neu a ddylai'r adroddiad fod yn rhan o adroddiad ehangach ar weithgareddau'r corff monitro.
- 11.4 Bydd gan y cyrff goruchwyllo'r grym i fynnu bod cyrff goruchwyllo ac awdurdodau rheoli ysbytai neu gartrefi gofal yn datgelu gwybodaeth iddynt.
- 11.5 Ni fydd y broses oruchwyllo yn cynnwys ailymweld ag asesiadau unigol (ar wahân i beth samplu cyfyng).
- 11.6 Ni fydd y broses oruchwyllo yn gyfystyr ag adolygiad arall neu broses apêl. Fodd bynnag, os yw'r corff goruchwyllo yn dod ar draws achos lle credent efallai bod colli rhyddid yn digwydd heb ganiatâd, dylent roi gwybod i'r corff goruchwyllo yn union yr un modd ag y byddai unrhyw drydydd parti yn ei wneud.
- 11.7 Bydd y cyrff goruchwyllo yn edrych ar y protocolau a chyfundrefnau colli rhyddid ar waith mewn awdurdodau rheoli a chyrff goruchwyllo. Y bwriad yw defnyddio nifer fechan o samplau er mwyn gwerthuso effaith y protocolau a'r cyfundrefnau hyn ar achosion unigol. Dylai'r monitro ddigwydd ar adeg pan fo'r corff monitro yn ymweld â'r cartref gofal neu leoliad y claf mewnol fel rhan o drefniadau arferol, nid fel eithriad.
- 11.8 Dylai cyrff goruchwyllo ac awdurdodau rheoli gadw eu protocolau a'u cyfundrefnau o dan arolygiaeth a dylai cyrff goruchwyllo asesu natur y caniatâd(au)maent yn eu rhoi gan ystyried eu poblogaeth leol. Gall yr wybodaeth hon fod yn berthnasol i benderfyniadau polisi am gomisiynu gwasanaethau gofal a chefnogi.

Pwyntiau allweddol ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai (awdurdodau rheoli)

- Bydd angen i awdurdodau rheoli addasu eu prosesau cynllunio gofal er mwyn ystyried a oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio i'r gwasanaethau sydd i'w darparu ac a fydd eu gweithredoedd yn debyg o arwain at golli rhyddid.
- Ni ddylai awdurdod rheoli, ar wahân i sefyllfa frys, beri i unigolyn golli ei ryddid oni bai bod caniatâd safonol wedi ei ganiatáu gan y corff goruchwylio ar gyfer y sefyllfa benodol honno, a bod hynny'n parhau mewn bodolaeth.
- Mater i'r awdurdod rheoli yw gofyn am ganiatâd o'r fath ac i weithredu'r canlyniadau.
- Dylid derbyn caniatâd gan y corff goruchwylio cyn y colli rhyddid, ar wahân i amgylchiadau a ystyrir mor ddwys fel bo rhaid i'r colli rhyddid ddigwydd yn syth. Mewn achosion fel hyn, dylid derbyn y caniatâd o fewn saith niwrnod calendr i gychwyn y colli rhyddid.
- Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli sicrhau eu bod yn cadw at unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd.
- Dylai'r awdurdod rheoli fonitro a yw cynrychiolydd yr unigolyn dan sylw yn cadw cyswllt rheolaidd â'r unigolyn hwnnw.
- Dim ond os credir ei bod yn wirioneddol angenrheidiol i unigolyn golli ei ryddid er mwyn ei gadw'n ddiogel y dylid ceisio am ganiatâd i golli rhyddid. Nid yw'n angenrheidiol ceisio am ganiatâd ar gyfer pob mynediad i ysbytai a chartrefi gofal, dim ond oherwydd bod gan yr unigolyn dan sylw ddiffyg gallu i benderfynu a yw am gael ei dderbyn ai peidio.

Pwyntiau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff GIG (cyrrff goruchwyllo)

- Bydd cyrrff goruchwyllo yn derbyn ceisiadau gan awdurdodau rheoli am ganiatâd(au) safonol colli rhyddid. Ni all colli rhyddid ddechrau'n gyfreithiol tan fod y corff goruchwyllo wedi rhoi caniatâd, neu fod yr awdurdod rheoli ei hun wedi rhoi caniatâd brys.
- Cyn y gellir rhoi caniatâd i golli rhyddid, dylai'r corff goruchwyllo fod wedi derbyn asesiadau ysgrifenedig ynghylch yr unigolyn dan sylw er mwyn sicrhau eu bod yn ateb y gofynion cymhwysol (gan gynnwys bod colli rhyddid yn angenrheidiol o ran eu hamddiffyn rhag niwed a'i fod o les iddynt).
- Bydd rhaid i gyrrff goruchwyllo sicrhau bod digon o aseswyr ar gael i ateb anghenion eu hardal a bod gan yr aseswyr hyn y sgiliau, y cymwysterau, y profiad a'r hyfforddiant i wneud y gwaith.
- Oni bai bod yr holl anghenion cymhwyso yn cael eu hateb mae'n bosib na fydd caniatâd yn cael ei roi.
- Wrth roi caniatâd, dylai'r corff goruchwyllo ddynodi ei hyd, na all fod yn hwy na 12 mis, ac ni chaiff fod yn hwy na'r hyn a argymhellir gan yr asesydd lles . Ni ddylai colli rhyddid barhau'n hwy nag sydd angen.
- Gall y corff goruchwyllo osod amodau i'r caniatâd os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol.
- Dylai'r corff goruchwyllo roi rhybudd o'u penderfyniad yn ysgrifenedig at unigolion penodol, a rhoi gwybod i eraill hefyd
- Bydd rhaid i'r corff goruchwyllo benodi cynrychiolydd perthnasol ar gyfer cynrychioli buddiannau pob person sy'n derbyn caniatâd safonol am golli rhyddid ganddynt.
- Pan fo caniatâd mewn bodolaeth, mae gan yr unigolyn perthnasol, cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol, ac unrhyw EGMA yn cynrychioli'r unigolyn, yr hawl i ofyn i'r corff goruchwyllo adolygu'r caniatâd ar unrhyw adeg.

Rhestr Wirio


Pwyntiau allweddol ar gyfer awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyllo

Ar ben y pwyntiau uchod, dylai'r awdurdodau rheoli a'r cyrrff goruchwyllo fod yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol sy'n dilyn:

- Gall caniatâd barhau am gyfnod o 12 mis fan bellaf.
- Dylid ymgynghori â'r canlynol wrth wneud unrhyw benderfyniadau, unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn, unrhyw un a enwir ganddynt fel unigolyn i ymgynghori ag ef, ac unrhyw un sydd â diddordeb yn lles yr unigolyn.
- Cyn i'r caniatâd presennol ddod i ben, gall yr awdurdod rheoli wneud cais am ganiatâd newydd am hyd at 12 mis, cyhyd ag y gellir sefydlu, ar sail rhagor o asesiadau, bod y gofynion yn cael eu hateb o hyd.
- Dylid adolygu'r caniatâd, ac os yw hynny'n briodol, dylid ei ddileu os gwelir newid arwyddocaol yn amgylchiadau'r unigolyn cyn iddo ddod i ben. I'r diben hwn, bydd rhaid i'r awdurdod rheoli sicrhau bod parhau i beri i unigolyn golli ei ryddid er lles y person hwnnw.
- Gellir herio penderfyniad i ganiatáu colli rhyddid gan yr unigolyn ei hun, gan gynrychiolydd yr unigolyn, a hynny drwy gais i'r Llys Gwarchod. Fodd bynnag, dylai awdurdodau rheoli a chyrrff gwarchod geisio datrys anghydfodau'n lleol ac yn anffurfiol. Ni ddylid gorfodi unrhyw unigolyn i gyflwyno cais i'r llys oherwydd methiant neu amharodrydd awdurdod rheoli neu gorff goruchwyllo i gymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol.
- Os gofynnir i'r llys benderfynu ar achos ble bo amheuaeth a yw'r colli rhyddid yn gyfreithiol neu a ddylid parhau i'w ganiatáu, gall yr awdurdod rheoli barhau â'i gyfundrefn ofal bresennol ble bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer:
 - rhoi triniaeth cynnal bywyd i'r unigolyn dan sylw, neu
 - er mwyn atal dirywiad sylweddol yn eu cyflwr tra bo'r llys yn penderfynu ar yr achos.
- Dylid cofnodi'r holl broses o asesu a chaniatáu colli rhyddid yn glir, a dylid ei fonitro a'i archwilio, fel rhan o strwythur rheoli sefydliad.
- Dylid cofnodi a chadw gwybodaeth reolaethol, a'i ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y prosesau colli rhyddid. Dylid rhannu'r wybodaeth hon hefyd gyda'r cyrrff goruchwyllo.

Atodiad 1


Trosolwg o'r broses diogelu rhag colli rhyddid




Atodiad 2

Beth ddylai awdurdod rheoli ei ystyried cyn ceisio am awdurdodiad amddifadiad o ryddid?

Mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol wrth i gleifion gael eu derbyn **ac** wrth adolygu'r gofal o gleifion a thrigolion cartref. Wrth ystyried y cwestiynau dilynol, bydd yn help i awdurdod rheoli wybod a oes angen cais am ganiatâd.







NB: Dim ond ymwneud â cholli rhyddid y mae caniatâd ac nid yw'n cynnwys caniatâd ar gyfer unrhyw gwr o driniaeth.

Atodiad 3

Gweithredu gan Gorff Goruchwylioyn dilyn cais gan:


- a) awdurdod rheoli yn gofyn am ganiatâd safonol i golli rhyddid
- b) rhywun heblaw'r awdurdod rheoli (person cymwys) er mwyn penderfynu a oes colli rhyddid heb ganiatâd ar hyn o bryd ai peidio.






Atodiad 4

Proses Adolygu Caniatâd Safonol





Geiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Côd Ymarfer

Nid yw'r tabl isod yn fynegai neu eirfa lawn. Yn hytrach, mae'n rhestr o'r termau allweddol a ddefnyddir yn y Côd Ymarfer hwn. Bydd cyfeiriadau mewn print bras yn dynodi bod cynnwys hynod bwysig yn perthyn i'r term hwnnw.

Penderfyniad rhag blaen i wrthod triniaeth	Penderfyniad i wrthod triniaeth benodol a wnaed ymlaen llaw gan unigolyn sy'n gymwys i wneud hynny. Bydd y penderfyniad hwn wedyn yn berthnasol ar adeg yn y dyfodol pan fo'r unigolyn dan sylw â diffyg gallu i gydsynio neu wrthod triniaeth dan sylw. Mae rheolau penodol ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd.	4.26
Eiriolaeth	Help a chefnogaeth wrth ddeall materion a chyflwyno barn, teimladau a syniadau unigolyn.	2.7
Asesiad oed	Asesiad ar gyfer diben diogelu rhag colli rhyddid, ynghylch a yw'r unigolyn dan sylw wedi cyrraedd 18	4.23–4.24
Gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy	Gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall sydd wedi'u cymeradwyo gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol i weithredu ar ran awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gynnal nifer o dasgau.	4.52, 4.53, 4.60
Asesydd	Unigolyn sy'n cynnal asesiad o ddiogelu rhag colli rhyddid.	Pennod 4 (y cwbl) 1.16-1.17, 3.21, 5.22, 9.10 Lles Gorau, a phenodi cynrychiolydd ar ran yr unigolyn dan sylw: 7.10-7.23
Asesiad Lles	Asesiad, at ddibenion diogelu rhag colli rhyddid er mwyn canfod a yw colli rhyddid o les i'r unigolyn sy'n cael ei gadw fel claf, ei fod yn angenrheidiol er mwyn osgoi niwed i'r unigolyn, a'i fod yn ymateb cymesur i debygrwydd a difrifoldeb y niwed hwnnw	4.58–4.76 Lles , a phenodi cynrychiolydd ar ran yr unigolyn dan sylw : 7.10-7.23

Barn Bournwood	Y term cyffredin a ddefnyddir am y farn a fynegwyd gan y Llys Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ym mis Hydref 2004 yn achos <i>HL v Y Deyrnas Unedig</i> arweiniodd at gyflwyno'r elfen diogelu rhag colli rhyddid.	Cyflwyniad i bennod 1 1.19, 2.2, 2.22
Gallu	Gallu meddyliol yn fyr. Y gallu i wneud penderfyniad ar fater arbennig ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad hwnnw. Mae diffiniad cyfreithiol ohono wedi'i gynnwys yn adran 2 o'r Ddeddfa Gallu Meddyliol 2005.	Trwy gydol y Côd
Cartref Gofal	Adnodd gofalu wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.	Trwy Gydol y Côd
Comisiwn Ansawdd Gofal	Y rheolydd integredig newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion, a fydd yn dilyn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth, yn gyfrifol am reoli iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion o 1 Ebrill 2009	Pennod 11
Gofalwr	Unigolyn sy'n darparu gofal di-dâl drwy edrych ar ôl ffrind neu gymydog sydd angen cefnogaeth oherwydd salwch, oed neu anabled. Yn y ddogfen hon, nid yw'r term gofalwr yn golygu gweithiwr gofal cyflogedig.	Trwy Gydol y Côd
Deddf Plant 1989	Cyfraith yn ymwneud â phlant a'r rheini a chyfrifoldeb rhiant dros blant.	1.12, 5.22
Amodau	Gofynion y gall corff goruchwyllo fynnu arnynt wrth ganiatáu caniatâd safonol colli rhyddid, wedi ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr asesydd lles	4.74–4.75 5.5 Adolygiad o: 8.14, 8.16
Cydsynio	Cytuno gyda dull gweithredu - yn benodol yn y ddogfen hon i gynllun gofal neu gyfundrefn gofal. Er mwyn i'r cydsynio fod yn gyfreithiol ddilys, mae'n rhaid bod gan yr unigolyn sydd yn ei roi, y gallu i wneud y penderfyniad, ac wedi derbyn digon o wybodaeth er mwyn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw, a heb fod o dan unrhyw orfodaeth neu bwysau amhriodol.	Trwy gydol y Côd
Y Llys Gwarchod	Y llys arbenigol ar gyfer pob mater yn ymwneud ag unigolion sydd â diffyg gallu i wneud penderfyniadau penodol.	Pennod 10
Colli Rhyddid	Mae Colli Rhyddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i ddisgrifio amgylchiadau pan fo rhyddid personol unigolyn yn cael ei dynnu oddi arno. Mae ei ystyr ymarferol yn cael ei ddiffinio trwy gyfraith achos.	Pennod 2 Trwy gydol y Côd

Diogelu rhag colli rhyddid	Mae'r fframwaith diogelu o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 ar gyfer unigolion sydd angen iddynt golli eu rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu lles er mwyn derbyn gofal neu driniaeth, ac sydd â diffyg gallu i gydsynio i'r trefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer eu gofal neu driniaeth	Trwy Gydol y Côt
Asesiad o ddiogelu rhag Colli Rhyddid	Unrhyw un o'r chwe asesiad sydd angen ymgymryd â nhw fel rhan o'r broses caniatáu colli rhyddid safonol	Pennod 4
Dirprwy	Rhywun a benodwyd gan y Llys Gwarchod gydag awdurdod cyfreithiol parhaus, wedi ei ddiffinio gan y Llys, i wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn sydd â diffyg gallu i wneud penderfyniadau penodol.	4.26, 4.65, 5.11, 5.22, 7.7, 7.13–7.15, 7.18, 7.23, 7.29, 10.3, 10.8
Derbynnydd	Unigolyn sy'n cael ei benodi dan Bŵer Atwrnai Parhaol sydd â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau oddi mewn i sgôp eu hawdurdod ar ran yr unigolyn (Y derbyniwr) a wnaeth y Pŵer Atwrnai Parhaol.	3.9, 4.26, 4.65, 5.11, 5.22, 7.7, 7.13–7.15, 7.18, 7.23, 7.29, 10.3, 10.8
Asesiad Cymhwyster	Asesiad at ddibenion diogelu rhag colli rhyddid, i asesu a yw'r unigolyn yn anghymwys ar gyfer i golli rhyddid safonol gan y byddai'r caniatâd yn gwrthdaro â'r gofynion sydd, neu a allai gael ei osod ar yr unigolyn, o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983	4.40–4.57
Cymhwyster	Confensiwn wedi ei lunio gan Gyngor Ewrop yn amlinellu nifer o hawliau a rhyddid sifil a gwleidyddol, a chreu mecanwaith ar gyfer gweithredu'r ymrwymadau a gytunwyd arnynt gan y gwladwriaethau sy'n rhan ohono	Pennod 1, Pennod 2
Llys Hawliau Dynol Ewrop	Y llys y gall unrhyw wladwriaeth neu unigolyn gyflwyno cais iddo os ydynt yn credu bod gweithred yn groes i Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol	Cyflwyniad i Bennod 1, 2.1-2.2
Gwarchodaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983	Penodi gwarchodwr i helpu ac arolygu cleifion yn y gymuned er eu lles eu hunain neu er mwyn amddiffyn pobl eraill. Gall y gwarchodwr fod un ai'n awdurdod lleol neu unigolyn preifat sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol	4.43, 4.44

Eiriolwr Annibynnol o ran Gallu Meddyliol (EGMA)	Rhywun sy'n darparu cefnogaeth a chynrychiolaeth ar gyfer unigolyn â diffyg gallu i wneud penderfyniadau penodol, pan nad oes gan unigolyn unrhyw un arall i'w gefnogi. Sefydlwyd yr EGMA gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 ac nid yw'r un fath â gwasanaeth eiriolaeth arferol	3.22–3.28, 7.34–7.41 3.16, 4.7, 5.7–5.8, 5.18, 6.8, 6.19, 6.27–6.28, 7.4, 7.23, 7.26, 8.18, 8.28, 9.6, 9.9
Atwrneiaeth Arhosol	Pŵer Atwrnai a grëwyd dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 gan benodi atwrnai (derbynnnydd) neu atwrneiod, i wneud penderfyniadau am les personol y derbyniwr, gan gynnwys gofal iechyd, a/neu ddelio gydag eiddo neu faterion y derbynnnydd	10.8
Triniaeth Cynnal Bywyd	Triniaeth sydd, yng ngolwg yr unigolyn sy'n rhoi gofal iechyd, yn angenrheidiol i gadw unigolyn yn fyw	5.13
Awdurdod Lleol	Yng nghyd-destun diogelu rhag colli rhyddid, y cyngor lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol mewn unrhyw ardal benodol yn y wlad	1.4, 2.18, 2.21, 3.3, 3.11, 3.21, 4.77
Bwrdd Iechyd Lleol (BILL)	Mae'r byrddau iechyd lleol yn cyfateb i'r un ardaloedd daearyddol ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'u hawdurdodau lleol wrth gynllunio strategaethau tymor hir ar gyfer delio gyda materion iechyd a lles yn eu hardaloedd.	1.4, 3.3
Prif Gôd	Prif Gôd Ymarfer ar gyfer Deddf Gallu Meddyliol 2005	Trwy Gydol y Côd
Awdurdod Rheoli	Yr unigolyn neu gorff â chyfrifoldeb rheolaethol dros yr ysbyty neu'r cartref gofal lle y mae unigolyn neu lle gall unigolyn golli ei ryddid	1.4–1.5, 3.1 Trwy Gydol y Côd
Y Cyfnod Hwyafl o ganiatâd	Y cyfnod hwyaf y gall corff goruchwyllo roi o ganiatâd safonol i golli rhyddid na all fynd y tu hwnt i'r cyfnod sy'n cael ei argymhell gan yr asesydd lles, ac ni all fod yn hwy na 12 mis	4.71
Deddf Gallu Meddyliol 2005	Deddfwriaeth sy'n llywodraethu gwneud penderfyniadau i bobl sydd â diffyg gallu i wneud penderfyniadau eu hunain, neu sydd â'r gallu, ond sydd am wneud paratodau ar gyfer amser lle y gallent fod heb y gallu hwn yn y dyfodol. Mae'n amlinellu pwy sy'n gallu gwneud penderfyniadau ym mha amgylchiadau, a sut y gallent fynd ati.	Trwy Gydol y Côd

Asesu Gallu Meddyliol	Asesiad ar gyfer dibenion diogelu rhag colli rhyddid, a yw unigolyn â diffyg gallu o ran y cwestiwn a ddylent gael eu cadw mewn ysbyty neu gartref gofal neu beidio, er mwyn derbyn gofal neu driniaeth.	4.29–4.32
Anhwylder Meddyliol	Unrhyw anhwylder neu anabledd meddyliol, ar wahân i ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau. Mae hyn yn cynnwys pob anabledd dysgu	1.4, 1.7, 1.9, 3.9, 4.33–4.35, 4.45, 4.50, 5.9, 5.22, 6.3
Deddf Iechyd Meddwl 1983	Deddfwriaeth yn bennaf am ofal a thriniaeth orfodol cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw claf mewn ysbyty oherwydd triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol wedi'i arolygu a gwarchodaeth.	4.33–4.57 1.1, 1.11–1.12, 2.13, 4.5, 5.19, 5.22, 7.8, 8.3, 8.19–8.21
Asesiad Iechyd Meddwl	Asesiad at ddibenion diogelu rhag colli rhyddid, a oes gan unigolyn anhwylder meddyliol	4.33–4.39
Asesiad Dim Gwrthod	Asesiad at ddiben diogelu rhag colli rhyddid a oes unrhyw awdurdod presennol gyfer gwneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn dan sylw a allai osgoi rhoi caniatâd safonol i golli rhyddid. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys rhag blaen, neu benderfyniad dilys gan ddirprwy neu dderbynydd wedi'i benodi gan Atwrneiaeth Arhosol	4.25–4.28
Gofyniad Cymhwys	Unrhyw un o'r 6 gofyniad cymhwys (oed, iechyd meddwl, lles, cymhwysedd a dim gwrthod) sydd angen eu hasesu a'u hateb er mwyn rhoi caniatâd safonol i golli rhyddid.	4.1
Ysbyty neu gartref gofal perthnasol	Yr ysbyty neu'r cartref gofal ble mae'r unigolyn, neu lle gall yr unigolyn, golli ei ryddid	Trwy gydol y Côd
Unigolyn perthnasol	Unigolyn, sydd wedi, neu a all golli ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal.	Trwy gydol y Côd
Cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol	Unigolyn sy'n annibynnol o'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol, a benodwyd i gadw cysylltiad â'r unigolyn dan sylw, ac i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn perthnasol â phob mater yn ymwneud â rhoi'r diogelu rhag colli rhyddid ar waith	Pennod 7

Ataliaeth	Defnyddio, neu fygwth defnyddio, grym i helpu i gyflawni gweithred y mae'r person yn ei gwrthwynebu. Dim ond pan fo'n angenrheidiol i amddiffyn yr unigolyn rhag niwed y gellir defnyddio ataliaeth, ac os yw'n gymesur â'r perygl o niwed	2.8–2.15
Cyfyngiad rhyddid	Gweithred a gyflawnir ar unigolyn nad yw cynddrwg â cholli rhyddid	Pennod 2
Adolygiad	Golwg newydd, ffres, ar sefyllfa unigolyn dan sylw pan fu newid (o bosibl) mewn amgylchiadau, a all olygu bod angen addasu neu ddiddymu caniatâd safonol i golli rhyddid.	Pennod 8
Caniatâd safonol	Caniatâd sy'n cael ei roi gan gorff goruchwyllo, wedi cwblhau'r broses asesu statudol, gan roi awdurdod cyfreithiol i'r unigolyn dan sylw golli ei ryddid yn yr ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol	Pennod 4 Trwy Gydol y Côd
Triniaeth Gymunedol dan oruchwyliaeth	Trefniadau ble gall unigolion gael eu rhyddhau o'r ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ond yn parhau o dan amodau'r ddeddf yn y gymuned yn hytrach na'r ysbyty. Gall cleifion ar driniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth gael eu galw'n ôl i'r ysbyty os oes angen hynny eto.	4.41, 4.50, 4.51
Corff Goruchwyllo	Ymddiriedolaeth Iechyd Lleol, awdurdod lleol, Gweinidogion Cymreig neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais am golli rhyddid a gaiff ei dderbyn gan awdurdod rheoli, comisiynu'r asesiadau statudol, a ble bo'r asesiadau oll yn gytûn, caniatáu colli rhyddid.	1.4, 3.3 Trwy Gydol y Côd
Colli rhyddid heb ganiatâd safonol	Sefyllfa pan fo unigolyn yn colli ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i hynny gael ei ganiatáu gan naill ai ganiatâd(au) brys neu safonol o golli rhyddid.	Pennod 9

Caniatâd brys	Caniatâd a roir gan awdurdod rheoli am uchafswm o saith niwrnod, y gellir ei ymestyn am uchafswm o saith niwrnod gan gorff goruchwylio, sy'n rhoi awdurdod cyfreithiol i'r awdurdod rheoli colli rhyddid unigolyn mewn ysbyty neu gartref gofal, gan fod y broses safonol o ganiatáu colli rhyddid yn digwydd.	Pennod 6 Trwy gydol y Côd
---------------	--	-------------------------------------

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Gyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID9780113228256 09/08

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys isafswm o 50% o ffibr a ailgylchwyd

Gellir llawrlwytho copïau o'r cyhoeddiad hwn o
www.publicguardian.gov.uk

Mae copïau caled o'r cyhoeddiad hwn ar gael o TSO(Y Llyfrfa)

Am fwy o wybodaeth am y Ddeddf Gallu Meddyliol cysylltwch â
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

9am – 5pm, Llun - Gwener

Ffôn: 0845 330 2900 (cost galwad leol)

neu +44 207 664 7000 (ar gyfer galwadau o'r tu allan i'r DU)

Ffôn testun: 020 7664 7755

Ffacs: 0870 739 5780 (galwadau o fewn y DU)

Ebost: custserv@publicguardian.gsi.gov.uk

Gwefan: www.publicguardian.gov.uk

Drwy'r post: Office of the Public Guardian
Archway Tower
2 Junction Road
London N19 5SZ

£12.50



www.tso.co.uk

